Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

`

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

*Datganiad o Gyfrifon 2018/19*

*(Cyfrifon y Grŵp)*

## Cynnwys

**Adroddiad Naratif** ... 4

**Datganiad o Gyfrifoldebau** ... 24

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys** . 25

**Dadansoddiad o Wariant a chyllid** ... 28

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** ... 30

**Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** ... 33

**Mantolen** ... 35

**Datganiad Llif Arian Parod** ... 36

**Cronfa Bensiwn yr Heddlu** ... 37

**Nodiadau i'r Cyfrifon** ... 38

*1. Polisïau cyfrifyddu ... 38*
*2. Addasiadau cyfnod blaenorol ... 45*
*3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto ... 45*
*4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu ... 46*
*5. Rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif ... 46*
*6. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd ... 46*
*7. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ... 47*
*8. Incwm segmentaidd ... 50*
*9. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau ... 50*
*10. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ... 53*
*11. Incwm a gwariant gweithredu arall ... 54*
*12. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi ... 55*
*13. Trethiant ac incwm grant amhenodol ... 55*
*14. Eiddo, offer a chyfarpar ... 56*
*15. Eiddo buddsoddi ... 58*
*16. Offerynnau ariannol ... 59*
*17. Dyledwyr byrdymor ... 63*
*18. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ... 63*
*19. Asedau a ddelir i'w gwerthu ... 63*
*20. Credydwyr Byrdymor ... 63*
*21. Darpariaethau ... 63*
*22. Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy ... 64*
*23. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau gweithredu ... 68*
*24. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau buddsoddi ... 68*
*25. Datganiad llif arian parod - gweithgareddauariannu ... 69*
*26. Gwasanaethau Asiantaeth ... 69*
*27. Trefniadau Cydweithio ... 69*
*28. Cydnabyddiaeth swyddogion ... 75*
*29. Costau archwilio allanol ... 78*

*30. Incwm Grant ... 78*
*31. Partïon cysylltiedig ... 79*
*32. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf ... 80*
*33. Prydlesau ... 80*
*34. Buddiannau terfynu ... 81*
*35. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig ... 81*
*36. Rhwymedigaethau Digwyddiadol ... 89*
*37. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol ... 89*
*38. Cronfeydd Ymddiriedolaeth ... 92*

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2018-19 ... 93**

## Adroddiad Naratif

### 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod yr adroddiad naratif hwn yw rhoi gwybodaeth am y materion pwysicaf a nodwyd o fewn cyfrifon y Grŵp ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys a hefyd roi cyd-destun sefydliadol ehangach.

1.2 Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu, sef y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan bob unigolyn gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Caiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd ac, felly, mae'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona. Etholwyd Mr Dafydd Llywelyn yn Gomisiynydd ym mis Mai 2016. Penodwyd Mr Mark Collins yn Brif Gwnstabl Dyfed-Powys gan y Comisiynydd ym mis Rhagfyr 2016.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif amcan, strategaethau a'r prif risgiau y mae'r Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwadau ynglŷn â sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio er mwyn cyflawni canlyniadau a ddymunir yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

1.4 Mae'n ceisio rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol, y gellir ei ddefnyddio i roi cyd-destun i'r wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ariannol er mwyn gwella dealltwriaeth y darllenwr.

1.5 Bydd yr adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol
- Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol
- Model Sefydliadol
- Perfformiad Ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig
- Sail gwaith paratoi a chyflwyno

### 2.0 Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol

*2.1 Gan rychwantu 4,188 o filltiroedd sgwâr, ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, 2 borthladd mawr, 350 o filltiroedd o arfordir ac ardaloedd mawr o gefn gwlad, mae daearyddiaeth yr ardal yn creu galw sylweddol a heriau o ran adnoddau.*



2.2 Mae'r boblogaeth breswyl o 515,870 wedi'i gwasgaru dros ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a marchnad yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae twristiaeth yn creu galw tymhorol unigryw wrth i nifer fawr o dwristiaid ymweld â threfi allweddol sy'n effeithio ar lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal â marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd.

2.3 Mae 47.2% o breswylwyr Dyfed-Powys yn siarad Cymraeg o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 29.9%. Fel gwasanaeth, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y gweithlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod y cyhoedd, lle bo hynny'n bosibl, yn cael y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

2.4 Mae nifer Swyddogion yr Heddlu wedi aros yn weddol sefydlog dros y 5 mlynedd diwethaf ond, yn 2018/19, bu lleihad bwriadol i 1120 o swyddogion (heb gynnwys swyddogion ar secondiad a swyddi eraill a ariennir yn allanol). Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynllun Diswyddiadau Cynnar Gwirfoddol i Swyddogion yr Heddlu a fyddai'n cyfrannu £1.2m o ostyngiadau mewn costau. Gwnaed gwaith craffu ac ymgynghori trylwyr mewn perthynas â'r polisi newydd hwn a oedd yn anelu at helpu'r Heddlu i redeg yn effeithlon, hwyluso gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth a sicrhau cymysgedd sgiliau effeithiol a da. Fodd bynnag, mae nifer y staff cymorth sydd gan yr heddlu wedi cynyddu i 675. Mae'r gweithlu hefyd yn cynnwys 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a 98 o gwnstabliaid gwirfoddol.

2.5 Mae'r hinsawdd ariannol yn heriol ac mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiadau o 22% neu £14.16 miliwn mewn arian grant canolog rhwng Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a 2018/19. Bu'n rhaid i'r Heddlu arbed £24.7 miliwn dros y cyfnod hwn ac mae ganddo gynllun effeithlonrwydd ac arbedion helaeth i'r dyfodol.

2.6 Mynegwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, cyllid a chadernid yr heddlu yn ogystal â'r baich cynyddol sydd arno, gan gynnwys cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, sydd oll yn amlygu ac yn cadarnhau'r sefyllfa ddifrifol ac ansicr iawn sy'n wynebu Dyfed-Powys a gwasanaeth yr heddlu yn gyffredinol. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i fynegi pryderon am hyn a'r effeithiau a'r risgiau sylweddol iawn sy'n bygwth cymunedau Dyfed-Powys ac mae rhagor o fanylion ar gael yn

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/7138/police-and-crime-panel-precept-report-2019.pdf

2.7 Ochr yn ochr â'r cyd-destun ariannol anodd hwn, mae'r galw yn parhau i gynyddu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae nifer y troseddau cofnodedig wedi cynyddu er bod newidiadau i'r ffordd y caiff troseddau eu cofnodi wedi cael effaith fawr ar hyn. Mae pob heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi profi cynnydd tebyg gyda'r cynnydd mwyaf nodedig mewn troseddau treisgar.

2.8 Gofynnir i swyddogion a staff yr heddlu ddelio ag ystod eang o faterion pwysig sy'n effeithio ar y cyhoedd.

| | | |
|---|---|---|
| Antisocial Behaviour | Fraud | Property crime |
| Brexit | Governance | Resources |
| CCTV | Justice | Roads policing |
| Children and young people | Mental health | Sexual crime |
| Crime investigation | Modern Day Slavery | Specialist capabilities |
| Cyber crime | Neighbourhood policing | Stop and search |
| Digital technology | Organised Crime | Terrorism |
| Domestic abuse | Police Effectiveness | Violent crime |
| Drugs and alcohol | Police legitimacy | Workforce |
| Firearms | 999 Response | Youth and Policing |

2.9 Mae'r gwasanaeth yn datblygu'n gyflym er mwyn ymateb i risgiau newydd, bygythiadau a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio.

2.10 Mae'r Heddlu wedi datblygu cynllun cyflenwi ar gyfer 2017-21 a Gweledigaeth ar gyfer 2025 a chaiff y ddwy ddogfen lefel uchel hyn eu hategu gan gynlluniau manwl. Mae'r cynlluniau'n cydnabod yr amgylchedd gweithredol ac ariannol anodd, yr angen i barhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy a'r angen i sicrhau bod gan yr heddlu adnoddau ac asedau cyfatebol i ateb y galw'n briodol.

2.11 Gyda chefnogaeth y Comisiynydd, mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn plismona digidol, gan sicrhau y gall swyddogion rheng flaen a PCSOs ddefnyddio systemau'r heddlu drwy ddyfeisiau data symudol a chamerâu fideo a gaiff eu gwisgo ar y corff, yn ogystal â chyflwyno systemau telemateg mewn cerbydau er mwyn ymateb yn well i ddigwyddiadau. Mae systemau teledu cylch cyfyng wedi parhau i gael eu cyflwyno'n eang ar draws yr ardal, gan weithio fel ataliad yn ogystal ag arf gwerthfawr ac effeithiol i'w ddefnyddio mewn ymchwiliadau troseddol.

2.12 Nid yw plismona yn wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond mae cryn dipyn o'r gwaith a wneir ledled y pedair Sir yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân, Byrddau Iechyd Lleol a llawer o bartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Hefyd, caiff nifer o wasanaethau pwysig, fel Ymateb Arfog ac ymateb i'r bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol a Therfysgaeth, eu darparu ar y cyd â Heddluoedd eraill.

2.13 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cyfrannu at weithgareddau plismona cenedlaethol ac mae ei swyddogion a'i staff wedi helpu gyda nifer o ddigwyddiadau plismona proffil uchel yn ystod y flwyddyn, fel gwaith a gafodd ei ad-dalu, gan gynnwys:

- Achos gwenwyno Caersallog - Heddlu Wiltshire
- Ymweliad Arlywydd yr UD
- Cyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad
- Uwch-gynhadledd Gorllewin y Balcanau (Llundain)
- Y Briodas Frenhinol ar 12 Hydref 2018

2.14 Yn fwy lleol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymdrin â nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau mawr, wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys:

- "Ymgyrch Regent" a arweiniodd at gyhuddo 19 o bobl o gynllwynio i gyflenwi cyffuriau dosbarth A yng ngogledd Powys;
- Y tân angheuol yn Nhŷ Belgrave, Aberystwyth. Cafodd naw oedolyn a thri phlentyn eu hachub o'r gwesty ar ôl i'r tân gynnau ar 25 Gorffennaf y llynedd;
- Y llofruddiaethau trasig yn ardal Trefyclo ym mis Ebrill 2018 ac yn ardal Pentywyn ar 28 Medi;
- Nifer o ddigwyddiadau trasig eraill a oedd wedi cyflwyno heriau gweithredol sylweddol a gofynion anghyffredin o ran adnoddau;
- Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol gan gynnwys y Sioe Frenhinol a Gŵyl y Gelli.

## 3.0 Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol

3.1 Mae trefniadau Llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gymhleth a chawsant eu hadolygu'n feirniadol yn ystod 2018/19. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon hwn, sy'n manylu ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwaith craffu ac atebolrwydd cadarn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

3.2 Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei Swydd o dan y Goron ac mae'n gyfrifol am gadw Heddwch y Frenhines.

3.3 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys y praesept) a sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

3.4 Y Comisiynydd sydd hefyd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sicrhau bod materion busnes yn cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal.

3.5 Mae Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd yn ddogfen bwysig sy'n nodi pedair blaenoriaeth a phum egwyddor gyflawni allweddol, sef:

| **Blaenoriaethau** | **Egwyddorion Cyflawni** |
|---|---|
| Cadw Cymunedau'n Ddiogel | Sicrhau Gwerth am Arian |
| Diogelu'r Rhai Agored i Niwed | Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
| Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol | Gweithio gyda'n Gilydd |
| Cysylltu â chymunedau | Cefnogi Dioddefwyr |
| | Cydraddoldeb a Thegwch |

3.6 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i atgyfnerthu cydberthynas gadarn a phroffesiynol rhwng y ddwy swyddogaeth ond maent yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer gwella Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth y mae'n ei roi i'r cyhoedd.

3.7 Ariannodd y Comisiynydd nifer o wasanaethau yn ystod 2018/19 i ategu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu:

- Roedd y Comisiynydd wedi dwyn y gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghyd er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwasanaeth di-dor, waeth beth fo'u profiad. Cydnabyddir bod y gwahaniaeth rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn aml yn niwlog ac y gall dioddefwr brofi'r ddau ar adegau gwahanol. Cafodd gweithwyr cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol eu trosglwyddo i Goleudy sydd bellach â thîm o swyddogion gofal i ddioddefwyr a gweithwyr achos cymhleth a fydd yn helpu dioddefwyr ar bob cam o'u taith.

- Chwaraeodd y Comisiynydd rôl flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu trefniant comisiynu ar y cyd â'r pedwar Awdurdod Lleol yn ardal Dyfed-Powys. Arweiniodd hyn at ddyfarnu contract newydd i roi gwasanaethau cynghori annibynnol i ddioddefwyr cam-drin domestig y credir eu bod yn wynebu risg uchel, gan uno 5 trefniant gwahanol ar draws yr ardal. Bydd y gwasanaeth a ddarperir gan Hafan Cymru yn sicrhau bod dioddefwyr ledled ardal Dyfed-Powys yn cael cynnig yr un ddarpariaeth ac mae'n cynnig un pwynt cyswllt fel y gall comisiynwyr ddylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir. Yn ogystal â hyn, llwyddodd y Comisiynydd i drefnu bod Goleudy yn rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig sydd wedi cael asesiad risg safonol neu ganolig. Roedd hyn yn sicrhau bod pawb sy'n dioddef cam-drin domestig yn cael cynnig gwasanaethau cymorth priodol.

- Parhaodd y Comisiynydd i weithio gydag asiantaethau partner er mwyn gwella'r ymateb i gefnogi dioddefwyr cam-drin rhywiol. Parhaodd Llwybrau Newydd (*New Pathways*) i ddarparu gwasanaeth cymorth mewn argyfwng sy'n gweithio'n agos gyda'r heddlu er mwyn darparu archwiliadau meddygol fforensig a helpu dioddefwyr a thystion drwy gymhlethdod y broses cyfiawnder troseddol. Atgyfeiriwyd 335 o gleientiaid at y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, a dywedodd 92% ohonynt yn 2018/19 eu bod yn teimlo'n llai isel ar ôl cael triniaeth, gydag 83% yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well.

- Mae'r Comisiynydd yn bartner hanfodol o fewn Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n gyfrifol am ddarparu atebolrwydd, llywodraethu a chraffu ar waith cynllunio strategol, perfformiad a rheolaeth ariannol ym maes camddefnyddio sylweddau. Mae gan Fyrddau Cynllunio Ardal yr un ôl troed â Byrddau Iechyd a'r aelodau yw'r awdurdodau cyfrifol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd i ddarparu triniaethau camddefnyddio sylweddau yn rhanbarthau Hywel Dda a Phowys. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ariannu cyfleusterau yn y ddalfa i nodi troseddwyr sydd â phrolemau camddefnyddio sylweddau a rhoi llwybr iddynt at wasanaethau priodol. Yn 2018/19 cafodd cynllun brysbennu ei dreialu mewn dalfeydd yn Sir Benfro a oedd yn ymestyn ar y Cynllun Braenaru blaenorol i Fenywod ac yn ceisio canfod prif achosion troseddau a mynd i'r afael â nhw. Ar ôl gwerthuso'r canlyniadau a gyflawnwyd, y bwriad yw cyflwyno cynllun dargyfeirio ledled ardal Dyfed-Powys yn y dyfodol.

- Roedd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cyfiawnder adferol a arweinir gan ddioddefwyr ac wedi gweithio'n agos gyda Goleudy i sicrhau bod pob dioddefwr yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddo o ran ymarfer adferol. Mae ymyriad Cyfiawnder Adferol yn broses lle mae'r dioddefwr a'r troseddwr yn dod ynghyd i benderfynu sut y dylid ymdrin â'r hyn sydd wedi digwydd ar ôl trosedd.

- Parhaodd y Comisiynydd i gomisiynu gwasanaethau drwy Llamau sy'n rhoi gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol i blant a phobl ifanc y rhoddwyd gwybod eu bod ar goll neu mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol. Yn 2018/19,

cynhaliodd Llamau 329 o sesiynau ôl-drafod gyda phobl ifanc a'u teuluoedd a darparodd wasanaeth cyfryngu i 8 teulu drwy gydol y flwyddyn.

3.8 Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am helpu'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei drefniadau cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Adroddir ar hynt y cynllun bob chwarter yng nghyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona; cyfarfod cyhoeddus yw hwn lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm i gyfrif. Mae'r Adroddiad diweddaraf ar Berfformiad ar gael yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod diwethaf yn: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-atebolrwydd-yr-heddlu/


3.9 Mae nifer o fetrigau maint ac allbwn yn cael eu monitro fel rhan o'r trefniadau sicrwydd a llywodraethu. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi dangosyddion o gynnydd a pherfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae Byrddau priodol o fewn y strwythur Llywodraethu'n monitro perfformiad ac yn craffu arno gan ganolbwyntio'n benodol ar welliant.

3.10 Mae'r ymateb cychwynnol i alwadau am wasanaeth yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn amserol ac yn effeithlon. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i ateb galwadau 999 ymhell o fewn y Safon Ateb Galwadau Cenedlaethol, sef 10 eiliad. Yn yr un modd, mae dros 90% o alwadau nad ydynt yn rhai brys i rif 101 yn cael eu hateb mewn llai na 45 o eiliadau. Nid yw nifer y galwadau am wasanaeth i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi newid fawr ddim dros y 4 blynedd ddiwethaf ac ni ragwelir y bydd y galw yn newid rhyw lawer dros y blynyddoedd nesaf.

3.11 Mae amseroedd ymateb i alwadau am wasanaeth, yn unol â'r flaenoriaeth a roddir iddynt, yn dda iawn. Mae rhai heriau daearyddol i'w hwynebu mewn lleoedd fel Llanbedr Pont Steffan a Sir Faesyfed ond mae'r amseroedd ymateb yn llawer gwell o gymharu â heddluoedd eraill.


3.12 Mae'r Siart yn dangos bod cyfanswm y troseddau cofnodedig wedi bod yn cynyddu ers mis Chwefror 2018 ond mae'n ymddangos ei fod wedi sefydlogi ers mis Medi 2018.

Ffigur 1: Cyfanswm y troseddau cofnodedig dros amser



3.13 O ran troseddau cofnodedig, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn Troseddau Treisgar, Troseddau Trefn Gyhoeddus, Troseddau Rhyw a Seiberdroseddau. Nodwyd cynnydd hefyd mewn troseddau Meddu ar Arf a Lladrata ac er bod y niferoedd hyn yn fach, mae difrifoldeb y troseddau ac, yn wir, y ffocws cenedlaethol ar droseddau'n ymwneud â chyllyll yn golygu ei bod yn bwysig bod yr heddlu'n parhau i gofnodi troseddau o'r fath a delio â nhw'n effeithiol.

Ffigur 2: Cymharu categorïau troseddau 2017/18 a 2018/19




3.14 Mae ffonau symudol, cyfrifiaduron a dyfeisiau llechen sy'n cysylltu â'r Rhyngrwyd a'r Cyfryngau Cymdeithasol wedi arwain at newid aruthrol yn y ffordd y caiff rhai troseddau eu cyflawni, fel stelcio ac aflonyddu, troseddau rhyw a thwyll. Wrth i gapasiti storio ein dyfeisiau digidol gynyddu, felly hefyd yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gael gafael ar y data. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, archwiliodd Uned Seiberdroseddu Heddlu Dyfed-Powys 63.4 terabeit o ddata o gymharu â 19.1 terabeit yn 2017, ond nid yw nifer yr Ymchwilwyr Digidol wedi cynyddu. Mae'r heddlu wedi adolygu'r ffordd y mae'n ymdrin ag ymchwiliadau digidol ac mae'n bwriadu cyflwyno strwythur a fydd yn sicrhau gwasanaeth cyflym ac effeithlon.

3.15 Mae Llinellau Sirol yn cyfeirio at Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol sy'n gwerthu cyffuriau mewn lleoliadau mwy gwledig ond sy'n cael eu rhedeg o ganolfannau mwy poblog. Yn genedlaethol, mae sylw mawr wedi cael ei roi i'r cynnydd mewn troseddau Llinellau Sirol. Mae nifer cymharol fach o Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn gweithio yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r heddlu wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd i sicrhau ein bod yn chwalu ac yn amharu ar weithgarwch Llinellau Sirol yn effeithiol gan leihau'r effaith ar ein cymunedau yn ogystal ag amddiffyn y bobl agored i niwed sy'n cael eu targedu gan y grwpiau hyn.

3.16 Gwneud yr hanfodion yn dda yw un o brif ymrwymiadau'r Prif Gwnstabl ac mae hyn yn berthnasol i bob maes gwaith. Ar gyfer 2019, penderfynwyd bod Plismona yn y Gymdogaeth a Cham-drin Domestig yn feysydd â blaenoriaeth y mae'r tîm Prif Swyddogion ac uwch-arweinwyr eraill yn canolbwyntio arnynt er mwyn ysgogi gwelliannau i ddiogelu ein cymunedau ymhellach.

3.17 O ran cam-drin domestig, mae'r heddlu wedi cyflwyno desg ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed, fel rhan o raglen waith ehangach i ddelio'n well â phob digwyddiad o'r fath a ddaw i'n sylw, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaeth gorau posibl. Mae tîm o swyddogion yn sicrhau ansawdd pob galwad a dderbynnir am ddigwyddiad domestig er mwyn sicrhau bod gan y swyddogion sy'n ymateb yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt a bod anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu.

3.18 Mae ansawdd ac amseroldeb ymchwiliadau i achosion o Dreisio a throseddau Rhyw Difrifol yn hynod o bwysig i Heddlu Dyfed-Powys. Mae cynlluniau gweithredu ar waith i alluogi Uwch-Swyddogion i graffu ar ymchwiliadau a sicrhau atebolrwydd cadarn. Adroddir ar gynnydd y cynlluniau gweithredu hyn drwy strwythur llywodraethu'r heddlu.

3.19 Mae faint o amser a gymerir i ddelio â throsedd a'i chau[1] wedi lleihau 16 diwrnod dros y flwyddyn ddiwethaf[2] o ganlyniad i ymdrechion cyson i sicrhau ein bod yn delio â throseddau a gaiff eu dwyn i'n sylw yn amserol a bod swyddogion yn cael eu dyrannu'n briodol i alwadau am wasanaeth bob amser.

3.20 Mae cyfraddau collfarnu mewn Llysoedd Ynadon yn gyson well yn ardal Dyfed-Powys o gymharu â heddluoedd eraill. Yn gyffredinol, mae cyfraddau collfarnu yn Llysoedd y Goron hefyd yn well na heddluoedd eraill ond mae'r niferoedd yn is ac yn fwy tebygol o amrywio.

3.21 Rydym yn defnyddio dwy ffynhonnell o wybodaeth allweddol i ganfod barn y cyhoedd ar blismona lleol, sef Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr sy'n rhoi safbwynt y cyhoedd ar blismona a'r Arolwg o Foddhad Dioddefwyr sy'n rhoi gwybod am brofiad dioddefwyr o blismona. Caiff yr Arolwg Troseddu ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chaiff yr Arolwg o Foddhad Dioddefwyr ei gynnal gan staff yr heddlu yn swyddfa'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, gwasanaeth a gomisiynir gan ein Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn gyffredinol, mae'r Arolwg o Foddhad Dioddefwyr yn awgrymu bod dioddefwyr yn fodlon ar y profiad cyfan ond mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr am hynt ymchwiliadau i droseddau yn faes y nodir yn gyson y mae angen ei wella.

a. <u>Canlyniadau Troseddau</u>


O ystyried troseddau a gafodd eu dwyn i'n sylw ac y pennwyd canlyniad (terfynol) iddynt yn 2018/19, pennwyd canlyniad i 63% (17,835) ohonynt o fewn 30 diwrnod i ni gael gwybod amdanynt. Mae hyn yn gynnydd o 4% o gymharu â 2017/18. Mae nifer y troseddau y pennir canlyniad iddynt o fewn 30 diwrnod yn dibynnu'n fawr ar y math o drosedd, a'i natur. Y tebyg yw y bydd yn cymryd mwy o amser i bennu canlyniad ar gyfer troseddau mwy cymhleth, megis troseddau rhyw a lladrad (33% a 47%, yn y drefn honno), na throseddau a ystyrir yn llai cymhleth, megis difrod troseddol a throseddau sy'n ymwneud â threfn gyhoeddus (71% a 67% yn y drefn honno).

b. <u>Boddhad dioddefwyr</u>

Cynhaliwyd 798 o gyfweliadau dros y ffôn yn 2018/19 er mwyn nodi i ba raddau roedd dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon ar y gwasanaethau

[1] drwy bennu "Canlyniad"
[2] Ym mlwyddyn ariannol 2017/2018, roedd hi wedi cymryd 53 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i bennu Canlyniad i drosedd. Yn 2018/2019, roedd hi wedi cymryd 37 o ddiwrnodau i bennu Canlyniad i drosedd.

plismona a gawsant. Mae'r graff isod yn canolbwyntio ar bum agwedd ar daith ein dioddefwyr.





Ymddengys bod cyfraddau boddhad is o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dylanwadu ar gyfradd boddhad profiad cyfan unigolyn. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i roi mesurau ar waith i ymateb i'r adborth hwn, a thrwy hynny wella profiad dioddefwyr.

3.22 Er gwaethaf nifer o newidiadau yng Ngrŵp Prif Swyddogion yr Heddlu, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn dal i weithio'n galed gyda'i gilydd i oresgyn yr heriau sy'n parhau i'n hwynebu gan wneud cynnydd mewn nifer o feysydd pwysig. Mae ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd a chydweithio i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed wedi arwain at newid mewn ffocws, i'r hyn sy'n ofal eithriadol i ddioddefwyr fel y'i cydnabuwyd yn genedlaethol bellach.

3.23 Mae canfyddiadau'r cyhoedd yn parhau i fod yn uchel o gymharu â mannau eraill yn y wlad gyda 65.6% yn barnu bod gwaith Heddlu Dyfed-Powys yn dda neu'n ardderchog (Data Rhagfyr 2018):

**Graff 2: Canfyddiadau'r Cyhoedd - Da neu Ardderchog**




3.24 O ran Boddhad Dioddefwyr, roedd 77% yn fodlon ar y profiad cyfan ond mae'r Heddlu'n cydnabod bod gwaith i'w wneud er mwyn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr.

3.25 Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) yr arolygiad PEEL integredig blynyddol cyntaf o'r heddlu. Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ddiwedd mis Ebrill 2019 gyda'r graddau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Effeithiolrwydd | Pa mor effeithiol yw'r heddlu wrth leihau troseddau a chadw pobl yn ddiogel? | Da |
| Effeithlonrwydd | Pa mor effeithlon yw'r heddlu a pha mor gynaliadwy yw'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i'r cyhoedd? | Angen Gwella. |
| Dilysrwydd | Pa mor ddilys yw'r ffordd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd a'i weithlu? | Angen Gwella. |

3.26 Er bod y graddau'n siomedig, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i gymunedau Dyfed-Powys. Mae'r Heddlu wedi buddsoddi llawer o amser i geisio sicrhau dealltwriaeth well o'r materion y tynnwyd sylw atynt ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw.

3.27 Roedd yr Arolygiaeth wedi cydnabod y cynnydd sylweddol y mae'r Heddlu'n ei wneud wrth ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth arbenigol i gymunedau ac mae hefyd yn galonogol clywed canmoliaeth i waith y staff yng Nghanolfan Gyswllt yr Heddlu, sy'n llwyddo i adnabod pobl agored i niwed yn gyson. Dyfarnwyd bod yr Heddlu'n dda wrth drin y cyhoedd yn deg sy'n dyst i'r gwaith a wneir bob dydd i gefnogi a diogelu cymunedau Dyfed-Powys.

3.28 Mae'r Comisiynydd a Grŵp y Prif Swyddogion yn glir iawn eu bod am gael diwylliant lle mae pawb yn teimlo y gallant leisio eu barn a herio ond mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud mewn perthynas â phryderon am degwch. Cynhaliodd yr Heddlu arolwg staff yn ystod 2018/19 gyda chyfradd ymateb uchel o 62.2% a darparodd yr arolwg hwn ganlyniadau cadarnhaol iawn yn ogystal â nodi nifer o feysydd y mae angen rhoi sylw iddynt.

3.29 Mae'r Heddlu wedi parhau i ad-drefnu gwasanaethau er mwyn ateb y galw ac wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd i gyflawni llawer o'r egwyddorion cyflawni sy'n sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Heddlu Dyfed-Powys sydd â'r lefel isaf o droseddau cofnodedig ac felly dyma'r lle mwyaf diogel i fyw yng Nghymru a Lloegr gydag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn parhau i fod yn uchel iawn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid drwy'r amser, a bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ateb heriau yn y dyfodol yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adroddiad diweddaraf yr Arolygiaeth.

## 4.0 Y Model Sefydliadol

4.1 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i drefnu ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan Dîm o Brif Swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r tair rôl sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y Tabl isod:

| Dirprwy Brif Gwnstabl | Prif Gwnstabl Cynorthwyol | Cyfarwyddwr Cyllid |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Pobl | Plismona Lleol | Cyllid Corfforaethol |
| Adran Gyfreithiol | Ymchwiliadau | Fflyd |
| Rheoli Gwybodaeth | Ymateb Arbenigol | Caffael |
| Cydweithredu ac Effeithlonrwydd | Canolfan Gyswllt | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cymorth Gwyddonol | Uned Cymorth Busnes |
| Ymddeol Oherwydd Salwch | Cyfiawnder Troseddol | |
| Ymgyrchoedd Mawr | Partneriaethau | |
| Iechyd a Diogelwch | | |
| Safonau Proffesiynol | | |

4.2 Roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,191 o swyddogion yr heddlu, 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 675 o staff yr heddlu, wedi'u cyllidebu. Dangosir dadansoddiad o'r dosbarthiad staffio yn y Tabl isod:

| Breakdown of Budgeted Positions 2018-19 | | | |
|---|---|---|---|
| | Police Officers | PCSOs | Police Staff |
| | FTE | FTE | FTE |
| Local Policing | 596 | 148 | 9 |
| Investigations | 320 | 0 | 162 |
| Operational Support( Including Call Handling) | 174 | 0 | 158 |
| Criminal Justice | 2 | 0 | 45 |
| Scientific Support | 0 | 0 | 21 |
| Professional Standards | 9 | 0 | 14 |
| Other headings Inclusing Business Support | 26 | 0 | 244 |
| Seconded and Funded Areas | 64 | 0 | 22 |
| | 1,191 | 148 | 675 |

4.3 Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi cael eu cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r lefel orau bosibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol a dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Roedd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynllun Diswyddiadau Cynnar Gwirfoddol ac, yn sgil hyn, gadawodd 17.4 o staff cyfwerth ag amser llawn y sefydliad yn ystod y flwyddyn. Mae trefniadau hyfforddi newydd wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2019 o dan Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu sy'n golygu y bydd dau grŵp o gwnstabliaid dan hyfforddiant bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau creiddiol o'u hyfforddiant.

4.4 Mae gan y Comisiynydd Swyddfa sy'n ei helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y'u nodwyd yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyllid, mae gan y Comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i'w gynghori ar faterion sy'n ymwneud ag ystadau, cyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu a phartneriaethau. Mae gan y Comisiynydd gyfanswm o 41.4 o staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n cynnwys 22 o fewn y swyddogaeth Ystadau a gafodd eu trosglwyddo i'r Comisiynydd yn ystod 2017.

## 5.0 Perfformiad Ariannol

5.1 Mae Datganiad o Gyfrifon y Grŵp yn dangos perfformiad ariannol y Grŵp a chafodd ei baratoi ar sail arfer cyfrifyddu priodol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan fod y rhain yn hepgor rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen o dan statud eu cyllido'n llawn yn ystod y flwyddyn.

5.2 Mae cost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos bod £136.1 miliwn wedi cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Heddlu Dyfed-Powys yn 2018/19. Mae'r swm hwn tua £3.6 miliwn yn llai na'r ffigur cymaradwy a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. O'r lleihad hwn, gellir priodoli tua £4.9 miliwn i newidiadau mewn costau pensiwn gwasanaeth cyfredol.

5.3 Mae'r Datganiad yn rhoi dadansoddiad o brif elfennau'r gwasanaeth ac yn adlewyrchu newid strwythurol sefydliadol gyda'r flwyddyn flaenorol yn cael ei hailddatgan at ddibenion cymharu. Er enghraifft, gellir gweld mai ar Blismona Lleol y gwariwyd yr elfen fwyaf, a oedd yn cyfrif am £72.7 miliwn o'r cyfanswm yn 2018/19.

5.4 Mae'r Fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2019.

5.5 Y swm mwyaf ar Fantolen y Grŵp yw'r rhwymedigaeth hirdymor o £1,292 miliwn (£1,183 miliwn yn flaenorol) mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol i swyddogion a staff yr heddlu. Dyna'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen ar gyfer taliadau pensiynau'r holl swyddogion a staff presennol ac ymddeoledig yn y dyfodol. Cyfrifwyd y ffigur hwn yn annibynnol ar sail actiwaraidd ac mae'n ystyried lefelau cyflog, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati yn y dyfodol. Mae wedi cynyddu £109 miliwn yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol a demograffig. Caiff holl gostau pensiwn cyfredol swyddogion yr heddlu (ond nid y staff ) a'r costau yn y dyfodol eu talu gan y Llywodraeth.

5.6 Yr eitem fwyaf nesaf ar y Fantolen yw'r £73.73 miliwn o eiddo, offer a chyfapar sy'n eiddo i'r Comisiynydd. Yn ogystal â'r asedau hirdymor hyn, daliodd y Comisiynydd £17.7 miliwn o asedau byrdymor, ar ffurf buddsoddiadau byrdymor yn bennaf. Dangosir manylion yr eitemau ar y Fantolen yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiannau 2018/19

5.7 Pennwyd cyfanswm cyllideb net o £99.100 miliwn yn wreiddiol gan y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19 a oedd yn ymgorffori cynnydd o 5% ym Mand D y Dreth Gyngor ac a oedd yn dibynnu ar ddefnyddio £2.279 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i gynnal y gwariant presennol. O gyfanswm y gyllideb, neilltuwyd £95.651 miliwn fel cyllideb y Prif Gwnstabl.

5.8 Roedd y swm hwn yn cynnwys tybiaeth o ddyfarniad cyflog o 2.29% a chynnydd tybiedig o 2.5% mewn chwyddiant cyffredinol ar gostau nad ydynt yn gyflogau. Bu'r dybiaeth hon yn heriol gyda rhywfaint o bwysau mewn perthynas â chyfleustodau, ansefydlogrwydd yn y farchnad fforensig, effeithiau'r ansicrwydd ynglŷn â Brexit a'r ffaith bod y mynegai pris manwerthu yn uwch na 3%.

5.9 O fewn y lefel gwariant sylfaenol hon, roedd gostyngiadau cost o £1.925 miliwn eisoes wedi'u nodi ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau'r gweithlu, trefniadau cydweithio, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau a gafodd eu sicrhau drwy gaffael a mentrau eraill i leihau costau.

5.10 Ar ôl cydnabod difrifoldeb y sefyllfa ariannol, sefydlodd y Prif Gwnstabl grŵp Cyllid Aur yn ystod 2018/19. Caiff y grŵp Aur hwn ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl ei hun ac mae'n cynnwys pob uwch-reolwr er mwyn sicrhau bod neges a dealltwriaeth glir a chyson iawn o faterion ariannol ym mhob agwedd ar y busnes.

5.11 Mae pedwar is-grŵp penodol wedi cael eu sefydlu gyda chynrychiolaeth benodol:

- **cynllun ariannol tymor canolig** i ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn, arbedion effeithlonrwydd, lefelau cyllid ac adnoddau yn y dyfodol
- **goramser** i gynnal adolygiad beirniadol o drefniadau a gofynion
- **caffael** i gynnal adolygiad beirniadol o drefniadau a gwariant ar gontractau a chyflenwadau a gwasanaethau
- **cynhyrchu incwm** i geisio cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt

5.12 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2018/19 ac yn ei chymharu â'r gyllideb wreiddiol. Dangosir cyllideb ddiwygiedig hefyd yn y datganiad o amrywiad hwn sy'n adlewyrchu cyllidebau a symudiadau ychwanegol a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Caiff trosglwyddiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei diweddaru'n amserol. Cafodd y newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir atynt isod eu diweddaru a'u cyhoeddi yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn.

| Datganiad o Amrywiad | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Amrywiant (Cadarnhaol am Arbediad) |
|---|---|---|---|---|
| **Deiliad y Gyllideb** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | | | | |
| Costau'r Swyddfa a Chomisiynu | 1,992 | 1,965 | 1,772 | 193 |
| Costau Ystadau | 3,736 | 3,736 | 3,434 | 302 |
| **Cyfanswm Costau Cyllideb Refeniw'r Comisiynydd** | **5,728** | **5,701** | **5,206** | **495** |
| **Prif Gwnstabl** | | | | |
| Cyllidebau a Reolir yn Ganolog | | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 1,118 | 1,118 | 1,334 | -216 |
| Cyllidebau ac Incwm Corfforaethol | -2,043 | -1,611 | -2,117 | 506 |
| Gwasanaethau Cenedlaethol / Rhanbarthol / Lleol a Ariennir yn Allanol | 1,447 | 1,447 | 1,706 | -259 |
| Cymdeithasau Staff | 205 | 205 | 245 | -40 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 2,634 | 2,773 | 2,622 | 151 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 2,708 | 2,693 | 3,102 | -409 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu Corfforaethol | 1,136 | 1,136 | 865 | 271 |
| Safonau Proffesiynol | 1,103 | 1,130 | 1,090 | 40 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | | | | |
| Plismona Lleol | 55,965 | 55,639 | 55,559 | 80 |
| Ymchwiliadau | 20,251 | 20,081 | 20,113 | -32 |
| Cymorth Gwyddonol | 1,695 | 1,705 | 1,817 | -112 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1,276 | 1,276 | 939 | 337 |
| Cyfarwyddwr Cyllid | | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 4,626 | 4,616 | 4,249 | 367 |
| Uned Cymorth Busnes | 1,963 | 1,963 | 2,111 | -148 |
| Costau Fflyd | 853 | 853 | 837 | 16 |
| Cyllid a Chaffael | 713 | 653 | 543 | 110 |
| **Cyfanswm y Gyllideb – Heddlu Dyfed-Powys** | **95,650** | **95,677** | **95,015** | **662** |
| Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn – Gwarged yr Heddlu | -2,279 | -2,156 | -1,761 | -395 |
| Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr | 0 | 0 | 291 | -291 |
| Mentrau a Ariannwyd o Gronfeydd Wrth Gefn yn Ystod y Flwyddyn | 0 | -123 | -147 | 24 |
| Arbedion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'r Gronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid | 0 | 0 | 495 | -495 |
| **Cyfanswm Symudiadau Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | **-2,279** | **-2,279** | **-1,122** | **-1,157** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **99,099** | **99,099** | **99,099** | **0** |

5.13 Mae'r sefyllfaoedd alldro terfynol a nodwyd yn y Datganiad o Amrywiad uchod yn dangos bod cyllidebau'r Comisiynydd gyfanswm o £495K yn is na'r gyllideb. Sicrhawyd arbedion sylweddol o £144k yn y Swyddfa o ganlyniad i swyddi gwag a rheolaeth ariannol ddarbodus yn ystod y flwyddyn er mwyn atal gwariant nad oedd yn hanfodol. Sicrhawyd tanwariant o £47k o ganlyniad i gostau a oedd yn is na'r disgwyl ac adolygiad o wasanaethau a gomisiynwyd. Bu tanwariant o £302k ar y cyllidebau Ystadau yn bennaf o ganlyniad i ad-daliad ardrethi a ddeilliodd o adolygiad rhagweithiol o werthoedd ardrethol. Mae'r Comisiynydd wedi creu cronfa wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi mentrau cynaliadwyedd a thrawsnewid.

5.14 Mae'r Datganiad o Amrywiad uchod yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl £662K islaw'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir esboniad o'r prif resymau dros yr amrywiannau mwyaf sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2018/19 isod:

i. <u>Swyddfa'r Prif Gwnstabl:</u> Bu gorwariant o £216k ar y gyllideb hon i gyd gyda thua £165k ohono yn erbyn penawdau cyflog. Roedd hyn yn cynnwys y goblygiadau o ran costau o gofrestru dau swyddog i ddilyn y Cwrs Uwch-Reoli a'r angen i ôl-lenwi. Bu gorwariant o £41k ar gyllidebau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau o ganlyniad i danysgrifiadau a digwyddiadau ychwanegol. Roedd incwm £10k yn is na'r swm a gyllidebwyd.

ii. <u>Cyllidebau Corfforaethol:</u> Sicrhawyd arbedion o £291k yn erbyn cyllidebau staff yr heddlu drwy ddefnyddio staff i gyflawni Gweithrediadau'r Prosiect Cyfalaf TG. Yn ogystal, sicrhawyd arbedion o £481k drwy fesurau cyni a chaffael mewn perthynas â chyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a thaliadau cyfalaf. Roedd incwm a mân gyllidebau eraill £266k yn is yn bennaf o ganlyniad i leihad mewn incwm o Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu a derbyniadau Cymorth Cydfuddiannol / Gwasanaethau Arbennig.

iii. <u>Gwasanaethau Cenedlaethol / Rhanbarthol / Lleol a Ariennir yn Allanol:</u> Cafwyd gorwariant o £259K yn bennaf yn erbyn Gweithgarwch Cydweithredol Rhanbarthol.

iv. <u>Cymdeithas Staff:</u> Cofnodir gorwariant net o £40k yn erbyn y gyllideb hon o ganlyniad i'r angen i ôl-lenwi swyddi gwag mewn rhannau eraill o'r sefydliad.

v. <u>Gwasanaethau Pobl</u>: Bu tanwariant o £151k ar gyllidebau Gwasanaethau Pobl yn bennaf o ganlyniad i grantiau a gafwyd i wrthbwyso'r costau sefydlu ychwanegol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Cymwysterau Addysg newydd yr Heddlu.

vi. <u>Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch:</u> Cafwyd gorwariant o £409k yn erbyn y gyllideb hon y gellir ei briodoli'n bennaf i'r costau staffio ychwanegol sy'n gysylltiedig â Strwythur Rheoli Gwybodaeth diwygiedig a'r ffioedd cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag achosion yn y gorffennol a'r dyfodol.

vii. <u>Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu Corfforaethol:</u> Llwyddodd yr Heddlu i arbed £271k yn erbyn y penawdau hyn a'r cyfranwyr mwyaf oedd y cyllidebau costau pensiwn / ymddeoliadau o ganlyniad i salwch a derbyniadau cymorth cydfuddiannol ychwanegol.

viii. <u>Safonau Proffesiynol:</u> Cofnodir arbediad net o £40k yn erbyn safonau proffesiynol a ddeilliodd o benawdau cyflogau a phenawdau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a'r ffactor fwyaf oedd arbedion yn erbyn cyllidebau TG.

ix. <u>Cyllidebau Gweithredol a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol:</u> Roedd costau Plismona Lleol o fewn £80k i'r gyllideb yn gyffredinol er gwaethaf pwysau sylweddol o tua £449k ar gyllidebau goramser. Roedd ad-daliadau a derbyniadau Swyddogion Arfau Tanio Gwrthderfysgaeth a Chymorth Cydfuddiannol ychwanegol ac arbediad bach ar benawdau cyflogau'r heddlu wedi llwyddo i sicrhau bod hyn o fewn y cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn. Gwelwyd gorwariant bach ar y gyllideb ymchwiliadau ar £32k ac ar y gyllideb

cymorth gwyddonol ar £112k. Roedd yr Adran Cyfiawnder Troseddol wedi tanwario £337k yn erbyn y gyllideb yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod mwy na'r disgwyl wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o oryrru.

x. Y Gyfarwyddiaeth Gyllid: Mae'r Gyfarwyddiaeth hon yn cwmpasu Adrannau Cyllid Corfforaethol, Fflyd, TGCh, Cymorth Busnes a Chaffael Heddlu Dyfed-Powys. Arweiniodd mesurau cyni, incwm ychwanegol a phrosesau caffael nad oeddent yn ymwneud â chyflogau at danwariant bwriadol mawr o £367k yn erbyn cyllidebau TGCh. Roedd derbyniadau incwm o Drwyddedau Arfau Tanio ac Adfer Cerbydau yn is na'r disgwyl sydd wedi arwain at orwariant gwrthbwysol o £148k yn erbyn penawdau Cymorth Busnes. Bu tanwariant o £126k yn erbyn penawdau Fflyd a Chyllid / Caffael o ganlyniad i swyddi gwag a derbyniadau incwm ychwanegol.

5.15 Roedd y sefyllfa alldro refeniw derfynol yn cynnwys nifer o drosglwyddiadau i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| MOVEMENT IN USEABLE RESERVES VS BUDGET 2018/19 | Budgeted Contribution 2018/19 £'000 | Actual Contribution 'from' 2018/19 £'000 | Actual Contribution 'to' 2018/19 £'000 | Net Contribution 2018/19 £'000 | Difference from Budget 2018/19 £'000 | Opening Balance in Reserves 2018/19 £'000 | Closing Balance in Reserves 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Revenue Reserves** | | | | | | | |
| Earmarked Revenue Reserve | -2,176 | -2,159 | 0 | -2,159 | 17 | 3,495 | 1,336 |
| Drug Intervention | -40 | -35 | 0 | -35 | 5 | 170 | 135 |
| Driver Retraining Scheme | -25 | -62 | 353 | 291 | 316 | 1,002 | 1,293 |
| Proceeds of Crime Act | -38 | -39 | 17 | -22 | 16 | 241 | 219 |
| Regional Collaboration Reserve | 0 | -203 | 128 | -75 | -75 | 465 | 390 |
| CC - Operationl Fund | 0 | 0 | 385 | 385 | 385 | 0 | 385 |
| Sustainability and Transformation | 0 | 0 | 493 | 493 | 493 | 0 | 493 |
| **Total Revenue** | **-2,279** | **-2,498** | **1,376** | **-1,122** | **1,157** | **5,373** | **4,251** |
| **General Reserve** | | | | | | | |
| General Reserve | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,032 | 4,032 |
| **Total General** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **4,032** | **4,032** |
| **Total Revenue Reserves** | **-2,279** | **-2,498** | **1,376** | **-1,122** | **1,157** | **9,405** | **8,283** |
| **Capital** | | | | | | | |
| Capital Reserve | -3,412 | -3,097 | 0 | -3,097 | 318 | 8,883 | 5,786 |
| Capital Grants Unapplied | -324 | -642 | 317 | -325 | 0 | 750 | 425 |
| **Total Capital Reserves** | **-3,736** | **-3,739** | **317** | **-3,422** | **318** | **9,633** | **6,211** |
| **Total Capital and Revenue Reserves** | **-6,016** | **-6,237** | **1,694** | **-4,544** | **1,475** | **19,038** | **14,494** |
| **Other Reserves (held on behalf of Others)** | | | | | | | |
| Go Safe Reserve | 0 | 0 | 241 | 241 | 241 | 1,480 | 1,721 |
| **Total Other Reserves** | **0** | **0** | **241** | **241** | **241** | **1,480** | **1,721** |
| **Net Reserves Movements** | **-6,016** | **-6,237** | **1,935** | **-4,302** | **1,717** | **20,518** | **16,216** |

5.16 Mewn perthynas â chynlluniau cyfalaf a gwariant, dangosir crynodeb o wariant yn y Tabl isod. Mae swm o £4.637 miliwn wedi cael ei wario yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £4.479 miliwn. Fel y dangosir yn y Tabl uchod, caiff swm o £3.422 miliwn ei drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn a grantiau a ddelir ar gyfer y flwyddyn sydd £0.318 miliwn yn is na'r £3.736 miliwn a gynlluniwyd oherwydd llithriant cynlluniau cyfalaf.

| 2018/19 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Capital Expenditure** | **Original Budget £'000** | **Revised Budget £'000** | **Actual £'000** | **(Over) / Under £'000** | **Reason for Over / Underspend** |
| | | | | | |
| Operational Land and Buildings | 5,684 | 2,309 | 1,048 | 1,261 | The refurbishment of the estate has continued but some delays were experienced with works slipping into 2019/20 |
| Vehicles | 953 | 953 | 1,036 | -83 | Savings against Saferty Camera Partnership vehicles were realised along with some additional expenditure which was offset by receipts from the sale of vehicles |
| IT and Other Strategic Projects | 3,260 | 3,217 | 2,283 | 934 | Delays in replacing Digital Video Evidence Equipment (£263K), Airwave Replacement sets (£272K), In Car video equipment fitting (£243K) and CCTV Equipment (£124K). These will be delivered in 2019/20 |
| **Total Spending** | **9,897** | **6,479** | **4,367** | **2,112** | |
| **Capital Financing** | **Original Budget £'000** | **Revised Budget £'000** | **Actual £'000** | **(Over) / Under £'000** | **Reason for Over / Underspend** |
| Capital Receipts | -2,000 | -2,402 | -593 | -1,809 | Delay in Sale of Friars Park but increase vehicle capital receipts |
| Direct Revenue Financing | 0 | -149 | -7 | -142 | Go Safe vehicle budget - underspend |
| NPAS Capital Creditor | -23 | -23 | -23 | 0 | |
| Capital Reserves | -7,556 | -3,263 | -3,097 | -166 | Reduced reserves requirement as a result of programme slippage |
| Capital Grant and Contributions | -318 | -642 | -647 | 5 | Home Office and Mobile Data Grant |
| **Total Funding** | **-9,897** | **-6,479** | **-4,367** | **-2,112** | |

5.17 Mae sefyllfa derfynol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Comisiynydd yn dangos ffigur o £16.215 miliwn a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys swm o £6.212 miliwn i gefnogi ymrwymiadau'r gyllideb gyfalaf yn y dyfodol, cronfa gyffredinol wrth gefn o £4.032 miliwn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a swm o £1.336 miliwn sydd ei angen i ariannu cyfraniadau a diffygion refeniw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a ragwelir yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys balans o £1.721 miliwn a ddelir ar ran partneriaeth diogelwch ffyrdd "Gan Bwyll" a £0.388 miliwn a ddelir ar gyfer trefniadau cydweithio rhanbarthol ynghyd â nifer o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a ddelir i gefnogi prosiectau penodol gan gynnwys dwy gronfa wrth gefn newydd i gefnogi prosiectau cynaliadwyedd / trawsnewid gwerth £0.494 miliwn a chronfa weithredol o £0.385 miliwn i helpu'r heddlu i ddelio â chyfnodau prysur a thawel mewn gweithgarwch gweithredol.

## 6 Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig

6.1 Caiff risgiau eu rheoli ar bob lefel yn y sefydliadau drwy'r Strwythur Llywodraethu a defnyddir Cofrestr Rheoli Risg i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru o leiaf unwaith yr wythnos. Ymhlith y prif risgiau sy'n parhau i'n hwynebu ar ddiwedd 2018/19 mae:

- Cadernid ariannol a rheoli ariannol
- Llywodraethu a rheolaethau ariannol mewn perthynas â gweithgareddau Cydweithio
- Argaeledd gwasanaethau yn lleol i gynnal archwiliadau meddygol fforensig o blant
- Cynaliadwyedd marchnadoedd fforensig allanol

6.2 Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu dyrannu i berchennog sy'n gyfrifol am gymryd camau lliniaru priodol. Ceir rhagor o fanylion am reoli risg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen hon.

6.3 O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau yn y cyllid gan lywodraeth ganolog ynghyd â phwysau costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.

6.4 Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn debygol ar ddiwedd 2019, ond mae ansicrwydd ynghylch pryd yn union y bydd hynny'n digwydd am fod y trafodaethau Brexit yn parhau. Mae nifer o weithgorau cenedlaethol wedi cael eu sefydlu i gasglu gwybodaeth a data i gefnogi'r cyflwyniadau i'r Llywodraeth er mwyn hwyluso ei hystyriaethau. Er nad yw'r canlyniadau'n glir eto, mae Cymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi argymell y dylid mabwysiadu dull cenedlaethol cyson o lunio tybiaethau cyllidebol gan dybio y bydd setliad arian gwastad ar gyfer 2020/21. Yn amlwg mae risgiau'n gysylltiedig â'r dybiaeth hon a chaiff y sefyllfa hon ei monitro'n agos.

6.5 Mae'r sefyllfa o ran yr Adolygiad o'r Fformiwla Ariannu hefyd yn ansicr. Fodd bynnag, deellir y gall y Swyddfa Gartref fod yn ystyried gwneud newidiadau i'r fformiwla ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Byddai'r adolygiad diwethaf na roddwyd ar waith wedi golygu £8M yn llai i Heddlu Dyfed-Powys ac felly mae'r gostyngiadau hyn wedi cael eu hystyried yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cynnwys gostyngiad o 4% yn y grant canolog o 2021/22 ymlaen.

6.6 Fel y nodwyd eisoes, mynegwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, cyllid a chadernid yr Heddlu yn ogystal â'r baich cynyddol sydd arno, gan gynnwys cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, sy'n amlygu ac yn cadarnhau'r sefyllfa ddifrifol ac ansicr iawn sy'n wynebu Dyfed-Powys a gwasanaeth yr heddlu yn gyffredinol.

6.7 Cafodd y setliad dros dro ei gyhoeddi gan y Gweinidog dros Blismona ar 13 Rhagfyr 2018 a oedd yn cynnwys ffigurau cychwynnol o £970m o arian ychwanegol gyda thua £813m ar gyfer plismona lleol: £153m o grant pensiwn, £161m o arian grant craidd ychwanegol i roi cynnydd o 2.1% i bob heddlu a £509m o hyblygrwydd praesept ychwanegol drwy godi'r praesept £24 y flwyddyn fesul eiddo Band D.

6.8 Wrth amlinellu'r setliadau dros dro, roedd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog dros Blismona wedi cydnabod ymgysylltiad gwasanaethau'r heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi helpu'r Llywodraeth i ddeall bod troseddau'n newid ac yn dod yn fwyfwy cymhleth sydd, yn ei dro, yn cael effaith ganlyniadol ar y galw am adnoddau a'r galluoedd sydd eu hangen i ymateb.

6.9 Setliad Dyfed-Powys ar gyfer 2019/20 oedd £50.348m sydd £1.035m neu 2.1% yn uwch na 2018/19. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ystyried y cynnydd hwn yng ngoleuni'r pwysau annisgwyl a sylweddol iawn sydd wedi deillio o newidiadau i gyfradd cyfraniad y cyflogwr at bensiynau Swyddogion yr Heddlu. Mae grant penodol newydd ar gyfer pensiynau hefyd wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer 2019/20 sy'n werth £1.302m, ond hyd yn oed ar y cyd â'r cynnydd yn y grant craidd, mae hyn yn golygu bod diffyg o £535k i'w lenwi o hyd.

6.10 Yn dilyn proses graffu fanwl a thrafodaethau ynglŷn â thybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth y blaenoriaethau o ran cymunedau a buddsoddi a oedd yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i'r Comisiynydd, ei staff, Bwrdd Gweithredol Heddlu Dyfed-Powys, cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, y Cydbwyllgor Archwilio, Aelodau Panel yr Heddlu a Throseddu ac Aelodau Seneddol lleol, cyflwynodd y Comisiynydd ei gynnig ar gyfer praesept 2019/20 a'r tybiaethau sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hyd at 2024/25 i Banel yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar 25 Ionawr 2019.

6.11 Cefnogwyd y cynnig a oedd yn codi'r praesept cyfartalog ar gyfer eiddo band D £24 i £248.56, sef cynnydd o 10.7%. Roedd y cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r hyblygrwydd a argymhellwyd gan y Llywodraeth a bydd yn codi praesept o £55.247m i gyd. Bydd hyn

yn darparu cyfanswm o £106.897m o arian canolog a lleol sy'n gynnydd o 7.87% o gymharu â lefelau ariannu 2018/19.

6.12 Mae hyn, unwaith eto, yn golygu mai praesept Heddlu Dyfed-Powys, sef £248.56, yw'r isaf yng Nghymru o gymharu â £257.52 yn Ne Cymru, £255.53 yng Ngwent a £278.10 yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd yn werth nodi mai Heddlu Dyfed-Powys sydd â'r pumed cynnydd isaf ym mhraesept y dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13. Mae'r Comisiynydd wedi cynnwys tybiaethau y bydd y praesept yn codi 5% o flwyddyn i flwyddyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

6.13 Mae'r Cynllun yn cynnwys cynnydd tybiedig o 2% mewn cyflogau a phwysau chwyddiant o 2020/21 ymlaen, ac mae wedi modelu pwysau cynnydd a chostau uwch hysbys a grantiau penodol a allai gael eu colli. Hefyd, mae wedi cynnwys y lleihad parhaus yn y cyfraniad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a chynnydd ychwanegol mewn cyfraniadau o ran cyllid a thaliadau cyfalaf i gefnogi'r Blaenraglen Gyfalaf. Mae gwariant ychwanegol pellach ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i bensiynau'r heddlu, wedi cael eu cynnwys.

6.14 Mae'r Heddlu'n parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac mae ganddo gynllun lleihau costau sy'n anelu at fanteisio ar fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gynnwys y Bwrdd Masnachol Cenedlaethol, Cwmni TGCh yr Heddlu a gweithgarwch cydweithio drwy Gymru gyfan. Mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu'n sylweddol drwy effeithlonrwydd a chynhyrchiant a fydd yn galluogi'r Comisiynydd a'r Heddlu i bennu sefyllfa Ariannol Tymor Canolig gytbwys a ariennir ar gyfer refeniw a chyfalaf gan warchod safon y gwasanaeth a roddir i gymunedau Dyfed-Powys.

| CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – REFENIW | 19-20 | 20-21 | 21-22 | 22-23 | 23-24 | 24-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £M | £M | £M | £M | £M | £M |
| **Cyllid Canolog a Lleol** | | | | | | |
| Cyllid Canolog Rhagamcanol | -51.6 | -51.6 | -49.9 | -47.7 | -45.8 | -44.0 |
| Praesept Lleol | -55.2 | -58.1 | -61.2 | -64.4 | -67.8 | -71.4 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-106.9** | **-109.8** | **-110.9** | **-112.1** | **-113.7** | **-115.5** |
| **Gwariant Refeniw** | | | | | | |
| Gwariant Rhagamcanol | 109.8 | 111.7 | 115.9 | 110.1 | 122.1 | 125.2 |
| Arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd ar gyfer 19-20 | -2.9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Diffyg Blynyddol Cronnus** | **0** | **1.8** | **5.1** | **6.9** | **8.4** | **9.7** |
| Cynllun Lleihau Costau yn y Dyfodol | | | | | | |
| Cynaliadwyedd a Chyfalaf | | -0.4 | -0.5 | -0.3 | -0.2 | -0.1 |
| Cydweithredu ac Incwm | | -0.3 | -0.4 | -0.3 | -0.5 | -0.3 |
| Galw a Chynhyrchiant | | -0.3 | -1.8 | -0.7 | -0.4 | -0.4 |
| Cynllunio'r Gweithlu | | -0.6 | -0.4 | -0.4 | -0.3 | -0.4 |
| Caffael a Chostau nad ydynt yn Gyflogau | | -0.2 | -0.2 | -0.1 | -0.1 | -0.1 |
| **Lleihad mewn Costau Blynyddol** | | **-1.8** | **-3.3** | **-1.8** | **-1.5** | **-1.3** |
| **Lleihad Blynyddol Cronnus** | | **-1.8** | **-5.1** | **-6.9** | **-8.4** | **-9.7** |
| **Diffyg Refeniw Disgwyliedig** | | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** |

6.15 Pennodd y Comisiynydd raglen gyfalaf o £48.206 miliwn ar gyfer 2019/20 i 2023/24 sy'n cynnwys buddsoddiad yn yr Ystadau, y Fflyd a seilwaith TGCh. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cael ei flaenoriaethu tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi, meysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol ac mae'n cydnabod yr angen i baratoi'n ddigonol er mwyn wynebu gofynion newidiol plismona yn yr 21ain ganrif.

6.16 Bu lleihad sylweddol yn y cyllid cyfalaf craidd a ddyrennir gan y Swyddfa Gartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2019/20 bydd cyfanswm grant cyfalaf o £325K ar gael i'r Comisiynydd. Hefyd, bydd cyllid canolog ar gael i ariannu'r rhaglen gyfathrebu

fawr yn rhannol, ond y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am ariannu £2.6 miliwn o'r costau yn y dyfodol.

6.17 Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r lleihad mewn arian grant cyfalaf, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys cyfraniadau refeniw i gyfalaf o 2019/20 ac maent hefyd yn cynnwys gofynion benthyca allanol i gefnogi datblygiadau mawr ar yr ystadau. Mae'r Comisiynydd yn ystyried ei Strategaeth Gyfalaf bob blwyddyn ac mae hefyd yn asesu ei ofynion benthyca bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Dangosir y dogfennau hyn yn:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/7690/atodiad-h.pdf

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/7686/2019-03-07-agenda-13-treasury-management-strategy.pdf

6.18 Mae'r Comisiynydd yn ystyried ac yn cyhoeddi strategaeth flynyddol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn sy'n ategu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i asesiad o'r amlygiad i risg a mesurau lliniaru. Mae'r strategaeth cronfeydd wrth gefn yn ystyried digonolrwydd cronfeydd cyffredinol wrth gefn ac yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn rhoi sylw i ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd wrth Gefn yr Heddlu. Dangosir y Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn yn:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/7692/atodiad-f.pdf

6.19 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno ei ail Ddatganiad Rheoli Heddlu i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r prif heriau gweithredol a chymorth busnes y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae hwn yn ystyried gallu ac adnoddau Heddlu Dyfed-Powys yng nghyd-destun ymdrin â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn gryno, mae'r ddogfen yn nodi heriau sy'n adlewyrchu'r meysydd hynny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Risg i raddau helaeth ond mae hefyd yn tynnu sylw at heriau mewn perthynas â phobl sy'n agored i niwed, cam-drin domestig a throseddau rhyw / treisgar fel meysydd lle y rhagwelir y bydd galw'n cynyddu yn y dyfodol.

6.20 Mae'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn wynebu nifer o ymrwymiadau ariannol anhysbys posibl yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodyn ar rwymedigaethau digwyddiadol a'r nodyn ar bensiynau, gan gynnwys:

- Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd
- Ymchwiliad i Blismona Cudd
- Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig

## 7.0 Sail Gwaith Paratoi a Chyflwyno

7.1 Dyma'r seithfed set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân baratoi eu Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol hefyd am baratoi Cyfrifon y Grŵp, sy'n cynnwys cyfrifon y Comisiynydd.

7.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Ystyrir mai Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n cynrychioli arferion priodol.

7.3 Mae'r canlynol yn esbonio'r datganiadau sy'n dilyn, eu diben a'r gydberthynas rhyngddynt:

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, sef Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y Grŵp yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2018/19;

- **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon –** mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'i Brif Swyddog Cyllid;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys treuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion yn mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwerth amcangyfrifedig gwirioneddol buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** – mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Y Comisiynydd sy'n berchen ar y tir, yr adeiladau a'r asedau eraill a ddefnyddir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r asedau net (asedau llai rhwymedigaeth) yn cael eu cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy;
- **Nodiadau i'r datganiadau ariannol -** mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio ymhellach eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o helpu'r darllenwyr i ddeall y prif ddatganiadau ariannol yn well ac maent yn nodi'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddiwyd fel sail dros baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer;
- **Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** - mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi'n "gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (arian y gellir ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy (arian na ellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac sy'n bodoli drwy gymhwyso safonau cyfrifyddu, er enghraifft, y gronfa bensiwn wrth gefn sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Datganiad Llif Arian Parod -** mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** – mae'r datganiad hwn yn dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau fel y'u nodir gan reolwyr, wedi'u rhannu yn ôl cyfarwyddiaeth a gwasanaeth ac adran o'u cymharu â'r adnoddau hynny sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan y Grŵp a nodir yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;
- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu -** datganiad sy'n dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus o'r Grŵp i Gyfrif y Gronfa Bensiwn. Wedyn mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac yn tanysgrifennu'r diffyg i bob diben Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai gan Gyfrif y Gronfa Bensiwn warged ar ddiwedd y flwyddyn;
- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** wedi'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon hwn sy'n nodi manylion ynglŷn â sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r Datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, ond mae datganiad ar y cyd wedi cael ei lunio ar gyfer 2018/19 sy'n anelu at sicrhau tryloywder a gwella dealltwriaeth y darllenydd, gan ddangos yn glir ble mae trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyson a ble maent yn wahanol. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Comisiynydd

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, sef y Prif Swyddog Cyllid;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** **Dyddiad**

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- cydymffurfio â'r Cod i awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp/Comisiynydd ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

**Prif Swyddog Cyllid** **Dyddiad**

## Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys;
- Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad o Symudiad yng Nghronfeydd wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp a Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys; Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys; a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio'n fanylach yn yr adran 'cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol' yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;

- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu, yn y datganiadau ariannol, unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai godi amheuaeth sylweddol am allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys neu Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys i barhau i ddefnyddio proses gyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol am ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan roddir awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys a'u hamgylchedd y gwneuthum eu meithrin yn ystod fy archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 24, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys a datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sydd ei hangen ym marn y swyddog ariannol cyfrifol er mwyn paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sy’n gyfrifol am gynnal ei wefan; nid yw’r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw’r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i’r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno’n gyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio’r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Arhwilydd Cyffredinol.

## Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Dengys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor), o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y Grŵp yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Dengys hefyd sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau/Gwasanaethau/Adrannau'r Grŵp. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae Datganiad 2017/18 wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu newidiadau a wnaed i Strwythurau Llywodraethu a Threfniadau Adrodd Heddlu Dyfed-Powys. Darllenwch Nodyn 2 'Addasiadau Cyfnod Blaenorol' i gael esboniad o'r newidiadau hyn.

| **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2018/19** | **Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu – cyfeiriwch at Nodyn 7** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | |
| Costau Comisiynu a'r Swyddfa | 1,925 | 92 | 2,017 |
| Ystadau | 3,435 | 390 | 3,825 |
| **SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | **5,360** | **482** | **5,842** |
| **Y PRIF GWNSTABL** | | | |
| **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 1,333 | 237 | 1,570 |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | 958 | (3,334) | (2,376) |
| Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | 1,447 | 266 | 1,713 |
| Cymdeithasau Staff | 244 | 52 | 296 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 2,620 | 457 | 3,077 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 3,102 | 434 | 3,536 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 866 | 68 | 934 |
| Safonau Proffesiynol | 1,090 | 216 | 1,306 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | |
| Plismona Lleol | 55,480 | 13,273 | 68,753 |
| Ymchwiliadau | 20,084 | 4,677 | 24,761 |
| Cymorth Gwyddonol | 1,816 | 208 | 2,024 |
| Cyfiawnder Troseddol | 939 | 279 | 1,218 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 4,250 | 399 | 4,649 |
| Uned Cymorth Busnes | 2,110 | 354 | 2,464 |
| Costau Fflyd | 837 | 87 | 924 |
| Cyllid a Chaffael | 543 | 81 | 624 |
| **Effaith bosibl yr Her Gyfreithiol ddiweddar mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu (McCloud) - darllenwch Nodyn 35 i gael rhagor o fanylion** | 0 | 78,731 | 78,731 |
| **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | **97,719** | **96,485** | **194,204** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **103,079** | **96,967** | **200,046** |
| Incwm a Gwariant Arall | (99,100) | 11,640 | **(87,460)** |
| **GWARGED NEU DDIFFYG (Cyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Wrth Gefn)** | **3,979** | **108,607** | **112,586** |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | (3,979) | | |
| **GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN** | **0** | | |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2017 | (4,032) | | |
| Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn | 0 | | |
| **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol ym mis Mawrth 2018** | **(4,032)** | | |

| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2017/18 (Wedi'i Ailddatgan) | Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu – cyfeiriwch at Nodyn 7 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | |
| Costau Comisiynu a'r Swyddfa | 1,798 | 105 | 1,904 |
| Ystadau | 3,936 | 573 | 4,508 |
| **SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | **5,734** | **678** | **6,412** |
| **Y PRIF GWNSTABL** | | | |
| **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 1,277 | 296 | 1,573 |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | 5,940 | (2,920) | 3,020 |
| Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | (671) | (16) | (687) |
| Cymdeithasau Staff | 217 | 65 | 282 |
| **Cyllidebau a Reolir gan Y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 2,506 | 499 | 3,005 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 3,231 | 559 | 3,790 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu Corfforaethol | 875 | 84 | 959 |
| Safonau Proffesiynol | 1,192 | 315 | 1,507 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | |
| Plismona Lleol | 52,956 | 15,273 | 68,229 |
| Ymchwiliadau | 19,587 | 6,392 | 25,979 |
| Cymorth Gwyddonol | 1,504 | 175 | 1,679 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1,007 | 295 | 1,302 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 4,228 | 401 | 4,629 |
| Uned Cymorth Busnes | 1,907 | 362 | 2,269 |
| Costau Fflyd | 864 | 87 | 951 |
| Cyllid a Chaffael | 600 | 83 | 683 |
| **Costau nas dosbarthwyd** | 92 | 0 | 92 |
| **Eitemau eithriadol -** | | | |
| - Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt | (603) | 0 | (603) |
| - Ymgyrch Heath | 798 | 0 | 798 |
| **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | **97,507** | **21,950** | **119,457** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **103,241** | **22,628** | **125,869** |
| Incwm a Gwariant Arall | (96,616) | 14,603 | (82,013) |
| **GWARGED NEU DDIFFYG (Cyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Wrth Gefn)** | **6,625** | **37,231** | **43,856** |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | (6,157) | | |
| **GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN** | **468** | | |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2016 | (4,500) | | |
| Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn | 468 | | |
| **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol ym mis Mawrth 2018** | **(4,032)** | | |

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r Datganiad canlynol yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn.
Mae Datganiad 2017/18 wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu newidiadau a wnaed i Strwythurau Llywodraethu a Threfniadau Adrodd Heddlu Dyfed-Powys. Darllenwch Nodyn 2 'Addasiadau Cyfnod Blaenorol' i gael esboniad o'r newidiadau hyn.

| Y Grŵp | | | | | Y Comisiynydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2018/19** | Nod yn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | | |
| 2,418 | (401) | 2,017 | Costau Comisiynu a'r Swyddfa | | 6,077 | (4,060) | 2,017 |
| 3,888 | (63) | 3,825 | Ystadau | | 3,888 | (63) | 3,825 |
| **6,306** | **(464)** | **5,842** | **CYFANSWM SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | **9,965** | **(4,123)** | **5,842** |
| | | | **Y PRIF GWNSTABL** | | | | |
| | | | **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | | |
| 1,576 | (6) | 1,570 | Swyddfa'r Prif Gwnstabl | | 0 | (6) | (6) |
| 1,666 | (4,042) | (2,376) | Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | | 0 | (4,042) | (4,042) |
| 5,442 | (3,729) | 1,713 | Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | | 0 | (3,729) | (3,729) |
| 296 | 0 | 296 | Cymdeithasau Staff | | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | | |
| 3,357 | (280) | 3,077 | Gwasanaethau Pobl | | 0 | (280) | (280) |
| 3,772 | (236) | 3,536 | Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | | 0 | (236) | (236) |
| 1,108 | (174) | 934 | Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu Corfforaethol | | 0 | (174) | (174) |
| 1,329 | (23) | 1,306 | Safonau Proffesiynol | | 0 | (23) | (23) |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | | |
| 70,995 | (2,242) | 68,753 | Plismona Lleol | | 713 | (2,242) | (1,529) |
| 26,006 | (1,245) | 24,761 | Ymchwiliadau | | 0 | (1,245) | (1,245) |
| 2,040 | (16) | 2,024 | Cymorth Gwyddonol | | 0 | (16) | (16) |
| 2,831 | (1,613) | 1,218 | Cyfiawnder Troseddol | | 0 | (1,613) | (1,613) |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | | |
| 4,742 | (93) | 4,649 | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | | 0 | (93) | (93) |
| 2,774 | (310) | 2,464 | Uned Cymorth Busnes | | 0 | (310) | (310) |
| 1,208 | (284) | 924 | Costau Fflyd | | 0 | (284) | (284) |
| 681 | (57) | 624 | Cyllid a Chaffael | | 0 | (57) | (57) |
| 78,731 | 0 | 78,731 | **Effaith bosibl yr Her Gyfreithiol ddiweddar mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu (McCloud)** | **35** | 132 | 0 | 132 |
| **208,554** | **(14,350)** | **194,204** | **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | | **845** | **(14,350)** | **(13,505)** |
| **214,860** | **(14,814)** | **200,046** | **COST GWASANAETHAU** | | **10,810** | **(18,473)** | **(7,663)** |
| 538 | (19,710) | (19,172) | Incwm a Gwariant Gweithredu Arall | **11** | 538 | (19,710) | (19,172) |
| 32,069 | (935) | 31,134 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **12** | 625 | (935) | (310) |
| 0 | (99,422) | (99,422) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | **13** | 0 | (99,422) | (99,422) |
| **0** | **0** | **0** | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | **239,153** | **0** | **239,153** |
| **247,467** | **(134,881)** | **112,586** | **(Gwarged)/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **251,126** | **(138,540)** | **112,586** |
| | | 0 | Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol | **22** | | | 0 |
| | | 81,200 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | **22** | | | 286 |
| | | **0** | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | | | **80,914** |
| | | **81,200** | **Incwm a gwariant cynhwysfawr arall** | | | | **81,200** |
| | | **193,786** | **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | | | **193,786** |

| Y Grŵp | | | | | Y Comisiynydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2017/18 (Wedi'i Ailddatgan)** | Nodyn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | | |
| 2,483 | (579) | 1,904 | Costau Comisiynu a'r Swyddfa | | 6,085 | (4,181) | 1,904 |
| 4,574 | (66) | 4,508 | Ystadau | | 4,574 | (66) | 4,508 |
| **7,057** | **(645)** | **6,412** | **CYFANSWM SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | **10,659** | **(4,247)** | **6,412** |
| | | | **Y PRIF GWNSTABL** | | | | |
| | | | **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | | |
| 1,589 | (16) | 1,573 | Swyddfa'r Prif Gwnstabl | | 0 | (16) | (16) |
| 7,011 | (3,991) | 3,020 | Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | | 0 | (3,991) | (3,991) |
| 5,439 | (6,126) | (687) | Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | | 0 | (6,126) | (6,126) |
| 282 | 0 | 282 | Cymdeithasau Staff | | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | | |
| 3,094 | (89) | 3,005 | Gwasanaethau Pobl | | 0 | (89) | (89) |
| 4,034 | (244) | 3,790 | Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | | 0 | (244) | (244) |
| 993 | (34) | 959 | Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu Corfforaethol | | 0 | (34) | (34) |
| 1,509 | (2) | 1,507 | Safonau Proffesiynol | | 0 | (2) | (2) |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | | |
| 68,756 | (527) | 68,229 | Plismona Lleol | | 713 | (527) | 186 |
| 26,295 | (316) | 25,979 | Ymchwiliadau | | 0 | (316) | (316) |
| 1,679 | 0 | 1,679 | Cymorth Gwyddonol | | 0 | 0 | 0 |
| 1,812 | (510) | 1,302 | Cyfiawnder Troseddol | | 0 | (510) | (510) |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | | |
| 4,629 | (0) | 4,629 | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | | 0 | 0 | 0 |
| 2,638 | (369) | 2,269 | Uned Cymorth Busnes | | 0 | (369) | (369) |
| 1,120 | (169) | 951 | Costau Fflyd | | 0 | (169) | (169) |
| 716 | (33) | 683 | Cyllid a Chaffael | | 0 | (33) | (33) |
| 92 | 0 | 92 | **Costau nas dosbarthwyd** | | 2 | 0 | 2 |
| | | | **Eitemau eithriadol -** | | | | |
| 187 | (790) | (603) | - Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt | | 0 | (790) | (790) |
| 798 | 0 | 798 | - Ymgyrch Heath | | 0 | 0 | 0 |
| **132,673** | **(13,216)** | **119,457** | **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | | **713** | **(13,216)** | **(12,503)** |
| **139,730** | **(13,861)** | **125,869** | **COST GWASANAETHAU** | | **11,372** | **(17,463)** | **(6,091)** |
| 364 | (18,815) | (18,451) | Incwm a Gwariant Gweithredu Arall | **11** | 364 | (18,815) | (18,451) |
| 34,325 | (955) | 33,370 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **12** | 651 | (955) | (304) |
| 0 | (96,932) | (96,932) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | **13** | 0 | (96,932) | (96,932) |
| **0** | **0** | **0** | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | **165,634** | **0** | **165,634** |
| **174,419** | **(130,563)** | **43,856** | **(Gwarged)/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **178,021** | **(134,165)** | **43,856** |
| | | (20) | Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol | **22** | | | (20) |
| | | (167,488) | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | **22** | | | (403) |
| | | **0** | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | | | **(167,085)** |
| | | **(167,508)** | **Incwm a gwariant cynhwysfawr arall** | | | | **(167,508)** |
| | | **(123,652)** | **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | | | **(123,652)** |

## Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

## Blwyddyn Ariannol 2018/19

| | Cyfeirnod y Nodyn | Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa | Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **(4,032)** | **(15,698)** | **(19,730)** | **0** | **(750)** | **(20,480)** | **1,102,837** | **1,082,357** |
| **Ailddosbarthiadau** | | **0** | **(38)** | **(38)** | **0** | **0** | **(38)** | **38** | **0** |
| **Balans Diwygiedig ar 31 Mawrth 2018** | | **(4,032)** | **(15,736)** | **(19,768)** | **0** | **(750)** | **(20,518)** | **1,102,875** | **1,082,357** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2018/19:** | | | | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 112,586 | 0 | 112,586 | 0 | 0 | **112,586** | **0** | **112,586** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **81,200** | **81,200** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **112,586** | **0** | **112,586** | **0** | **0** | **112,586** | **81,200** | **193,786** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau | **9** | (108,607) | 0 | (108,607) | 0 | 323 | **(108,284)** | **108,284** | **0** |
| **Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **3,979** | **0** | **3,979** | **0** | **323** | **4,302** | **189,484** | **193,786** |
| Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **10** | (3,979) | 3,979 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Lleihad yn 2018/19** | | **0** | **3,979** | **3,979** | **0** | **323** | **4,302** | **189,484** | **193,786** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(4,032)** | **(11,757)** | **(15,789)** | **0** | **(427)** | **(16,216)** | **1,292,359** | **1,276,143** |

## Blwyddyn Ariannol 2017/18

| | Cyfeirnod y nodyn | Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol | Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **(4,500)** | **(21,855)** | **(26,355)** | **1** | **(879)** | **(27,233)** | **1,233,242** | **1,206,009** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18:** | | | | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 43,856 | 0 | 43,856 | 0 | 0 | **43,856** | **0** | **43,856** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **(167,509)** | **(167,509)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **43,856** | **0** | **43,856** | **0** | **0** | 43,856 | (167,509) | (123,652) |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau | **9** | (37,231) | 0 | (37,231) | (1) | 129 | **(37,103)** | **37,104** | **0** |
| **Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **6,625** | **0** | **6,625** | **(1)** | **129** | **6,753** | **(130,405)** | **(123,652)** |
| Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **10** | (6,157) | 6,157 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/ Lleihad yn 2017/18** | | **468** | **6,157** | **6,625** | **(1)** | **129** | **6,753** | **(130,405)** | **(123,652)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **(4,032)** | **(15,698)** | **(19,730)** | **0** | **(750)** | **(20,480)** | **1,102,837** | **1,082,357** |

## Mantolen

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | | Nodyn | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| 73,892 | 73,892 | Eiddo, offer a chyfarpar | **14** | 73,613 | 73,613 |
| 3,904 | 3,904 | Eiddo buddsoddi | **15** | 3,912 | 3,912 |
| 94 | 94 | Asedau anniriaethol | | 10 | 10 |
| 54 | 54 | Asedau Dros Ben | **14** | 48 | 48 |
| 0 | 0 | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | **14** | 104 | 104 |
| 6,538 | 6,538 | Buddsoddiadau hirdymor | **16** | 6,414 | 6,414 |
| **84,482** | **84,482** | **Asedau hirdymor** | | **84,101** | **84,101** |
| 16,189 | 16,189 | Buddsoddiadau byrdymor | **16** | 17,620 | 17,620 |
| 459 | 0 | Rhestrau eiddo | | 463 | 0 |
| 1,913 | 1,913 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | **19** | 1,672 | 1,672 |
| 7,650 | 6,937 | Dyledwyr byrdymor | **17** | 5,371 | 4,896 |
| 2,428 | 2,428 | Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **18** | 2,712 | 2,712 |
| 0 | 1,172 | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 0 | 938 |
| **28,639** | **28,639** | **Asedau cyfredol** | | **27,838** | **27,838** |
| (189) | (189) | Benthyca byrdymor | **16** | (207) | (207) |
| (9,652) | (2,741) | Credydwyr byrdymor | **20** | (13,259) | (2,935) |
| (665) | (665) | Darpariaethau byrdymor | **21** | (768) | (768) |
| 0 | (6,911) | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 0 | (10,324) |
| **(10,506)** | **(10,506)** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **(14,234)** | **(14,234)** |
| (1,947) | (1,947) | Benthyca hirdymor | **16** | (1,739) | (1,739) |
| (1,182,188) | (1,182,188) | Rhwymedigaethau hirdymor eraill | **35** | (1,371,157) | (1,371,157) |
| (837) | (837) | Darpariaethau hirdymor | **21** | (952) | (952) |
| **(1,184,972)** | **(1,184,972)** | **Rhwymedigaethau hirdymor** | | **(1,373,848)** | **(1,373,848)** |
| **(1,082,357)** | **(1,082,357)** | **Asedau/ rhwymedigaethau net** | | **(1,276,143)** | **(1,276,143)** |
| (20,480) | (20,480) | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | **10** | (16,216) | (16,216) |
| 1,102,837 | 1,102,837 | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | **22** | 1,292,359 | 1,292,359 |
| **1,082,357** | **1,082,357** | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **1,276,143** | **1,276,143** |

## Datganiad Llif Arian Parod

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | | Nodyn | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| **43,856** | **43,856** | **(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **112,586** | **112,586** |
| (43,551) | (43,551) | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol | **23** | (117,883) | (117,883) |
| 519 | 519 | Addasiadau ar gyfer eitemau wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | **23** | 1,151 | 1,151 |
| **824** | **824** | **Llifau arian parod net o Weithgareddau Gweithredu** | **23** | **(4,146)** | **(4,146)** |
| (1,417) | (1,417) | Gweithgareddau Buddsoddi | **24** | 4,539 | 4,539 |
| 374 | 374 | Gweithgareddau Cyllido | **25** | (677) | (677) |
| **(219)** | **(219)** | **Cynnydd neu leihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **18** | **(284)** | **(284)** |
| 2,209 | 2,209 | Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | **18** | 2,428 | 2,428 |
| **2,428** | **2,428** | **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **18** | **2,712** | **2,712** |

## Cronfa Bensiwn yr Heddlu

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | Cyfrif y Gronfa | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | | **Cyfraniadau derbyniadwy:** | | |
| (10,462) | 0 | • Cyfraniadau'r cyflogwr | (10,520) | 0 |
| (441) | 0 | • Incwm arall | (256) | 0 |
| (5,855) | 0 | Cyfraniadau swyddogion | (5,879) | 0 |
| **(16,758)** | **0** | | **(16,655)** | **0** |
| (46) | 0 | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | (393) | 0 |
| | | **Buddiannau taladwy:** | | |
| 24,823 | 0 | • Pensiynau | 26,483 | 0 |
| 10,053 | 0 | • Cyfnewidiadau a buddiannau ymddeol ar ffurf cyfandaliadau | 9,443 | 0 |
| **34,830** | **0** | | **35,533** | **0** |
| | | **Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael:** | | |
| 0 | 0 | • Trosglwyddo i gronfeydd pensiwn eraill | 39 | 0 |
| 5 | 0 | • Ad-dalu cyfraniadau | 12 | 0 |
| 500 | 0 | • Taliadau treth Cynllun yn Talu | 119 | 0 |
| **505** | **0** | | **170** | **0** |
| **18,577** | **(18,577)** | **Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn** | **19,048** | **(19,048)** |
| (18,577) | 18,577 | **Cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu (par grant y Swyddfa Gartref)** | (19,048) | 19,048 |
| **0** | **0** | | **0** | **0** |

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | Datganiad am Asedau Net | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | | **Asedau Cyfredol** | | |
| 0 | 0 | Dyledwr - balansau net sy'n ddyledus gan gronfa'r Heddlu | 908 | 0 |
| **0** | **0** | | **908** | **0** |
| | | | | |
| | | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | |
| 0 | 0 | Credydwr - buddiannau sy'n daladwy i swyddogion yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth a dalwyd ym mis Ebrill | (908) | 0 |
| **0** | **0** | | **(908)** | **0** |
| | | | | |
| **0** | **0** | | **0** | **0** |

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifyddu

**Egwyddorion Cyffredinol**
Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Grŵp ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2019. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol iddo'i hun a'r Grŵp o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19 a Chod Ymarfer Adrodd 2018/19 yr Heddlu yn bennaf, wedi'u hategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

**Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau**
Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Grŵp y bydd newidiadau i bolisïau cyfrifyddu. Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

**Croniadau Incwm a Gwariant**
Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Grŵp yn trosglwyddo risgiau a buddiannau sylweddol perchenogaeth i'r prynwr a'i bod yn debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd y Grŵp yn gallu mesur canran y trafodyn a gwblhawyd yn ddibynadwy ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud.

- Cyfrifir llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant yn y drefn honno ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifau arian parod a bennir gan y contract.
- Pan fydd refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes unrhyw arian parod wedi cael ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan na chaiff dyledion eu setlo o bosibl, mae balans dyledwyr yn cael ei leihau a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na allai gael ei gasglu o bosibl.

**Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**
Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaethau yn unol â threfniadau'r Grŵp ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

**Eitemau Eithriadol**
Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Grŵp.

**Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Eiddo, offer a chyfarpar**
Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, offer a chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau. Codir am wariant sy'n cynnal potensial ased i sicrhau buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu at hynny (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) fel traul pan eir iddo.

Caiff gwariant sy'n is na lefel de minimis o £6,000 fesul eitem ei drin fel Refeniw a chodir amdano pan eir iddo.

Caiff asedau eu mesur ar gost i ddechrau ac yna'u cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r sylfeini mesur canlynol:

- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol wedi'i dibrisio;
- Adeiladau Gweithredol – Cost adnewyddu wedi'i dibrisio;
- Asedau dros ben / Asedau a ddelir i'w gwerthu – Gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Eiddo Buddsoddi – gwerth teg (neu a adolygir yn flynyddol neu bob pum mlynedd);
- Pob ased arall - gwerth teg (a ail-brisir bob pum mlynedd), wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol.

Cyfatebir cynnydd mewn prisiadau gan gredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn er mwyn cydnabod enillion nas gwireddwyd. Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef ei dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn o ran p'un a oes unrhyw arwydd y gall fod lleihad yng ngwerth yr ased. Lle mae arwyddion yn bodoli a lle yr amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle mae hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled lleihad mewn gwerth ar gyfer y diffyg.

Lle y nodir colledion mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Lle mae balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle nad oes unrhyw falans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu lle mae balans annigonol, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Ceir crynodeb o oes economaidd ddefnyddiol asedau a'u gwerthoedd gweddilliol yn y tabl isod:

| Categori'r Ased | Oes Economaidd Ddefnyddiol | Gwerth Gweddilliol |
|---|---|---|
| **EIDDO** | | |
| Tir | Dim Dibrisiant | Dim Dibrisiant |
| Adeiladau Gweithredol | Dros Oes sy'n Weddill | Dros Oes sy'n Weddill |
| Eiddo Buddsoddi | Dim Dibrisiant | Dim Dibrisiant |
| Asedau Dros Ben | Dros Oes sy'n Weddill | Dros Oes sy'n Weddill |
| Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | Dim Dibrisiant | Dim Dibrisiant |
| **CERBYDAU A BADAU** | | |
| Bad 1: | | |
| • Corff | 32 mlynedd | Dim |
| • Injan | 12 mlynedd | Dim |
| Bad 2: | 10 mlynedd | Dim |
| Cerbydau | | |
| • Ymateb Cyflym / Arall | 3 blynedd | Dim |
| • Arall | 5 mlynedd | Dim |
| **CYFARPAR** | | |
| Cyfrifiadur/cyfarpar arall | 5 mlynedd | Dim |
| **ASEDAU ANNIRIAETHOL** | 3/5 mlynedd | Dim |

Pan fydd gan eitem o Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae'r Grŵp wedi cymhwyso'r terfynau de-minimis canlynol, nad yw'r gydran yn cael ei mesur ar wahan os yw islaw hynny:

| Oes cydran (blynyddoedd) | 0-10 | 10-15 | 15-20 | 20-30 | 30-40 | Dros 40 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De-minimis (£'000) | 50 | 100 | 200 | 300 | 750 | 1,000 |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant y gellid bod wedi ei godi yn seiliedig ar drosglwyddo eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Asedau Dros Ben

Asedau dros ben yw'r asedau hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n weithredol yn y busnes (megis eiddo gwag) ac na ellir eu dosbarthu'n "asedau a ddelir i'w gwerthu". Caiff asedau dros ben eu mesur ar sail gwerth teg ar bob dyddiad adrodd, yn seiliedig ar y swm y gellir cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbrisio ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw yn debygol y caiff swm cario'r ased ei adennill yn bennaf drwy drafodyn gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio ar unwaith cyn ei ailddosbarthu ac yna'i gario ar ba swm bynnag sydd isaf a gwerth teg llai costau i'w werthu. Lle mae lleihad canlyniadol mewn gwerth teg llai costau i'w werthu, caiff y golled ei chofnodi ar linell Gwriant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Cydnabyddir enillion mewn gwerth teg dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Caiff symiau a dderbynnir am warediad sy'n fwy na £10,000 eu categoreiddio'n dderbyniadau cyfalaf. Mae'n rhaid i falans y derbyniadau gael ei gredydu i'r gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn, a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Grŵp i fenthyca – y gofyniad ariannu cyfalaf) y gellir eu defnyddio.

**Symiau a Godir ar Refeniw ar gyfer asedau Anghyfredol**

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:
Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
Colledion ailbrisio a lleihad mewn gwerth ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion a gronnwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

**Eiddo buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw eiddo a ddefnyddir i ennill arian rhent a/neu arbrisiant cyfalaf yn unig. Caiff eiddo buddsoddi ei fesur i ddechrau ar gost ac yna ar sail gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partion gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbrisio ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

**Asedau anniriaethol**
Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan y Grŵp o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Grŵp.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur i ddechrau ar gost. Dim ond lle y gellir pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan y Grŵp drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes unrhyw un o asedau anniriaethol a ddelir gan y Grŵp yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

**Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth**
Nid yw'n ofynnol i'r Grŵp godi treth gyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad na cholledion oherwydd lleihad mewn gwerth neu amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly caiff dibrisiant, ailbrisiad a cholledion oherwydd lleihad mewn gwerth ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol drwy addasu trafodyn â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**Offerynnau Ariannol**

Rhwymedigaethau Ariannol
Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae symiau blynyddol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

Asedau Ariannol
Caiff Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant am log sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau a wnaed gan y Grŵp, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dderbyniadwy sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

Trosi arian cyfred tramor
Lle mae'r Grŵp wedi ymrwymo i drafodyn wedi'i ddynodi mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodyn ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad roedd y trafodyn yn weithredol.

**Rhestrau eiddo**
Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar bris cost bresennol. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylai Rhestrau eiddo gael eu mesur ar gost neu werth gwireddadwy net pa bynnag yw'r isaf. Felly, nid yw'r polisi yn cydymffurfio ag IAS 2 ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol.

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**
Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb o roi rhybudd nad yw'n fwy na 24 awr.
Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn golygu buddsoddiadau tra hylifol byrdymor a ddelir ar ddyddiad y fantolen y gellir eu trosi'n symiau hysbys o arian parod yn hawdd ar ddyddiad y fantolen ac sy'n wynebu risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

**Darpariaethau**
Gwneir darpariaethau lle bu digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r Grŵp y mae'n ofynnol ei setlo drwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn fwy na thebyg, a gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

**Cronfeydd Wrth Gefn**
Ystyrir bod symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaethau yn gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd cyfalaf wrth gefn penodol a grëir o ganlyniad i'r cynllun cyfrifyddu cyfalaf ar gael i dalu am wariant cyfredol ac maent yn cynnwys:

- Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn sy'n cofnodi'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y Grŵp sy'n codi o gynnydd mewn gwerth, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi cael eu treulio gan symudiadau canlyniadol tuag i lawr mewn gwerth;

- Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, sy'n rhoi dull mantoli rhwng y cyfraddau gwahanol y caiff asedau eu dibrisio yn unol â hwy a'u hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf, drwy gronni:
  - O ran debyd – lleihau cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu treulio gan ddibrisiant a lleihad mewn gwerth neu eu dileu ar adeg eu gwaredu;
  - O ran credyd – mae'r adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf ariannu.

**Trefniadau Cydweithio**
Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau newydd ar "Accounting for Collaboration" sy'n gymwys i'r flwyddyn ariannol 2014/15 ymlaen. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd a'r Heddlu asesu'r holl weithgarwch cydweithredol a chategoreiddio'r rhain yn gyd-ymgyrchoedd neu'n gyd-fentrau a chyfrif am eu cyfran deg o wariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau yn eu cyfrifon unigol. Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithio.

**Buddiannau cyflogeion**
<u>Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth</u>
Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y croniad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

<u>Buddiannau Terfynu</u>
Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol.
Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn

hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Mae swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn cael dewis bod yn aelod o un o blith dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn i'r Heddlu
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion a oedd yn gweithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol, ac felly ni chaiff unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ei chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Llywodraeth Leol y gellir eu priodoli i'r Grŵp wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o daliadau yn y dyfodol a gaiff eu gwneud mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion presennol.

Buddiannau yn ôl Disgresiwn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bwerau cyfyngedig hefyd i dalu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn yn achos ymddeol yn gynnar. Bydd unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarndal i unrhyw aelod o staff yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i wneud y dyfarndaliad a chyfrifir amdanynt drwy ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth**

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, drwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd partion fel symiau dyledus i'r Grŵp pan fo sicrwydd rhesymol:

- Y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau;
- Y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Caiff arian a flaendelir fel grantiau a chyfraniadau na fodlonwyd eu hamodau eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fydd yr amodau wedi'u bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw nas clustnodwyd yn benodol a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle y caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gofnodi ar y gronfa Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd wrth gefn. Lle mae wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei gofnodi ar y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd wrth gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf unwaith eu bod wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**Prydlesau**
Caiff symiau rhent taladwy/derbyniadwy eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau.

**Treth ar Werth (TAW)**
Mae TAW sy'n daladwy yn cael ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r Grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau cyfnod blaenorol

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2017/18

Mae'r diwygiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2017/18. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â Gwasanaethau Carcharol a Gwariant Rheoli Integredig Troseddwyr a oedd wedi cael eu categoreiddio'n anghywir:

| | | DIWYGIADAU: | | |
|---|---|---|---|---|
| **2017/18 (Blaenorol) £000** | | **Gwasanaethau Carcharol £'000** | **Rheoli Integredig Troseddwyr £'000** | **2017/18 (Wedi'i Ailddatgan) £'000** |
| | **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | |
| **64,864** | Plismona Lleol | 4,970 | (1,078) | **68,756** |
| **30,187** | Ymchwiliadau | (4,970) | 1,078 | **26,295** |
| **95,051** | | **0** | **0** | **95,051** |

## 3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto o dan y Cod. Bydd y newidiadau canlynol yn ofynnol o 1 Ebrill 2019:

- diwygiadau i IAS40 *Eiddo Buddsoddi*: Trosglwyddo Eiddo Buddsoddi;
- *Cylch Gwelliannau Blynyddol i Safonau IFRS 2014-2016;*
- IFRIC 22 *Trafodion Arian Cyfred Tramor a Blaenystyriaeth;*
- IFRIC 23 *Ansicrwydd ynghylch Triniaethau Treth Incwm;*
- diwygiadau i IFRS 9 Offerynnau Ariannol: Nodweddion Rhagdalu gydag Iawndal Negyddol

Nid yw effaith y newidiadau uchod ar y Datganiadau Ariannol yn hysbys. Fodd bynnag, yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2019/20, caiff effaith y newidiadau ei hasesu ac os bydd angen, caiff y ffigurau cymaradwy eu hailddatgan.

## 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Comisiynydd lunio barn ar drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae cryn ansicrwydd ynglŷn â lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi amcan o'r asedau y gallai eu gwerth leihau o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau gwasanaethau a ddarperir.

## 5. Rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Comisiynydd ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitem yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2019 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar ei chyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiynau | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Penodir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiynau net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y tâl a ddyfernir ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd o £1.250 miliwn i'r rhwymedigaeth pensiwn. |

## 6. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 30 Mai 2019.

Ar 27 Mehefin, gwrthododd y Goruchaf Lys hawl i apelio mewn perthynas â Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu (McCloud). O ganlyniad, rhagwelir y bydd rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu yn cynyddu. Caiff y cynnydd ei gynnwys yn Natgeliad IAS19 fel Cost Gwasanaeth a Roddwyd ac mae addasiad tebyg wedi cael ei wneud i gostau Gwasanaeth a Roddwyd mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Darllenwch Nodyn 35 i gael rhagor o wybodaeth.

## 7. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r nodyn yn cyflwyno rhagor o fanylion i ategu'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ac mae'n cysoni'r prif addasiadau â Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol er mwyn cyfrifo'r symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Esbonnir y trosglwyddiadau perthnasol rhwng cronfeydd wrth gefn yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**<u>2018/19</u>**

| ADDASIADAU O'R GRONFA GYFFREDINOL I BENNU'R SYMIAU YN Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) | Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiynau (Colofn B) | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) | Cyfanswm yr Addasiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **<u>COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU</u>** | | | | |
| Costau Comisiynu a'r Swyddfa | 0 | 92 | 0 | 92 |
| Ystadau | 0 | 83 | 307 | 390 |
| **CYFANSWM SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | **0** | **175** | **307** | **482** |
| **<u>Y PRIF GWNSTABL</u>** | | | | |
| **<u>Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl</u>** | | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 51 | 186 | 0 | 237 |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | (3,185) | 95 | (245) | (3,334) |
| Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | 0 | 0 | 266 | 266 |
| Cymdeithasau Staff | 10 | 42 | 0 | 52 |
| **<u>Cyllidebau a Reolir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl</u>** | | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 100 | 357 | 0 | 457 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 114 | 320 | 0 | 434 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 30 | 38 | 0 | 68 |
| Safonau Proffesiynol | 42 | 174 | 0 | 216 |
| **<u>Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol</u>** | | | | |
| Plismona Lleol | 2,918 | 10,356 | 0 | 13,274 |
| Ymchwiliadau | 802 | 3,840 | 34 | 4,676 |
| Cymorth Gwyddonol | 66 | 142 | 0 | 208 |
| Cyfiawnder Troseddol | 39 | 240 | 0 | 279 |
| **<u>Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid</u>** | | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 150 | 249 | 0 | 399 |
| Uned Cymorth Busnes | 80 | 274 | 0 | 354 |
| Costau Fflyd | 30 | 57 | 0 | 87 |
| Cyllid a Chaffael | 20 | 61 | 0 | 81 |
| **<u>Effaith bosibl yr Her Gyfreithiol ddiweddar mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu (McCloud)</u>** | 0 | 78,731 | 0 | 78,731 |
| **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | **1,267** | **95,163** | **55** | **96,485** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **1,267** | **95,338** | **362** | **96,967** |
| Incwm a Gwariant Arall | (423) | 12,431 | **(368)** | 11,640 |
| **GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN** | **844** | **107,769** | **(6)** | **108,607** |

## 2017/18

| ADDASIADAU O'R GRONFA GYFFREDINOL I BENNU'R SYMIAU YN Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) | Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiynau (Colofn B) | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) | Cyfanswm yr Addasiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | | |
| Costau Comisiynu a'r Swyddfa | 0 | 105 | 0 | 105 |
| Ystadau | 0 | 90 | 483 | 573 |
| **CYFANSWM SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | **0** | **195** | **483** | **678** |
| **Y PRIF GWNSTABL** | | | | |
| **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 48 | 248 | 0 | 296 |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | (4,023) | 994 | 109 | (2,920) |
| Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | (16) | 0 | 0 | (16) |
| Cymdeithasau Staff | 9 | 56 | 0 | 65 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 91 | 408 | 0 | 499 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 115 | 444 | 0 | 559 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 29 | 55 | 0 | 84 |
| Safonau Proffesiynol | 46 | 269 | 0 | 315 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | | |
| Plismona Lleol | 2,632 | 12,641 | 0 | 15,273 |
| Ymchwiliadau | 903 | 5,489 | 0 | 6,392 |
| Cymorth Gwyddonol | 51 | 124 | 0 | 175 |
| Cyfiawnder Troseddol | 39 | 256 | 0 | 295 |
| **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 140 | 261 | 0 | 401 |
| Uned Cymorth Busnes | 69 | 293 | 0 | 362 |
| Costau Fflyd | 29 | 58 | 0 | 87 |
| Cyllid a Chaffael | 21 | 62 | 0 | 83 |
| **Costau nas dosbarthwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Eitemau eithriadol -** | | | | |
| - Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Ymgyrch Heath | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL** | **183** | **21,658** | **109** | **21,950** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **183** | **21,853** | **592** | **22,628** |
| Incwm a Gwariant Arall | (191) | 15,140 | (346) | 14,603 |
| **GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN** | **(8)** | **36,993** | **246** | **37,231** |

**Colofn A – Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

- Ar gyfer Gwasanaethau - ychwanegir dibrisiant, lleihad mewn gwerth ac enillion a cholledion ailbrisio. Newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir Isafswm Darpariaeth Refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- Ar gyfer gwariant gweithredu arall – addesir ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm o waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.

**Colofn B – Newid Net ar gyfer yr Addasiadau ar gyfer Pensiynau**

Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm *Buddiannau Cyflogeion* IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

- Ar gyfer Gwasanaethau – mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan y Grŵp fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Ar gyfer Incwm a Gwariant Gweithredu arall – credydir Grant 'Ychwanegol' Pensiynau'r Swyddfa Gartref i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Colofn C – Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer Gwasanaethau - addesir yn ôl y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.
- Ar gyfer Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi - addesir yn ôl y swm y mae costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag Offerynnau Ariannol yn wahanol i gostau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.
- Mae nifer o addasiadau cyflwyno wedi'u gwneud hefyd rhwng Gwasanaethau ac Incwm a Gwariant Arall (h.y. uwchlaw'r llinell ac islaw'r llinell). Yn gyffredinol, ni chaiff yr addasiadau hyn unrhyw effaith.

## 8. Incwm Segementaidd

Mae'r nodyn hwn yn rhoi dadansoddiad segementaidd o refeniw sylweddol a dderbyniwyd oddi wrth gwsmeriaid allanol:

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **Incwm o Wasanaethau** | **Incwm o Wasanaethau** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau Comisiynu a'r Swyddfa | (176) | (349) |
| Ystadau | (800) | (681) |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | (312) | (373) |
| Gwasanaethau Pobl | (32) | 0 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | (219) | (194) |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | (816) | (141) |
| Plismona Lleol | 0 | (103) |
| Cyfiawnder Troseddol | (258) | 0 |
| Uned Cymorth Busnes | (343) | (235) |
| Costau Fflyd | (146) | (213) |
| **Cyfanswm refeniw (sylweddol) a dderbyniwyd oddi wrth Gwsmeriaid Allanol.** | **(3,102)** | **(2,289)** |

## 9. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Grŵp/Comisiynydd yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r Comisiynydd i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2018/19 | Balans y Gronfa Gyffredinol | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn bennaf** | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Taliadau a godir am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | (4,289) | 0 | 0 | **4,289** |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | 45 | 0 | 0 | **(45)** |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | (83) | 0 | 0 | **83** |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd | 323 | 0 | 0 | **(323)** |
| Symudiad yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd yn Rhodd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (538) | 0 | 0 | **538** |
| **Gosod eitemau nas debydwyd neu nas credydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 3,104 | 0 | 0 | **(3,104)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau nas Defnyddiwyd yn bennaf** | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau nas defnyddiwyd a gredydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cymhwyso grantiau at ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 323 | 0 | **(323)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn** | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (23) | 0 | 0 | **23** |
| Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 616 | 0 | 0 | **(616)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol** | | | | |
| Y swm y mae'r costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf** | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 19,048 | 0 | 0 | **(19,048)** |
| Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (126,817) | 0 | 0 | **126,817** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Balansau Cronedig yn bennaf** | | | | |
| Y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 306 | 0 | 0 | **(306)** |
| Addasiadau o ran cyfran deg o Drefniadau Cydweithio | (299) | 0 | 0 | **299** |
| **Cyfanswm yr addasiadau** | **(108,607)** | **323** | **0** | **108,284** |

| 2017/18 | Balans y Gronfa Gyffredinol | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn bennaf** | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Taliadau a godir am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | (4,233) | 0 | 0 | **4,233** |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | 200 | 0 | 0 | **(200)** |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | (83) | 0 | 0 | **83** |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd | 318 | 0 | 0 | **(318)** |
| Symudiad yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd yn Rhodd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (364) | 0 | 0 | **364** |
| **Gosod eitemau nas debydwyd neu nas credydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 3,930 | 0 | 0 | **(3,930)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau nas Defnyddiwyd yn bennaf** | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau nas defnyddiwyd a gredydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cymhwyso grantiau at ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 129 | 0 | **(129)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn** | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 239 | 0 | (306) | **67** |
| Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 305 | **(305)** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol** | | | | |
| Y swm y mae'r costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (88) | 0 | 0 | **88** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf** | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 18,577 | 0 | 0 | **(18,577)** |
| Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (55,570) | 0 | 0 | **55,570** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Balansau Cronedig yn bennaf** | | | | |
| Y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (157) | 0 | 0 | **157** |
| Addasiadau o ran cyfran deg o Drefniadau Cydweithio | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm yr addasiadau** | **(37,231)** | **129** | **(1)** | **37,103** |

## 10. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2018/19.

| Cronfa Wrth Gefn | Balans ar 1 Ebrill 2017 | Trosglwyddiadau i mewn 2017/18 | Trosglwyddiadau allan 2017/18 | Balans ar 1 Ebrill 2018 | Ailddosbarthiadau | Balans diwygiedig ar 1 Ebrill 2018 | Trosglwyddiadau i mewn 2018/19 | Trosglwyddiadau allan 2018/19 | Balans ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cronfa Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd | (4,869) | (7) | 3,074 | **(1,802)** | (1,693) | **(3,495)** | 0 | 2,159 | **(1,336)** |
| Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr | (1,081) | (176) | 10 | **(1,247)** | 245 | **(1,002)** | (354) | 62 | **(1,294)** |
| Deddf Enillion Troseddau | (168) | (52) | 94 | **(126)** | (115) | **(241)** | (16) | 39 | **(218)** |
| Cronfa Weithredol y Prif Gwnstabl | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | (385) | 0 | **(385)** |
| Cronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | (494) | 0 | **(494)** |
| Ymyriadau Cyffuriau | (170) | 0 | 0 | **(170)** | 0 | **(170)** | 0 | 35 | **(135)** |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Cydweithio Rhanbarthol | (94) | (363) | 35 | **(422)** | (43) | **(465)** | (127) | 203 | **(389)** |
| Cronfa Wrth Gefn Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd 'Gan Bwyll' | (799) | (680) | | **(1,479)** | 0 | **(1,480)** | (241) | 0 | **(1,721)** |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | (15,552) | | 4,350 | **(11,202)** | 1,568 | **(9,633)** | (318) | 3,739 | **(6,212)** |
| Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn | (4,500) | | 468 | **(4,032)** | **0** | **(4,032)** | **0** | **0** | **(4,032)** |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | **(27,233)** | **(1,278)** | **8,031** | **(20,480)** | **(38)** | **(20,518)** | **(1,935)** | **6,237** | **(16,216)** |

Mae £38k wedi cael ei ailddosbarthu fel Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy. Mae hyn yn deillio'n bennaf o ailddatgan costau cydweithio sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg costau cydweithio a'r gwariant gwirioneddol yr aed iddo yn unol â safonau cyfrifyddu.

Nodir y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd neu Annefnyddiadwy a ddelir gan y Grŵp isod ynghyd â nodyn sy'n esbonio sut y cânt eu defnyddio:

### Cronfa Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd

Delir y gronfa wrth gefn hon i gefnogi'r gyllideb refeniw dros y 3 blynedd nesaf er mwyn lliniaru unrhyw fylchau ariannu yn y dyfodol.

Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr

Cefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â mentrau diogelwch ar y ffyrdd.

Deddf Enillion Troseddau

Arian a ddyfernir i'r Grŵp yn sgil gorchmynion atafaelu sy'n deillio o enillion troseddau. Defnyddir y cronfeydd wrth gefn i gefnogi gweithgareddau gweithredol sy'n helpu i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell.

Cronfa Weithredol y Prif Gwnstabl

Cronfa wrth gefn newydd yw hon a sefydlwyd er mwyn helpu i liniaru'r costau dilynol sy'n deillio o gyfnodau prysur nodedig mewn gweithgarwch gweithredol.

Cronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid

Cronfa wrth gefn newydd a sefydlwyd er mwyn helpu i ariannu gweithgareddau 'buddsoddi i arbed', cynaliadwyedd a thrawsnewid.

Ymyriadau Cyffuriau

Defnyddir y gronfa wrth gefn hon er mwyn helpu i gynnal profion cyffuriau.

Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Cydweithio Rhanbarthol

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynrychioli cyfran y Grŵp o arian a ddelir ar gyfer cyd-wasanaethau'r heddlu sy'n cynnwys yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol a'r Tasglu Rhanbarthol. Defnyddir yr arian hwn yn unol â gofynion busnes er mwyn cefnogi gwaith gweithredol.

Cronfa Wrth Gefn Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd 'Gan Bwyll'

Delir y gronfa wrth gefn a glustnodwyd hon ar ran Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru Gyfan 'Gan Bwyll' a chaiff ei defnyddio yn unol â gofynion busnes y Bartneriaeth.

Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn

Defnyddir y gronfa wrth gefn hon i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn Ystadau, Technoleg Gwybodaeth a'r Fflyd, gan gynnwys dalfa a gorsaf newydd yn Sir Gaerfyrddin.

Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn

Mae'r Comisiynydd yn cynnal Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn o £4.03m fel:

- balans gweithredol er mwyn helpu i leddfu effaith llifau arian parod anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen;
- cronfa wrth gefn i leddfu effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

## 11. Incwm a gwariant gweithredu arall

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant na ellir eu dyrannu na'u dosrannu'n rhesymol i wasanaethau.

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| 126 | 126 | (Ennill)/Colled o waredu asedau anghyfredol | (124) | (124) |
| (18,577) | (18,577) | Grant ychwanegol Pensiynau Swyddogion yr Heddlu gan y Swyddfa Gartref | (19,048) | (19,048) |
| **(18,451)** | **(18,451)** | **Cyfanswm** | **(19,172)** | **(19,172)** |

## 12. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o offerynnau ariannol a thrafodion tebyg sy'n cynnwys llog.

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | | Nodyn | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| 208 | 208 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | **16** | 173 | 173 |
| 33,716 | 42 | Llog net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | **35** | 31,481 | 37 |
| 0 | 0 | Gwariant Buddsoddi Arall – Derbyniad Cyfalaf Gohiriedig ar yr Hofrennydd | **22** | 22 | 22 |
| (159) | (159) | Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg | **16** | (235) | (235) |
| (483) | (483) | Incwm a gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg | **15** | (307) | (307) |
| 88 | 88 | Colled o ailbrisiad (offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu) | **16** | 0 | 0 |
| **33,370** | **(304)** | **Cyfanswm** | | **31,134** | **(310)** |

## 13. Trethiant ac incwm grant amhenodol

Mae'r eitem hon yn cyfuno'r holl grantiau a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy na ellir eu priodoli i wariant gwasanaeth penodol.

| Y Grŵp 2017/18 | Y Comisiynydd 2017/18 | | Nodyn | Y Grŵp 2018/19 | Y Comisiynydd 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| (47,303) | (47,303) | Incwm y Dreth Gyngor | | (49,787) | (49,787) |
| (8,934) | (8,934) | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | | (8,823) | (8,823) |
| (40,378) | (40,378) | Grantiau'r Llywodraeth nas clustnodwyd yn benodol | **30** | (40,490) | (40,490) |
| (317) | (317) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau | **30** | (322) | (322) |
| **(96,932)** | **(96,932)** | **Cyfanswm** | | **(99,422)** | **(99,422)** |

## 14. Eiddo, offer a chyfarpar

Symudiad ar falansau yn y flwyddyn ariannol 2018/19:

| | Tir | Adeiladau | Bad | Cerbydau | Cyfarpar | CYFANSWM EIDDO, OFFER A CHYFARPAR | ASEDAU DROS BEN | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2018** | **4,195** | **63,762** | **294** | **7,748** | **20,963** | **96,962** | **60** | **0** |
| Ychwanegiadau | | 935 | 33 | 1,003 | 2,283 | 4,254 | 0 | 104 |
| *Cynnydd/(lleihad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Cynnydd/(lleihad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y gwarged/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabod – gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (1,475) | 0 | (1,475) | 0 | 0 |
| *Symudiadau eraill mewn cost neu brisiad* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Asedau a ailddosbarthwyd* | 0 | (125) | 0 | 0 | 0 | (125) | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **4,195** | **64,572** | **327** | **7,276** | **23,246** | **99,616** | **60** | **104** |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth cronedig ar 1 Ebrill 2018** | **0** | **(1,729)** | **(53)** | **(4,543)** | **(16,745)** | **(23,070)** | **(6)** | **0** |
| Tâl dibrisiant | 0 | (1,254) | (21) | (1,201) | (1,341) | (3,817) | (4) | 0 |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 0 | (465) | 0 | | 0 | (465) | (2) | 0 |
| *Gwarediadau Dadgydnabod* | 0 | 0 | 0 | 1,349 | 0 | 1,349 | 0 | 0 |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth cronedig ar 31 Mawrth 2019** | **0** | **(3,448)** | **(74)** | **(4,395)** | **(18,086)** | **(26,003)** | **(12)** | **0** |
| **Gwerth llyfr net -** ar 31 Mawrth 2019 | **4,195** | **61,124** | **253** | **2,881** | **5,160** | **73,613** | **48** | **104** |
| **Gwerth llyfr net -** ar 31 Mawrth 2018 | **4,195** | **62,033** | **241** | **3,205** | **4,218** | **73,892** | **54** | **0** |

Symudiad ar falansau yn y flwyddyn ariannol 2017/18:

| | Tir | Adeiladau | Bad | Cerbydau | Cyfarpar | CYFANSWM EIDDO, OFFER A CHYFARPAR | ASEDAU DROS BEN | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2017** | **4,195** | **62,304** | **314** | **7,561** | **19,244** | **93,618** | **1,497** | **0** |
| Ychwanegiadau | 0 | 1,798 | 0 | 1,122 | 1,762 | 4,682 | 0 | 0 |
| *Cynnydd/(lleihad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn* | 0 | 309 | 0 | 0 | 0 | 309 | 0 | 0 |
| *Cynnydd/(lleihad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y gwarged/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau* | 0 | (662) | 0 | 0 | 0 | (662) | | 0 |
| Dadgydnabod – gwarediadau | 0 | 0 | (20) | (935) | (43) | (998) | 0 | 0 |
| *Symudiadau eraill mewn cost neu brisiad* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Asedau a ailddosbarthwyd* | 0 | 13 | 0 | 0 | 0 | 13 | (1,437) | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **4,195** | **63,762** | **294** | **7,748** | **20,963** | **96,962** | **60** | **0** |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth cronedig ar 1 Ebrill 2017** | **0** | **0** | **(38)** | **(4,235)** | **(15,617)** | **(19,890)** | **0** | **0** |
| Tâl dibrisiant | 0 | (1,261) | (22) | (1,209) | (1,171) | (3,663) | (5) | 0 |
| Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 0 | (468) | 0 | 0 | 0 | (468) | (1) | 0 |
| *Gwarediadau Dadgydnabod* | 0 | 0 | 7 | 901 | 43 | 951 | 0 | 0 |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth cronedig ar 31 Mawrth 2018** | **0** | **(1,729)** | **(53)** | **(4,543)** | **(16,745)** | **(23,070)** | **(6)** | **0** |
| **Gwerth llyfr net** - ar 31 Mawrth 2018 | **4,195** | **62,033** | **241** | **3,205** | **4,218** | **73,892** | **54** | **0** |
| **Gwerth llyfr net** - ar 31 Mawrth 2017 | **4,195** | **62,304** | **276** | **3,326** | **3,627** | **73,728** | **1,497** | **0** |

Ailbrisiadau

Mae'r Comisiynydd yn cynnal rhaglen sy'n sicrhau y caiff asedau y mae angen iddynt gael eu mesur ar sail gwerth teg eu mesur unwaith bob pum mlynedd fel arfer ar gyfer pob dosbarth o ased. Cynhaliwyd ailbrisiad llawn o Dir ac Adeiladau gan briswyr allanol ac roedd yn weithredol o 31/03/17.

Cynhaliwyd prisiadau o rai Adeiladau, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Dros Ben fel ag yr oeddent ar 31/03/18 oherwydd gwariant sylweddol ar yr adeiladau hyn a newid defnydd.

Cynhaliwyd y rhain gan brisiwr allanol.

Mae prisiadau cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

| | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | Eiddo Buddsoddi | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfarpar | Bad | Mastiau | Tai | Adeiladau | Asedau Anniriaethol | Asedau Dros Ben | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | Cyfanswm |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Cariwyd ar gost hanesyddol:** | **4,195** | **41,690** | **2,881** | **5,125** | **253** | **2,375** | **0** | **1,312** | **10** | **(40)** | **104** | **1,665** | **59,570** |
| **Prisiwyd ar sail gwerth teg ar:** | | | | | | | | | | | | | |
| 31/3/19 | 0 | (472) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (1) | 0 | 7 | (466) |
| 31/3/18 | 0 | (122) | 0 | 34 | 0 | 0 | 0 | (289) | 0 | (78) | 0 | 0 | (455) |
| 31/3/17 | 0 | 7,277 | 0 | (6) | 0 | 4 | 0 | 29 | 0 | 152 | 0 | 0 | 7,456 |
| 31/3/16 | 0 | (285) | 0 | 0 | 0 | 79 | 0 | 254 | 0 | 15 | 0 | 0 | 63 |
| 31/3/15 | 0 | (285) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (285) |
| 31/3/14 | 0 | (774) | 0 | (41) | 0 | 62 | (7) | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | (743) |
| 31/3/13 | 0 | 14,095 | 0 | 48 | 0 | 6 | 7 | 63 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14,219 |
| **Cyfanswm y gost neu'r prisiad:** | **4,195** | **61,124** | **2,881** | **5,160** | **253** | **2,526** | **0** | **1,386** | **10** | **48** | **104** | **1,672** | **79,359** |

## 15. Eiddo buddsoddi

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| £’000 | | £’000 |
| **4,232** | **Balans ar ddechrau'r flwyddyn:** | **3,904** |
| 0 | Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 8 |
| (328) | Enillion/colledion net o addasiadau gwerth teg | 0 |
| **3,904** | **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **3,912** |

Mesurir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg yn seiliedig ar dystiolaeth y farchnad.

Mae manylion eiddo buddsoddi'r Comisiynydd a gwybodaeth am yr hierarchaeth gwerth teg ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:-

**31 Mawrth 2019**

| | **Prisiau a Restrwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau unfath (Lefel 1)** | **Mewnbynnau arsylladwy sylweddol eraill (Lefel 2)** | **Mewnbynnau anarsylladwy sylweddol (Lefel 3)** | **Gwerth Teg ar 31 Mawrth 2019** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Safleoedd Mastiau Radio | 0 | 2,525 | 0 | 2,525 |
| Unedau Swyddfa | 0 | 1,387 | 0 | 1,387 |

**31 Mawrth 2018**

| | **Prisiau a Restrwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau unfath (Lefel 1)** | **Mewnbynnau arsylladwy sylweddol eraill (Lefel 2)** | **Mewnbynnau anarsylladwy sylweddol (Lefel 3)** | **Gwerth Teg ar 31 Mawrth 2018** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Safleoedd Mastiau Radio | 0 | 2,517 | 0 | 2,517 |
| Unedau Swyddfa | 0 | 1,387 | 0 | 1,387 |

Technegau Prisio a ddefnyddir i bennu Gwerthoedd Teg lefel 2 a 3 ar gyfer Eiddo Buddsoddi

*Mewnbynnau arsylladwy sylweddol – lefel 2.*

Mae gwerth teg yr Unedau Mastiau Radio a'r Unedau Swyddfa wedi bod yn seiliedig ar ddull y farchnad, gan ddefnyddio amodau presennol y farchnad, a pharhad prydlesau ac incwm rhent.

## 16. Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn rhai cyfnewid, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn offerynnau ariannol.

Offerynnau Ariannol – Balansau

Caiff y categorïau canlynol o offerynnau ariannol eu cario yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019:

**Y Grŵp:**

| | Hirdymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus) | (1,947) | (1,739) | (189) | (207) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (9,652) | (13,257) |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(1,947)** | **(1,739)** | **(9,841)** | **(13,464)** |
| ***Benthyciadau a symiau derbyniadwy:*** | | | | |
| Buddsoddiadau | 6,538 | 6,414 | 16,189 | 17,620 |
| Dyledwyr | 0 | 0 | 7,650 | 5,371 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **6,538** | **6,414** | **23,839** | **22,991** |

**Y Comisiynydd:**

| | Hirdymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus) | (1,947) | (1,739) | (189) | (207) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (2,741) | (2,933) |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(1,947)** | **(1,739)** | **(2,930)** | **(3,140)** |
| ***Benthyciadau a symiau derbyniadwy:*** | | | | |
| Buddsoddiadau | 6,538 | 6,414 | 16,189 | 17,620 |
| Dyledwyr | 0 | 0 | 6,937 | 4,896 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **6,538** | **6,414** | **23,126** | **22,516** |

Enillion a Cholledion

Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2017/18 Cyfanswm £'000oedd | | Rhwymedigaethau Ariannol | Asedau Ariannol | 2018/19 Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhwymedigaethau wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio £000oedd | Benthyciadau a symiau derbyniadwy £000oedd | |
| £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| (208) | Traul llog | (193) | 0 | (193) |
| 151 | Incwm llog | 0 | 235 | 235 |
| **(57)** | **Ennill/(colled) net am y flwyddyn** | **(193)** | **235** | **42** |

Gwerthoedd Teg

Asedau ariannol sydd wedi'u dosbarthu'n rhai sydd ar gael i'w gwerthu a phob ased a rhwymedigaeth ddeilliannol sy'n cael eu cario yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y rhan fwyaf o asedau, gan gynnwys bondiau, biliau'r trysorlys a chyfanddaliadau yng nghronfeydd marchnadoedd arian a chronfeydd cyfunedig eraill, daw'r gwerth teg o bris y farchnad. Mae gwerthoedd teg offerynnau eraill wedi cael eu hamcangyfrif drwy gyfrifo gwerth presennol net y llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2019, gan ddefnyddio'r dulliau a'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae tystysgrifau adneuo a chontractau blaenfenthyciadau wedi cael eu disgowntio ar gyfradd llog y farchnad ar gyfer offerynnau sydd â statws credyd a chyfnod sy'n weddill cyn aeddfedu tebyg.
- Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi rhoi symiau Gwerth Teg i'r Comisiynydd mewn perthynas â'i bortffolio dyled. Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi asesu'r Gwerthoedd Teg drwy gyfrifo'r symiau y byddai wedi bod yn rhaid i'r Comisiynydd eu talu i ddifodi'r benthyciadau ar y dyddiadau hyn
- Ni chydnabyddir unrhyw ad-daliad cynnar na lleihad mewn gwerth ar gyfer unrhyw offeryn ariannol.
- Tybir bod gwerth teg offerynnau byrdymor, gan gynnwys credydwyr a dyledwyr, yn agos at y swm cario.
- Ar gyfer credydwyr a dyledwyr, defnyddiwyd y gwerth cario fel brasamcan rhesymol o werth teg.

Dangosir gwerthoedd teg yn y tabl ar y dudalen ganlynol, wedi'u rhannu yn ôl eu lefel yn yr hierarchiaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – mae gwerth teg ond yn deillio o brisiau a restrwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath, e.e. prisiau bondiau.
- Lefel 2 – cyfrifir gwerth teg o fewnbynnau ac eithrio prisiau a restrwyd sy'n arsylladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, e.e. cyfraddau llog neu arenillion ar gyfer offerynnau tebyg
- Lefel 3 – pennir gwerth teg drwy ddefnyddio mewnbynnau anarsylladwy, e.e. data nad yw'n ddata'r farchnad megis rhagolygon o lifau arian parod neu statws credyd wedi'i amcangyfrif

Ni fu unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau mewnbwn 1 a 2 yn ystod y flwyddyn ac ni fu unrhyw newid yn y dechneg brisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

## 2018/19

| **Y Grŵp** | | | | **Y Comisiynydd** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swm Cario** | **Gwerth teg** | | **Lefel Gwerth Teg** | **Swm Cario** | **Gwerth teg** |
| **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2019** | | | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2019** |
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| | | ***Rhwymedigaethau Ariannol:*** | | | |
| (1,739) | (2,415) | Benthyca Hirdymor | 2 | (1,739) | (2,415) |
| | | ***Rhwymedigaethau nad yw Gwerth Teg wedi'i ddatgelu ar eu cyfer*** | | | |
| (207) | (207) | Benthyca Byrdymor | | (207) | (207) |
| (13,257) | (13,257) | Credydwyr | | (2,933) | (2,933) |
| **(15,203)** | **(15,879)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | | **(4,879)** | **(5,555)** |
| | | ***Asedau Ariannol:*** | | | |
| 6,414 | 6,414 | Benthyciadau hirdymor | 2 | 6,414 | 6,414 |
| | | ***Asedau nad yw Gwerth Teg wedi'i ddatgelu ar eu cyfer*** | | | |
| 17,620 | 17,620 | Buddsoddiadau Byrdymor | | 17,620 | 17,620 |
| 5,371 | 5,371 | Dyledwyr | | 4,896 | 4,896 |
| **29,405** | **29,405** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | | **28,930** | **28,930** |

## 2017/18

| **Y Grŵp** | | | | **Y Comisiynydd** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swm Cario** | **Gwerth teg** | | **Lefel Gwerth Teg** | **Swm Cario** | **Gwerth teg** |
| **31 Mawrth 2018** | **31 Mawrth 2018** | | | **31 Mawrth 2018** | **31 Mawrth 2018** |
| **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** |
| | | ***Rhwymedigaethau Ariannol:*** | | | |
| (1,947) | (2,956) | Benthyca Hirdymor | 2 | (1,947) | (2,956) |
| | | ***Rhwymedigaethau nad yw Gwerth Teg wedi'i ddatgelu ar eu cyfer*** | | | |
| (189) | (189) | Benthyca Byrdymor | | (189) | (189) |
| (9,652) | (9,652) | Credydwyr | | (2,741) | (2,741) |
| **(11,788)** | **(12,797)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | | **(4,877)** | **(5,886)** |
| | | ***Asedau Ariannol:*** | | | |
| 6,538 | 6,538 | Benthyciadau hirdymor | 2 | 6,538 | 6,538 |
| | | ***Asedau nad yw Gwerth Teg wedi'i ddatgelu ar eu cyfer*** | | | |
| 16,189 | 16,189 | Buddsoddiadau Byrdymor | | 16,189 | 16,189 |
| 7,650 | 7,650 | Dyledwyr | | 6,937 | 6,937 |
| **30,377** | **30,377** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | | **29,664** | **29,664** |

## 17. Dyledwyr Byrdymor

| Y Grŵp | Y Comisiynydd | | Y Grŵp | Y Comisiynydd |
|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2019 |
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| 3,439 | 3,439 | Symiau masnach derbyniadwy | 2,091 | 2,091 |
| 3,498 | 3,498 | Symiau derbyniadwy eraill | 2,800 | 2,800 |
| 713 | 0 | Rhagdaliadau | 480 | 5 |
| **7,650** | **6,937** | **Cyfanswm** | **5,371** | **4,896** |

## 18. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 19 | Arian parod a ddelir | 20 |
| 409 | Cyfrifon cyfredol banc | 692 |
| 2,000 | Adneuon byrdymor | 2,000 |
| **2,428** | **Cyfanswm** | **2,712** |

## 19. Asedau a ddelir i'w gwerthu

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn:** | **0** | **1,913** |
| Asedau sydd newydd eu dosbarthu'n rhai a ddelir i'w gwerthu:<br>• Eiddo, offer a chyfarpar | 0 | 125 |
| Asedau sydd wedi'u hailddosbarthu'n asedau dros ben | 1,424 | 0 |
| Enillion ailbrisio | 901 | 45 |
| Asedau a werthwyd | (316) | (411) |
| Dibrisiant | (96) | 0 |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,913** | **1,672** |

## 20. Credydwyr Byrdymor

| Y Grŵp | Y Comisiynydd | | Y Grŵp | Y Comisiynydd |
|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2019 |
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| 1,949 | 503 | Symiau masnach taladwy | 1,446 | 476 |
| 7,703 | 2,238 | Symiau taladwy eraill | 11,813 | 2,459 |
| **9,652** | **2,741** | **Cyfanswm** | **13,259** | **2,935** |

## 21. Darpariaethau

### *Darpariaethau Byrdymor*

Dyma'r symiau y disgwylir iddynt gael eu talu o fewn 12 mis i'r cyfnod adrodd.

Mae'r Balans Darpariaethau Byrdymor o £768k (£665k ar gyfer 2017/18) yn cynnwys swm o £551k (£531k ar gyfer 2017/18) mewn perthynas â Chronfeydd Statudol. Mae gan y

Comisiynydd y pŵer i atafaelu arian neu eiddo a ddefnyddiwyd, neu y bwriedir eu defnyddio, at ddiben trosedd. Delir y symiau hyn nes y ceir dyfarniad gan y Llysoedd. Unwaith bod y dyfarniad wedi'i wneud gellir gwaredu'r arian yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

***Darpariaethau Hirdymor***

Dyma'r symiau y disgwylir iddynt gael eu talu dros 12 mis ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r Balans Darpariaethau Hirdymor o £952k yn cynnwys swm o £495k (£380k ar gyfer 2017/18) mewn perthynas â Hawliadau Yswiriant. Mae hwn yn asesiad o'r hawliadau yswiriant sy'n debygol o gael eu setlo gan y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cynnwys Darpariaeth Hirdymor o £457k (£457k ar gyfer 2017/18) mewn perthynas â Municipal Mutual Insurance. Cyn-yswiriwr cyrff cyhoeddus yw MMI, a roddodd y gorau i fasnachu yn 1992. Mae'r Comisiynydd yn rhan o drefniant i fodloni'r holl hawliadau a oedd heb eu bodloni pan aeth y busnes i'r wal.

## 22. Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy

| 31 Mawrth 2018 | Ailddosbarthiadau | Balans Diwygiedig ar 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | | | **£'000** |
| (20,254) | 0 | (20,254) | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (19,788) |
| (59,603) | 0 | (59,603) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (59,572) |
| 525 | 0 | 525 | Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd | 220 |
| 1,182,188 | 0 | 1,182,188 | Cronfa Bensiynau Wrth Gefn | 1,371,157 |
| (23) | 0 | (23) | Derbyniad Cyfalaf Gohiriedig | 0 |
| 4 | (4) | 0 | Cronfa Offerynnau Ariannol sydd Ar Gael i'w Gwerthu Wrth Gefn | 0 |
| 0 | 42 | 42 | Cronfa Cyfran Deg o Drefniadau Cydweithio Wrth Gefn | 342 |
| **1,102,837** | **38** | **1,102,875** | **Cyfanswm** | **1,292,359** |

<u>Cronfa ailbrisio wrth gefn</u>

Dim ond enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Wrth Gefn, a geir yn y Gronfa Wrth Gefn. Mae'r enillion a gronnwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno ym malans y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **(20,709)** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **(20,254)** |
| (623) | Ailbrisio asedau tuag i fyny | 0 |
| 603 | Ailbrisio asedau tuag i lawr a cholledion lleihad mewn gwerth nas codir ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 |
| **(20,729)** | **Gwarged neu ddiffyg o ailbrisio asedau anghyfredol nas cofnodir ar y gwarged neu'r diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(20,254)** |
| 475 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | 466 |
| **(20,254)** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **(19,788)** |

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn darparu ar gyfer y gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer cyfrifyddu am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Caiff cost caffael, adeiladu neu wella ei debydu o'r Cyfrif gan fod dibrisiant, colledion lleihad mewn gwerth ac amorteiddiadau yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cysoni o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i drosi ffigurau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Caiff y symiau a neilltuwyd gan y Comisiynydd fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella eu credydu i'r Cyfrif. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig o Eiddo Buddsoddi ac enillion a gydnabuwyd yn asedau a roddwyd yn rhodd nad ydynt wedi cael eu defnyddio eto gan y Grŵp/Comisiynydd.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **(58,926)** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **(59,603)** |
| | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud a gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| 3,758 | Taliadau a godir am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | 3,822 |
| 671 | Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | 0 |
| (910) | Enillion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | (45) |
| 83 | Amorteiddio asedau anniriaethol | 83 |
| 363 | Symiau asedau anghyfredol a ddilewyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 538 |
| **(54,961)** | | **(55,205)** |
| | **Ariannu cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn:** | |
| (305) | Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | (616) |
| (3,914) | Defnydd o'r Cronfeydd Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | (3,097) |
| (318) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd i ariannu cyfalaf. | (323) |
| (129) | Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd | (324) |
| (16) | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (7) |
| **(4,682)** | | **(4,367)** |
| 40 | Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 |
| **(59,603)** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **(59,572)** |

Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd

Mae'r cyfrif hwn yn darparu ar gyfer y gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol sy'n cronni o ddigolledu am absenoldebau a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddo symiau i'r

Cyfrif neu o'r Cyfrif.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **368** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **525** |
| **(368)** | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | **(525)** |
| **525** | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | **220** |
| **525** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **220** |

Cronfa Bensiwn Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn darparu ar gyfer gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer cyfrifyddu am fuddiannau ôl-gyflogaeth ac am ariannu buddiannau yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Prif Gwnstabl yn cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddianau a enillwyd gan gyflogeion sydd wedi cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, tybiaethau sy'n newid ac enillion buddsoddi o unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu am gostau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillwyd gael eu hariannu am fod y Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniadau'r cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau y mae'r Comisiynydd wedi'u neilltuo i'w bodloni. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddiannau.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **1,312,684** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **1,182,188** |
| (167,489) | (Enillion)/colledion actiwaraidd o asedau/rhwymedigaethau pensiynau | 81,200 |
| (18,577) | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud a buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (19,048) |
| 55,570 | Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. | 48,109 |
| 0 | Effaith bosibl yr Her Gyfreithiol ddiweddar mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu (McCloud) | 78,708 |
| **1,182,188** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **1,371,157** |

Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn dal yr enillion a gydnabuwyd o waredu asedau anghyfredol ond nad yw setliad arian parod wedi digwydd eto ar eu cyfer. O dan y trefniadau statudol, nid yw'r Comisiynydd yn trin yr enillion hyn fel symiau y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd nes eu bod wedi'u hategu gan dderbyniadau arian parod. Pan fydd y setliad arian parod gohiriedig yn digwydd yn y pen draw, caiff symiau eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---:|---|---:|
| **£’000** | | **£’000** |
| **(91)** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **(23)** |
| 0 | Trosglwyddo enillion gwerthu gohiriedig a gredydwyd fel rhan o'r ennill / golled o waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 |
| 68 | Trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn ar ôl derbyn arian parod | 23 |
| **(23)** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **0** |

Cronfa Cyfran Deg o Drefniadau Cydweithio Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Cyfran Deg o Drefniadau Cydweithio Wrth Gefn wedi cael ei sefydlu i gynrychioli'r ailddatganiad o gostau cydweithio ac mae'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg costau cydweithio a'r gwariant gwirioneddol yr aed iddo yn unol â safonau cyfrifyddu.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---:|---|---:|
| **£’000** | | **£’000** |
| **154** | **Balans ar 1 Ebrill:** | **42** |
| (154) | Gwrthdroi addasiad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (42) |
| 42 | Symiau a addaswyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 342 |
| **42** | **Balans ar 31 Mawrth:** | **342** |

## 23. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau gweithredu

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **43,856** | **(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau** | **112,586** |
| | | |
| | **Addasiadau ar gyfer symudiadau anariannol:** | |
| (4,316) | Dibrisiant | (4,372) |
| 8 | Lleihad yng ngwerth Buddsoddiadau | 0 |
| 200 | Colledion ailbrisio ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 |
| (36,993) | Taliadau net a godir ar gyfer Buddiannau Ymddeol | (107,770) |
| (126) | Gwerthu Asedau Sefydlog (Gwerth Llyfr Net) | 100 |
| 125 | Cyfraniad at Ddarpariaethau | (218) |
| (88) | Colled o Ailbrisio Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 0 |
| 0 | Cynnydd/Lleihad mewn Llog o Fuddsoddiadau a gronnwyd | (8) |
| 2 | Cynnydd/Lleihad mewn Llog o Fenthyciadau a gronnwyd | 0 |
| 30 | Cynnydd/Lleihad mewn Stoc | 4 |
| 523 | Cynnydd/Lleihad mewn Dyledwyr | (2,281) |
| (2,916) | Cynnydd/Lleihad mewn Credydwyr | (3,338) |
| **(43 ,551)** | | **(117,883)** |
| | **Addasiadau ar gyfer eitemau wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu:** | |
| 238 | Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (23) |
| (202) | Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau ariannu – trefniadaeth Asiantaeth | 867 |
| 483 | Taliadau ar gyfer gweithgareddau buddsoddi a Derbyniadau o weithgareddau buddsoddi | 307 |
| **519** | | **1,151** |
| | | |
| **824** | **Llifau arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(4,146)** |

## 24. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau buddsoddi

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 5,419 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 3,547 |
| 76,691 | Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor | 87,804 |
| 312 | Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi | 373 |
| (238) | Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 23 |
| (82,806) | Enillion o fuddsoddiadau byrdymor a hirdymor | (86,528) |
| (795) | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | (680) |
| **(1,417)** | **Llifau arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **4,539** |

## 25. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau ariannu

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 172 | Ad-daliadau benthyciadau byrdymor a hirdymor | 190 |
| 202 | Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau ariannu | (867) |
| **374** | **Llifau arian parod net o weithgareddau ariannu** | **(677)** |

## 26. Gwasanaethau Asiantaeth

Ers mis Ebrill 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi bod yn arweinydd strategol gweinyddiaeth ariannol Partneriaeth 'Gan Bwyll'. 'Gan Bwyll' yw delwedd gyhoeddus Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru sy'n cynnwys pedwar Heddlu Cymru, y 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru (fel yr awdurdod cefnffyrdd).

Ariennir Partneriaeth 'Gan Bwyll' o ddwy brif ffynhonnell: grant gan Lywodraeth Cymru, a defnyddio incwm a dderbynnir o bresenoldeb troseddwyr ar Gyrsiau Ymwybyddiaeth o Gyflymder. Yn ystod 2018/19, cyflwynodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys hawliadau grant gwerth cyfanswm o £2.55m (£3.55m yn 2017/18), a gwnaeth daliadau credydwyr gwerth £6.31m (£6.15m yn 2017/18), ar ran y Bartneriaeth.

Yn unol â gofynion IAS 18 Refeniw, mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae sefydliad yn gweithredu fel asiant, na fydd trafodion yn cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol awdurdod, ac eithrio arian parod a gasglwyd neu wariant yr aed iddo gan yr asiant ar ran y penadur. Os felly, ceir sefyllfa dyledwr neu gredydwr ac mae'r arian parod net wedi'i gynnwys yn y Gweithgareddau Ariannu yn y Datganiad Llif Arian Parod.

## 27. Trefniadau Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes llwyddiannus, hir o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Caiff cydweithio yn y dyfodol ei sbarduno gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a chan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu pob Heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd yn ceisio cydweithio â'r Comisiynwyr a'r heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Caiff cytundebau o'r fath eu rheoleiddio gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithio a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig i'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd. Ystyrir y rhain yn 'Gyllidebau Cyfunol' i bob diben, gyda chytundebau ar gyfer Cyfraniadau Cyllido yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai grantiau penodol gan y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfunol yn cael eu cynnal gan Gomisiynydd De Cymru a Heddlu De Cymru i bob diben ar ran y pedwar Heddlu yng Nghymru.

Yn 2017/18 cafodd Tîm Cydweithio Cymru Gyfan ei sefydlu ar sail fyrdymor er mwyn cydlynu gweithgareddau presennol a nodi cyfleoedd newydd i gydweithio rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru. Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n arwain y tîm a chaiff ei ariannu ar sail cyfraniadau cytûn gan bob heddlu yng Nghymru. Cyfanswm costau'r tîm yn 2018/19 oedd £396k (2017/18 – £243k) a chyfraniad Dyfed-Powys at y costau hyn oedd £91.5k yn 2018/19 (2017/18 – £61.5k).

Mae'r tabl cyntaf isod yn rhoi crynodeb o'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer prif weithgareddau'r unedau cydweithio yn seiliedig ar yr arian y mae pob Heddlu yn ei gyfrannu at y trefniant cydweithio.

Yn y polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau ar y cyd, ceir diffiniadau ac esboniad o'r gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer cyd-ymgyrchoedd. Mae'r olaf ohonynt yn cynnwys cyfran yr incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau. O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae'r ail dabl isod yn darparu gwybodaeth ddiwygiedig mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys a heddluoedd eraill er mwyn dangos y cyfansymiau ar gyfer pob cyd-ymgyrch.

O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae gwariant gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i gynyddu £1,134k ac mae incwm/grantiau wedi'u cynyddu £792k, sef cynnydd o £342k mewn gwariant net. Mae'r cynnydd net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi parhau i gael eu nodi ym mantolenni heddluoedd ar sail eu perthnasedd.

**Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau Swyddi Diogelwch Penodol ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad ar sail poblogaeth Cymru. Felly ni chaiff ei incwm a'i wariant ar gyfer Swyddi Diogelwch penodol eu cynnwys yn y tablau isod. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Tasglu Rhanbarthol, sy'n gweithredu yn Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol. O ran yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.*

Dangosir y Datganiadau o Wariant ac Incwm ar gyfer y prif drefniadau cydweithio yn y tabl canlynol:

**2018/19**

| | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Uned Arfau Tanio ar y Cyd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio** | **Cudd-wybodaeth** | **Ymgyrchoedd Arbenigol** | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar Gyflogau | 7,541 | 428 | 3,805 | 4,855 | 1,720 | 11,480 | **29,829** |
| Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau | 1,644 | 46 | 380 | 2,333 | 575 | 1,656 | **6,634** |
| **Gwariant Gros** | **9,185** | **474** | **4,185** | **7,188** | **2,295** | **13,136** | **36,463** |
| Incwm Grant Penodol | (9,146) | (474) | (4,159) | (3,787) | 0 | (1,167) | **(18,733)** |
| Incwm | (39) | 0 | (26) | (1,512) | (21) | (245) | **(1,843)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(9,185)** | **(474)** | **(4,185)** | **(5,299)** | **(21)** | **(1,412)** | **(20,576)** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg - i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu fel a ganlyn:** | **0** | **0** | **0** | **1,889** | **2,274** | **11,724** | **15,887** |
| Cyfraniadau'r Heddlu (Net): | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (384) | (463) | (3,645) | **(4,492)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (491) | (590) | (2,796) | **(3,877)** |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (1,014) | (1,221) | (5,283) | **(7,518)** |
| **Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(1,889)** | **(2,274)** | **(11,724)** | **(15,887)** |

Mae cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm fel a ganlyn:

| | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Uned Arfau Tanio ar y Cyd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth a'r sail ddosrannu y cytunwyd arni** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)** | **Ymgyrchoedd Arbenigol (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)** | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Dyfed-Powys | 1,519 | 78 | 409 | 1,529 | 467 | 4,084 | **8,086** |
| Gwent | 1,727 | 89 | 465 | 1,739 | 596 | 3,133 | **7,749** |
| Gogledd Cymru | 2,046 | 106 | 2,262 | 0 | 0 | 0 | **4,414** |
| De Cymru | 3,893 | 201 | 1,049 | 3,920 | 1,232 | 5,919 | **16,214** |
| **Gwariant Gros** | **9,185** | **474** | **4,185** | **7,188** | **2,295** | **13,136** | **36,463** |
| Dyfed-Powys | (1,519) | (78) | (409) | (1,127) | (4) | (439) | **(3,576)** |
| Gwent | (1,727) | (89) | (465) | (1,282) | (6) | (337) | **(3,906)** |
| Gogledd Cymru | (2,046) | (106) | (2,262) | 0 | 0 | 0 | **(4,414)** |
| De Cymru | (3,893) | (201) | (1,049) | (2,890) | (11) | (636) | **(8,680)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(9,185)** | **(474)** | **(4,185)** | **(5,299)** | **(21)** | **(1,412)** | **(20,576)** |

**2017/18**

| | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Uned Arfau Tanio ar y Cyd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio** | **Cudd-wybodaeth** | **Ymgyrchoedd Arbenigol** | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar Gyflogau | 5,574 | 425 | 4,356 | 4,793 | 1,554 | 11,292 | **27,994** |
| Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau | 1,142 | 30 | 285 | 1,201 | 411 | 1,568 | **4,637** |
| **Gwariant Gros** | **6,716** | **455** | **4,641** | **5,994** | **1,965** | **12,860** | **32,631** |
| Incwm Grant Penodol | (6,772) | (455) | (4,641) | (4,320) | (500) | (1,473) | **(18,161)** |
| Incwm | 56 | 0 | 0 | (43) | (2) | (163) | **(152)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(6,716)** | **(455)** | **(4,641)** | **(4,363)** | **(502)** | **(1,636)** | **(18,313)** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg - i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu fel a ganlyn:** | **0** | **0** | **0** | **1,631** | **1,463** | **11,224** | **14,318** |
| Cyfraniadau'r Heddlu (Net): | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (348) | (298) | (3,457) | **(4,103)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (394) | (380) | (2,594) | **(3,368)** |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (889) | (785) | (5,173) | **(6,847)** |
| **Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(1,631)** | **(1,463)** | **(11,224)** | **(14,318)** |

Roedd cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

| | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Uned Arfau Tanio ar y Cyd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth a'r sail ddosrannu y cytunwyd arni** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol)** | **Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)** | **Ymgyrchoedd Arbenigol (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth leol)** | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Dyfed-Powys | 1,113 | 75 | 472 | 1,279 | 400 | 3,998 | **7,337** |
| Gwent | 1,260 | 85 | 535 | 1,449 | 510 | 3,067 | **6,906** |
| Gogledd Cymru | 1,501 | 102 | 2,428 | 0 | 0 | 0 | **4,031** |
| De Cymru | 2,842 | 193 | 1,206 | 3,266 | 1,055 | 5,795 | **14,357** |
| **Gwariant Gros** | **6,716** | **455** | **4,641** | **5,994** | **1,965** | **12,860** | **32,631** |
| Dyfed-Powys | (1,113) | (75) | (472) | (931) | (102) | (509) | **(3,202)** |
| Gwent | (1,260) | (85) | (535) | (1,054) | (130) | (390) | **(3,454)** |
| Gogledd Cymru | (1,501) | (102) | (2,428) | 0 | 0 | 0 | **(4,031)** |
| De Cymru | (2,842) | (193) | (1,206) | (2,378) | (270) | (737) | **(7,626)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(6,716)** | **(455)** | **(4,641)** | **(4,363)** | **(502)** | **(1,636)** | **(18,313)** |

## 28. Cydnabyddiaeth swyddogion

Uwch gyflogeion 2018/19

| | | | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.19 neu'r dyddiad gorffen | Cyflog gwirione -ddol, gan gynnwys lwfansau | Buddian-nau mewn da - ceir prydles | Buddia-nnau mewn da - treuliau adleoli | Cyflog yn lle Rhybudd / Taliad Ymadael | Cyfanswm y gydnabyddi-aeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | Cyfraniad-au pensiwn | Cyfanswm y Gydnabyd-diaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Nodyn 3 | Nodyn 4 | | | | | |
| | **Blwyddyn** | **Nodyn** | | | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Prif Gwnstabl | **2018/19** | | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **139,410** | 141,645 | 0 | 0 | 0 | **141,645** | 33,462 | **175,107** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | **2018/19** | | 01/04/2018 | 05/01/2019 | **116,718** | 94,875 | 0 | 0 | 0 | **94,875** | 9,231 | **104,106** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Llywodraeth Cymru | **2018/19** | 1 | 01/04/2018 | 31/12/2018 | **113,475** | 86,360 | 2,670 | 0 | 0 | **89,030** | 8,974 | **98,004** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro | **2018/19** | | 18/11/2018 | 31/03/2019 | **116,718** | 43,121 | 0 | 0 | 0 | **43,121** | 10,435 | **53,556** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | **2018/19** | | 22/04/2018 | 17/11/2018 | **100,509** | 56,807 | 0 | 0 | 0 | **56,807** | 13,747 | **70,554** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | **2018/19** | | 18/11/2018 | 31/03/2019 | **100,509** | 37,132 | 1,002 | 0 | 0 | **38,134** | 8,986 | **47,120** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | **2018/19** | | 03/04/2018 | 31/03/2019 | **87,327** | 90,625 | 0 | 0 | 0 | **90,625** | 20,782 | **111,407** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | **2018/19** | | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **86,106** | 86,420 | 0 | 0 | 0 | **86,420** | 11,667 | **98,087** |
| Y Comisiynydd* | **2018/19** | | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **66,300** | 66,192 | 0 | 0 | 0 | **66,192** | 8,877 | **75,069** |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd* | **2018/19** | | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **77,187** | 53,004 | 0 | 0 | 0 | **53,004** | 7,156 | **60,160** |
| Pennaeth Staff* | **2018/19** | | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **77,187** | 77,506 | 0 | 0 | 0 | **77,506** | 10,463 | **87,969** |
| Cyfarwyddwr Ystadau* | **2018/19** | 2 | 01/04/2018 | 31/03/2019 | **62,091** | 62,519 | 0 | 0 | 0 | **62,519** | 8,440 | **70,959** |
| **Cyfanswm 2018/19** | | | | | | **896,206** | **3,672** | **0** | **0** | **899,878** | **152,220** | **1,052,098** |

**staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Comisiynydd*

Nodyn 1: Ailgodwyd 50% o'r costau hyn ar Lywodraeth Cymru.

Nodyn 2: Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau wedi bod yn ei swydd ers 15/06/2015 ond, cyn hyn, nid oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei gynnwys yn y nodyn hwn.

Nodyn 3: Talwyd dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio i gyflogeion sy'n staff cymorth (heb gynnwys y Comisiynydd, nad yw'n gyflogai) ym mis Mai 2018, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2017 a mis Ebrill 2018. Cafodd y gyfran a oedd yn ymwneud â 17/18 ei chronni'n ôl yn y cyfrifon ond caiff ei chynnwys yma yn unol â'r Cod Ymarfer.

Nodyn 4: Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

## Uwch gyflogeion 2017/18

| | | | O | I | Cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.18 neu'r dyddiad gorffen | Cyflog gwirione-ddol, gan gynnwys lwfansau | Buddian-nau mewn da - ceir prydles (Nodyn 4) | Buddia-nnau mewn da - treuliau adleoli | Cyflog yn lle Rhybudd / Taliad Ymadael | Cyfanswm y gydnabyddi-aeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | Cyfrania d-au pensiwn | Cyfanswm y gydnabyd-diaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn** | **Nodyn** | | | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Prif Gwnstabl | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **136,677** | **139,487** | **0** | **0** | **0** | **139,487** | 32,939 | **172,426** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **114,429** | **120,441** | **0** | **0** | **0** | **120,441** | 27,577 | **148,018** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | **2017/18** | 1 | 01/04/2017 | 30/09/2017 | **111,249** | **56,620** | **2,420** | **0** | **0** | **59,040** | 15,594 | **74,634** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Llywodraeth Cymru | **2017/18** | 1 | 01/10/2017 | 31/03/2018 | **111,249** | **57,079** | **2,420** | **0** | **0** | **59,499** | 11,218 | **70,717** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl - Heddlu Gwent | **2017/18** | 2 | 24/07/2017 | 06/12/2017 | **115,383** | **42,684** | **832** | **0** | **0** | **43,516** | 9,386 | **52,902** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | **2017/18** | | 01/04/2017 | 23/07/2017 | **103,851** | **34,347** | **697** | **0** | **0** | **35,044** | 8,377 | **43,421** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **98,538** | **41,007** | **0** | **0** | **0** | **41,007** | 8,234 | **49,241** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **81,723** | **75,121** | **0** | **0** | **0** | **75,121** | 10,141 | **85,262** |
| Cyfarwyddwr Adnoddau | **2017/18** | 3 | 01/04/2017 | 27/10/2017 | **70,893** | **41,891** | **0** | **0** | **16,154** | **58,045** | 5,655 | **63,700** |
| Y Comisiynydd* | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **65,000** | **65,000** | **0** | **0** | **0** | **65,000** | 8,775 | **73,775** |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd* (A) | **2017/18** | | 19/02/2018 | 31/03/2018 | **73,308** | **4,974** | **0** | **0** | **0** | **4,974** | 672 | **5,646** |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd* (B) | **2017/18** | | 01/04/2017 | 09/03/2018 | **74,040** | **53,975** | **0** | **0** | **0** | **53,975** | 7,287 | **61,262** |
| Pennaeth Staff* | **2017/18** | | 01/04/2017 | 31/03/2018 | **73,308** | **68,521** | **0** | **0** | **0** | **68,521** | 9,250 | **77,771** |
| **Cyfanswm 2017/18** | | | | | | **801,147** | **6,369** | **0** | **16,154** | **823,670** | **155,105** | **978,775** |

**staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Comisiynydd*

Nodyn 1: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ei secondio i Lywodraeth Cymru am ran o'r flwyddyn a chafodd 50% o'i chostau eu hailgodi.

Nodyn 2: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro ei dyrchafu'n Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent ar sail secondiad, ac yna cafodd ei throsglwyddo'n ffurfiol i gyflogaeth Heddlu Gwent. Ailgodwyd ei chostau ar secondiad yn llawn ar Heddlu Gwent.

Nodyn 3: Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Adnoddau yn gynnar a chafodd daliad yn lle rhybudd diswyddo fel rhan o'i becyn ymadael. Yna cafodd y swydd ei dileu o'r strwythur.

Nodyn 4: Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

Cyflogeion eraill (heb gynnwys uwch swyddogion – y nodir eu manylion uchod)

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill Grŵp a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| **2017/18** | | **2018/19** |
|---|---|---|
| **Nifer y cyflogeion** | | **Nifer y cyflogeion*** |
| **10** | £60,000 - £64,999* | 10 |
| 2 | £65,000 - £69,999 | 6 |
| 4 | £70,000 - £74,999 | 3 |
| 1 | £75,000 - £79,999 | 3 |
| 5 | £80,000 - £84,999 | 2 |
| 1 | £85,000 - £89,999 | 2 |
| 0 | £90,000 - £94,999 | 1 |
| 0 | £95,000 - £99,999 | 0 |

Ni chafodd unrhyw aelod o staff a gyflogwyd gan y Comisiynydd gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na £60,000 yn 2018/19.

Cymhareb Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl/ Cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff

Mae'r diwygiad i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 wedi ychwanegu gofyniad newydd i nodi gwybodaeth ganlynol am gymhareb y gydnabyddiaeth:

a. cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl/Pennaeth Staff y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi;
b. cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y corff a oedd mewn swydd ar 31 Mawrth 2019;
c. y gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b);

Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddiannau mewn da.

**Comisiynydd:**

Cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff ar gyfer 2018/19 oedd £77,505.

Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2019 oedd £25,785.

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Comisiynydd oedd 3.01:1 (3.18:1 yn 2017/18).

**Y Prif Gwnstabl:**

Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl ar gyfer 2018/19 oedd £141,645 (ni chafodd y Prif Gwnstabl unrhyw fuddiannau mewn da yn 2018/19, cyfeiriwch at nodyn 4 o'r tabl Cydnabyddiaeth Swyddogion uchod).

Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2019 oedd £35,176.

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Prif Gwnstabl oedd 4.03:1 (3.93:1 yn 2017/18).

Aelodau

Talwyd y symiau canlynol i aelodau yn 2018/19 ac yn 2017/18.

| Y Grŵp | Y Comisiynydd | | Y Grŵp | Y Comisiynydd |
|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 2017/18 | | 2018/19 | 2018/19 |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| 0 | 0 | Cyflogau | 0 | 0 |
| 1 | 1 | Lwfansau | 3 | 3 |
| 0 | 0 | Treuliau | 0 | 0 |
| **1** | **1** | **Cyfanswm** | **3** | **3** |

## 29. Costau archwilio allanol

Yn 2018/19 aeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gost o £79k mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Heddlu nad ydynt yn rhai archwilio (2017/18: £79k).

## 30. Incwm Grant

Credydodd y Comisiynydd y grantiau, y cyfraniadau a'r rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2017/18 a 2018/19:

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Credydwyd i Drethiant ac incwm grant amhenodol** | |
| (32,861) | Grant Refeniw'r Heddlu | (33,579) |
| (3,582) | Grant Gwaelodol Cymru | (2,633) |
| (3,935) | Grant Cynnal Refeniw | (4,278) |
| (317) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | (322) |
| **(40,695)** | **Cyfanswm** | **(40,812)** |
| | **Credydwyd i wasanaethau** | |
| | ***Grantiau refeniw*** | |
| (1,941) | Grantiau sy'n Derbyniadwy oddi wrth y Swyddfa Gartref | (1,531) |
| (2,442) | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | (2,479) |
| (605) | Gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr | (600) |
| (364) | Menter Cyllid Preifat | (351) |
| (303) | Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan | (320) |
| (195) | Grant Benthyciadau Cyfalaf | (195) |
| (77) | Grantiau Refeniw Eraill | (26) |
| | ***Grantiau Cydweithredol*** | |
| (472) | Swyddi Diogelwch Penodol (Uned y Porthladdoedd) | (403) |
| **(6,399)** | **Cyfanswm** | **(5,905)** |

Yn 2017/18, cafodd incwm o £1,985k ei gynnwys mewn perthynas â chyfran deg y Grŵp o Grantiau Cydweithio eraill. Ni chaiff y symiau hyn eu cydnabod mwyach fel Incwm Grant yn Natganiad o Gyfrifon y Grŵp ond, yn hytrach, cânt eu cydnabod fel 'cyfraniadau oddi wrth heddluoedd eraill'. Fel yr heddlu sy'n arwain y Cytundebau Cydweithio hyn, mae Heddlu De Cymru yn derbyn ac yn llofnodi'r Cytundebau Grant, yn cyflwyno'r hawliadau grant ac yn cydnabod y symiau fel grantiau yn ei gyfrifon.

## 31. Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Grŵp/Comisiynydd ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Grŵp/Comisiynydd neu'r potensial i'r Grŵp/Comisiynydd eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Drwy ddatgelu'r trafodion hyn gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Grŵp/Comisiynydd fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr â'r Grŵp/Comisiynydd.

Llywodraeth Ganolog a Chyrff Cyhoeddus Eraill

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol y Grŵp/Comisiynydd – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y Grŵp/Comisiynydd â phartion eraill. Nodir y grantiau a dderbyniwyd oddi wrth adrannau'r llywodraeth ganolog yn nodyn 30, 'Incwm Grant', y mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau caeth.

Uwch Swyddogion

Mae'r Comisiynydd yn eistedd ar fwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu. Mae Cwmni TGCh yr Heddlu yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac mae'n llwyr eiddo i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a Lloegr. Cafodd ei sefydlu er mwyn cefnogi gwaith plismona i wneud pobl yn fwy diogel drwy well TGCh a thrwy bontio'r bwlch rhwng yr heddlu, y byd technolegol a'r byd masnachol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19, talodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfanswm o £99,592 (2017/18: £92,458) i Gwmni TGCh yr Heddlu. Nid oedd unrhyw falansau dyledwyr na chredydwyr â Chwmni TGCh yr Heddlu ar ddiwedd y flwyddyn.

Ni wnaeth unrhyw uwch swyddogion eraill ddatgan unrhyw gydberthnasau â phartïon cysylltiedig ar gyfer 2018/19.

Endidau y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn eu Rheoli neu'n Dylanwadu'n Sylweddol arnynt

Mae'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r ddau Brif Swyddog Ariannol yn ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth “Safer Dyfed-Powys Diogel”. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth yn nodyn 38, 'Cronfeydd Ymddiriedolaeth'. Yn 2018/19, ni fu unrhyw drafodolion ariannol rhwng Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Safer Dyfed-Powys Diogel (2017/18: £0).

Aelodau

Dangosir cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i Aelodau yn ystod y flwyddyn yn nodyn 28.

Nid oes unrhyw un o'r aelodau, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Comisiynydd yn 2018/19.

## 32. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Grŵp/Comisiynydd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan y Grŵp/Comisiynydd sydd eto i'w ariannu. Yn 2015/16, defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i ad-dalu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 0 | **Gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol:** | 0 |
| (4,682) | Eiddo, Offer a Chyfarpar | (4,367) |
| | Ffynonellau o ariannu: | |
| 305 | Derbyniadau cyfalaf | 616 |
| 447 | Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | 647 |
| 3,914 | Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | 3,097 |
| 16 | Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | 7 |
| **0** | **Gofyniad ariannu cyfalaf wrth gau:** | **0** |

## 33. Prydlesau

### Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydlesai

Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu eiddo o berchenogion eiddo eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy, er mwyn darparu swyddfeydd addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth. Mae gan y Grŵp/Comisiynydd brydlesau gweithredu hefyd ar gyfer offer a chyfarpar sy'n cynnwys llungopiwyr.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 90 | Dim hwyrach na blwyddyn | 148 |
| 357 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 544 |
| 838 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,346 |
| **1,285** | **Cyfanswm** | **2,038** |

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

| 2017/18 | | 2018/19 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 168 | Isafswm taliadau prydles | 187 |
| **168** | **Cyfanswm** | **187** |

**Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydleswr**

Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu rhan o'i bortffolio eiddo er mwyn darparu swyddfeydd addas a fforddiadwy i awdurdodau eraill yn y sector cyhoeddus.
Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| Y Grŵp | Y Comisiynydd | | Y Grŵp | Y Comisiynydd |
|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2019 |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| 53 | 53 | Dim hwyrach na blwyddyn | 53 | 53 |
| 212 | 212 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 212 | 212 |
| 89 | 89 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 89 | 89 |
| **354** | **354** | **Cyfanswm** | **354** | **354** |

## 34. Buddiannau terfynu

Nodir nifer y pecynnau ymadael fesul band, ynghyd â chyfanswm cost ymadawiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19 yn y tabl isod.

**Y Grŵp:**

| Band cost pecyn ymadael | 2017/18 Nifer yr Ymadawiadau y cytunwyd arnynt | 2017/18 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 | 2018/19 Nifer yr Ymadawiadau y cytunwyd arnynt | 2018/19 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| £0 - £20,000 | 0 | 0 | 2.0 | 39 |
| £20,001 - £40,000 | 0 | 0 | 12.7 | 477 |
| £40,001 - £60,000 | 1 | 47 | 2.7 | 130 |
| | 1 | 47 | 17.4 | 646 |

Mae'r costau uchod yn 2018/19 yn ymwneud â chynllun diswyddiadau gwirfoddol a oedd ar gael i swyddogion yr heddlu i'w galluogi i wneud cais i adael y sefydliad cyn cyrraedd oedran pensiwn.

**Comisiynydd:**

Ni chodwyd ar gyfer unrhyw becynnau ymadael ar gyfrifon y Comisiynydd yn 2018/19.

Codir tâl am gyfanswm costau pecynnau ymadael ar Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae cost yr ymadawiadau wedi'u cynnwys yn y Dadansoddiad o Wasanaeth a'r Pwysau Pensiwn fel Cost nas Dosbarthwyd.

## 35. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan y Grŵp ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig a ariannwyd ydyw, sy'n golygu bod y Grŵp a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – cynllun CARE buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, ac o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff buddiannau sy'n daladwy eu hariannu gan gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddiannau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy drwy grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref.

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Grŵp | Y Comisiynydd | Y Grŵp | Y Comisiynydd | | Y Grŵp | Y Comisiynydd | Y Grŵp | Y Comisiynydd |
| 2017/18 | 2017/18 | 2017/18 | 2017/18 | | 2018/19 | 2018/19 | 2018/19 | 2018/19 |
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant:** | | | | |
| | | | | *Cost gwasanaethau:* | | | | |
| (7,050) | (305) | (28,048) | 0 | Cost gwasanaeth cyfredol | (6,926) | (280) | (23,230) | 0 |
| (47) | 0 | 0 | 0 | Cost gwasanaeth a roddwyd | (3,278) | | (75,453) | 0 |
| (130) | 0 | 0 | 0 | Arall | (116) | 0 | 0 | 0 |
| | | | | *Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:* | | | | |
| (980) | (42) | (32,736) | 0 | Traul llog net | (904) | (36) | (30,577) | 0 |
| **(8,207)** | **(347)** | **(60,784)** | **0** | **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau** | **(11,224)** | **(316)** | **(129,260)** | **0** |
| | | | | *Buddiant Ôl-gyflogaeth arall a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant* | | | | |
| | | | | Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys: | | | | |
| 1,241 | 0 | 0 | 0 | Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net) | 4,500 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 53,017 | 0 | Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 8,072 | 403 | 50,973 | 0 | Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (11,576) | (286) | (74,124) | 0 |
| 0 | 0 | 54,186 | 0 | Arall – (ennill)/colled profiad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **1,106** | **56** | **97,392** | **0** | ***Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant*** | **(18,300)** | **(602)** | **(203,384)** | **0** |
| 0 | 1,050 | 0 | 97,392 | **Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)** | 0 | (17,698) | 0 | (203,384) |
| **1,106** | **1,106** | **97,392** | **97,392** | **Cyfanswm y gost net** | **(18,300)** | **(18,300)** | **(203,384)** | **(203,384)** |
| | | | | *Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:* | | | | |
| 8,207 | 8,207 | 60,784 | 60,784 | Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | 11,224 | 11,224 | 129,260 | 129,260 |
| | | | | *Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:* | | | | |
| (3,070) | (3,070) | (28,928) | (28,928) | Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | (3,240) | (3,240) | (29,475) | (29,475) |

Trafodion sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid i'r Grŵp ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/buddiannau ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Proseswyd trosglwyddiad o fewn y grŵp o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal cronfeydd wrth gefn.

Y swm cronnol o enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp a'r Comisiynydd hyd at 31 Mawrth 2019 yw colled o £7,076k (2017/18: ennill o £9,313k).

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabuwyd yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Grŵp mewn perthynas â'r cynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | **2017/18** | **2018/19** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (161,629) | (186,877) | (1,147,093) | (1,321,002) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 126,534 | 136,722 | 0 | 0 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(35,095)** | **(50,155)** | **(1,147,093)** | **(1,321,002)** |

Rhwymedigaeth Pensiynau

Mae'r Rhwymedigaeth Pensiynau a ddatgelir ar Fantolen y Grŵp yn adlewyrchu ymrwymiadau sylfaenol y Prif Gwnstabl yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeol. Yn 2018/19 mae hyn yn cyfateb i £1,371,157k o'i gymharu â £1,182,188k yn 2017/18.

Mae cydnabod cyfanswm y rhwymedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Grŵp yn dal i fod yn iach. Y rheswm dros hyn yw bod y Prif Gwnstabl, er mwyn ariannu'r rhwymedigaeth, yn gwneud cyfraniad pensiwn o 21.3% ar gyfer swyddogion yr heddlu ac 13.5% ar gyfer staff yr heddlu, gyda'r pensiynau gwirioneddol a'r cyfandaliadau a gymudwyd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy law'r Comisiynydd.

Cysoni'r symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | **119,772** | **126,534** | **0** | **0** |
| Llog incwm | 3,147 | 3,448 | 0 | 0 |
| Ailfesur ennill / colled) | | | | |
| • Enillion o asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | 1,241 | 4,500 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 3,070 | 3,240 | 28,928 | 29,475 |
| Cyfraniadau gan gyflogeion i'r cynllun | 1,408 | 1,501 | 5,854 | 5,879 |
| Buddiannau a dalwyd | (1,974) | (2,385) | (34,782) | (35,354) |
| Arall (os yw'n gymwys) | (130) | (116) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau** | **126,534** | **136,722** | **0** | **0** |

Y Prif Gwnstabl sy'n mynd i'r rhan fwyaf o gostau cyflogaeth, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl a'r Grŵp.

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):

| | Rhwymedigaethau a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill:** | **(159,043)** | **(161,629)** | **(1,273,413)** | **(1,147,093)** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (7,050) | (6,926) | (28,048) | (23,230) |
| Cost llog | (4,127) | (4,352) | (32,736) | (30,577) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,408) | (1,501) | (5,854) | (5,879) |
| *Ailfesur enillion a (cholledion)* | | | | |
| • Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 0 | 53,017 | 0 |
| • Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | 8,072 | (11,576) | 50,973 | (74,124) |
| • Arall (os yw'n gymwys) | 0 | 0 | 54,186 | 0 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | (5) | (3,278) | 0 | (75,453) |
| Colledion / (enillion) o gwtogi | (42) | 0 | 0 | 0 |
| Buddiannau a Dalwyd | 1,974 | 2,385 | 34,782 | 35,354 |
| **Balansau wrth gau ar 31 Mawrth** | **(161,629)** | **(186,877)** | **(1,147,093)** | **(1,321,002)** |

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

| | Gwerth teg asedau'r Cynllun | |
|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 760 | 820 |
| Offerynnau ecwiti | 89,333 | 94,475 |
| Bondiau | 24,547 | 22,833 |
| Eiddo | 11,894 | 18,594 |
| Cyfanswm yr asedau | **126,534** | **136,722** |

Sail dros amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2017.

Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | **2017/18** | **2018/19** |
| **Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau:** | | | | |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol: | | | | |
| • Dynion | 22.9 | 23.0 | 26.4 | 26.5 |
| • Menywod | 25.6 | 25.7 | 28.4 | 28.4 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol: | | | | |
| • Dynion | 25.1 | 25.2 | 28.3 | 28.4 |
| • Menywod | 27.9 | 28.1 | 30.3 | 30.4 |
| **Rhagdybiaethau eraill:** | | | | |
| Cyfradd chwyddiant | 2.1% | 2.2% | 2.1% | 2.2% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.6% | 3.7% | 3.5% | 3.7% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.2% | 2.3% | 2.2% | 2.3% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 2.7% | 2.5% | 2.7% | 2.5% |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai

o'r rhagdybiaethau fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| **Cynllun yr Heddlu Llywodraeth Leol 2018/19** | **Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun** | |
|---|---|---|
| | **Cynnydd yn y rhagdybiaeth** | **Lleihad yn y rhagdybiaeth** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 3,542 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 4,148 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 855 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 0 | 4,059 |
| **Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2018/19** | **Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun** | |
| | **Cynnydd yn y rhagdybiaeth** | **Lleihad yn y rhagdybiaeth** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 35,534 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 27,192 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 5,169 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 0 | 26,588 |

Effaith ar lifau arian parod y Grŵp

Amcan y cynllun yw sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2017 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr yn y dyfodol isod:

| **Blwyddyn** | **Cyfradd y cyflogwr** |
|---|---|
| 2017/18 | 13.5% |
| 2018/19 | 13.5% |
| 2019/20 | 13.5% |

Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu - Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd (McCloud/Sargeant).

Mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, yn wynebu 50 o hawliadau a gyflwynwyd yn eu herbyn yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Llundain Ganolog. Mae'r hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon honedig sy'n codi o'r Darpariaethau Trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015.

Mae hawliadau gwahaniaethu anghyfreithlon hefyd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau i reoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân ac ym mis Rhagfyr 2018

dyfarnodd y Llys Apêl (McCloud/Sargeant) fod yr 'amddiffyniad trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau fel rhan o'r diwygiadau i bensiynau sector cyhoeddus yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.

Ar 27 Mehefin, gwrthododd y Goruchaf Lys hawl i apelio mewn perthynas ag achos McCloud.Yn sgil hyn, rhagwelir y bydd y Llys yn mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i drefniadau ar gyfer cyflogeion a gafodd eu trosglwyddo i'r cynlluniau newydd, gan gynnwys aelodau o Gynllun Pensiwn yr Heddlu o bosibl. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu ac mae ein hactiwarïaid (Mercers), gan ddefnyddio tybiaethau penodol a'u cymhwyso i gynllun yr Heddlu yn gyffredinol, wedi amcangyfrif y gallai'r cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun i Heddlu Dyfed-Powys gyfateb i tua 6.5% neu £75.4m o rwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Caiff y cynnydd hwn ei gynnwys yn Natgeliad IAS19 fel Cost Gwasanaeth a Roddwyd. Mae'r actiwarïaid wedi pwysleisio bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar un rhwymedi posibl, effaith bosibl unrhyw wahaniaeth ym mhroffil aelodau'r heddlu o gymharu â'r cynllun yn gyffredinol a bod y ffigurau'n sensitif iawn i dybiaethau ynghylch twf enillion byrdymor.

Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai. Cynhelir yr ymarfer prisio nesaf mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu yn 2020 a bwriedir gweithredu ar y canlyniadau yn 2023/24 a bydd angen i heddluoedd gynllunio ar gyfer effaith hyn ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ynghyd â newidiadau eraill a nodir yn ystod y broses brisio.

Caiff effaith unrhyw gynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad McCloud / Sargeant ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. O dan y Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i awdurdod yr heddlu gynnal cronfa bensiwn y caiff cyfraniadau'r swyddogion a'r cyflogwr eu talu i mewn iddi ac a gaiff ei defnyddio i wneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes digon o arian yng nghronfa bensiwn yr heddlu i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu'r swm sy'n ddyledus i awdurdod yr heddlu ar ffurf grant ychwanegol gan y llywodraeth ganolog.

O safbwynt y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae addasiad tebyg i gostau gwasanaeth a roddwyd yn Natgeliad IAS19 wedi cael ei wneud ar gyfer dyfarniad McCloud. Mae hyn yn cyfateb i gynydd o 3.2% neu £3.2m mewn rhwymedigaethau. Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai.

Gan y cynigiwyd 'amddiffyniad trosiannol' i aelodau pob un o brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, mae'r llywodraeth o'r farn y bydd angen unioni'r gwahaniaeth mewn triniaethau rhwng yr holl gynlluniau hynny. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y GIG, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, athrawon, yr heddlu, y lluoedd arfog, y farnwriaeth a gweithwyr tân ac achub. Byddai parhau i wrthod derbyn goblygiadau llawn y dyfarniad a wnaed yn y Llys ond yn ychwanegu at yr ansicrwydd y mae aelodau yn ei brofi.

Caiff y mater ei ailgyfeirio i'r Tribiwnlys Cyflogaeth mewn perthynas ag ymgyfreithwyr yng nghynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a'r farnwriaeth. Y Tribiwnlys fydd yn gyfrifol am bennu rhwymedi. Ochr yn ochr â'r broses hon, bydd y llywodraeth yn ymgysylltu â chynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau, yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn helpu i lywio eu cynigion i'r Tribiwnlys ac mewn perthynas â chynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

## 36. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Ymchwiliad i Blismona Cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio i ymgyrchoedd cudd a gynhaliwyd gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ers 1968 a chyflwyno adroddiad arno. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddu, sut roedd/mae yn cael ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – swyddogion yr heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â hwy.

Mae atebolrwydd wedi'i sefydlu a, gyda 11 o heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u penodi i gynrychioli swyddog(ion) cyfredol. Cytunwyd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn talu 5% o gostau paratoi cyffredinol y cwmni cyfreithiol. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys yn fewnol.
Ar hyn o bryd, mae gwaith yr ymchwiliad ar gam rhy gynnar eto i ragweld yn gywir gostau pellach, felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2018/19.

Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill, yn wynebu hawliadau "Lwfans ar alw" o dan Reoliad 34 o Atodiad U i Reoliadau'r Heddlu 2003.
Mae'r hawlwyr yn swyddogion yr heddlu cyfredol a/neu wedi ymddeol ac yn aelodau o "Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig (Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol)". Dywed yr hawlwyr fod eu rolau yn gofyn iddynt ateb ffonau symudol a delio â'r sawl sydd am roi cudd-wybodaeth i'r heddlu. Hefyd, dywedant iddynt oruchwylio ymdrinwyr ffynonellau a bod y tasgau hyn wedi gofyn iddynt fonitro eu ffonau bob dydd.
Ar y cam hwn, ni phennwyd atebolrwydd ac felly ni fyddai'n briodol gwneud unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2018/19. Hefyd ni ellir darparu amcangyfrif rhesymol o atebolrwydd ar y cam hwn.

## 37. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Diwygiedig CIPFA ar Reoli Trysorlys ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Cyllid Cyfalaf Darbodus Diwygiedig i Awdurdodau Lleol (diwedddarwyd y ddau yn 2017).

Fel rhan o'r broses o fabwysiadu'r Cod Rheoli Trysorlys, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn nodi paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn paratoi Arferion Rheoli Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn er mwyn rheoli'r risgiau hyn.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Canllawiau hyn yn pwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Comisiynydd, ynghyd â'i Arferion Rheoli Trysorlys yn seiliedig ar geisio'r gyfradd uchaf o enillion sy'n gyson â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gwmpesir yw:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd cydbarti ased ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r Comisiynydd.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fyddai'r arian parod ar gael i'r Comisiynydd wneud taliadau cytundebol ar amser.

- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd y bydd colled ariannol nas cynlluniwyd yn codi oherwydd newidiadau yn newidynnau'r farchnad, megis cyfraddau llog neu brisiau ecwiti.

Risg Credyd

***Buddsoddiadau***

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu y mae eu statws credyd yn ddigon uchel fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol sydd ag isafswm statws credyd hirdymor uchel o A-, Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol eraill, a sefydliadau heb statws credyd y mae'r Comisiynydd wedi cael cyngor buddsoddi annibynol yn eu cylch.

Rhoddir terfyn o £2m ar y swm o arian y gellir ei fuddsoddi mewn un cydbarti (ac eithrio llywodraeth y DU).

Ni all amlygiad mwyaf y Comisiynydd i risg credyd mewn perthynas â buddsoddiadau 'amhenodol' o £40m gael ei asesu'n gyffredinol gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y bydd endidau o'r fath yn methu â bodloni eu hymrwymiadau. Mae risg na fydd modd adennill symiau yn gymwys i bob un o adneuon y Comisiynydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2019 bod hyn yn debygol o grisialu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2019, ac yn cadarnhau i bob buddsoddiad gael ei wneud yn unol â meini prawf statws credyd cymeradwy'r Comisiynydd:

| Cydbarti | A fodlonwyd y meini prawf ynglyn â statws credyd pan wnaed y buddsoddiad? | A fodlonwyd y meini prawf ynglyn â statws credyd ar 31 Mawrth 2019? | Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2019 £'000oedd | | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | D/N | D/N | Hyd at fis | > 1 mis a < 3 mis | > 3 mis a < 6 mis | > 6 mis a < 12 mis | Dros 12 mis | |
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Banciau'r DU | D | D | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | **2,000** |
| Banciau Tramor | D | D | 2,000 | 1,500 | 0 | 0 | 0 | **3,500** |
| Cymdeithasau Adeiladu'r DU | Dd/G | Dd/G | 0 | 1,000 | 2,000 | 0 | 0 | **3,000** |
| Bondiau | D | D | 0 | 0 | 0 | 120 | 6,414 | **6,534** |
| Tystysgrifau Adneuo | D | D | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,000** |
| Swyddfa Rheoli Dyledion – bil trysorlys | D | D | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,000** |
| Awdurdodau Lleol | Dd/G | Dd/G | 6,000 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | **8,000** |
| **Cyfanswm** | | | **11,000** | **6,500** | **2,000** | **120** | **6,414** | **26,034** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod yr holl adneuon a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2019 yn bodloni meini prawf statws credyd y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2019.

***Symiau Masnach Derbyniadwy***

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi amlygiad posibl mwyaf y Comisiynydd i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gafwyd dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf ar lefel diffyg talu ymhlith dyledwyr masnach.

Dim ond y symiau derbyniadwy hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ased ariannol sydd wedi'u cynnwys, h.y. dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu.

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| **Dyledwyr Gros (£'000)** | 3,439 | 2,091 |
| **Darpariaeth Drwg-ddyledion fel % o Ddyledwyr Masnach y Grŵp** | 1.09 | 2.45 |
| **Amlygiad i risg credyd** | 38 | 51 |

Risg Hylifedd

Mae'r Comisiynydd yn gallu benthyca ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y Comisiynydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymiadau. Fodd bynnag, mae'n cael ei amlygu i'r risg y bydd angen ailariannu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau pan fo cyfraddau llog anffafriol o uchel.

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o'r rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2018 £'000 | Benthyciadau yn aeddfedu o fewn: | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| 189 | O dan flwyddyn | 207 |
| **189** | **Cyfanswm y Benthyciadau Cyfredol** | **207** |
| 207 | 1 – 2 flynedd | 227 |
| 747 | 2 – 5 mlynedd | 818 |
| 982 | 5 – 10 mlynedd | 684 |
| 0 | 10 – 15 mlynedd | 0 |
| 0 | 15 mlynedd a mwy | 0 |
| **1,936** | **Cyfanswm y Benthyciadau Hirdymor dros 12 mis** | **1729** |

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

Risg y Farchnad

***Risg Cyfraddau Llog***

Mae'r Comisiynydd yn cael ei amlygu i risg o ran ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg benthyciadau rhwymedigaethau yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng.

***Risg Pris***

Nid yw'r Comisiynydd yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfunol na chyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n cael ei amlygu i risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Comisiynydd yn wynebu colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris offerynnau ariannol).

***Risg Cyfnewid Tramor***

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw ased ariannol na rhwymedigaethau sydd mewn arian cyfred tramor. Felly, nid yw wedi'i amlygu i golled sy'n codi o ganlyniad i symudiadau anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid.

## 38. Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Gelwid Safer Dyfed-Powys Diogel yn Ymddiriedolaeth Atal Troseddau Dyfed-Powys gynt.

Ar 1 Awst 2017 ailenwyd yr Ymddiriedolaeth yn Safer Dyfed-Powys Diogel yn ffurfiol.

Elusen gofrestredig yw Safer Dyfed-Powys Diogel, sydd wedi cael ei hailfywiogi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gyda'r nod o hyrwyddo cyngor atal troseddau a diogelwch cymunedol, lleihau ofn troseddau a rhoi addysg a gwybodaeth am ddiogelwch cymunedol ym mhob cymuned yn ardal Dyfed-Powys. Bydd yr elusen, dros amser, yn datblygu llawer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn cyflawni'r amcanion hyn a bydd yn helpu i sicrhau diogelwch cymuned yn Nyfed-Powys.

Mae Safer Dyfed-Powys Diogel yn mynd drwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn codi arian yn rhagweithiol ac mae'n defnyddio'r balansau sydd ganddi i ariannu gwariant.Bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu ar y ffordd orau i'r Ymddiriedolaeth weithredu yn y dyfodol.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2018-19**

## Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei weinyddu yn unol â'r gyfraith, i'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol, effeithlon a darbodus. Mae dyletswydd arnynt hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu materion a hwyluso eu swyddogaethau, sy'n cynnwys sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith i reoli risg.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu egwyddorion canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales 2016 Edition*. Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â'r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddi'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r dull gweithredu a ddilynwyd eleni yn wahanol i'r un blaenorol yn yr ystyr bod y ddogfen hon yn amlinellu canfyddiadau gwerthuso i drefniadau llywodraethu a chaiff ei hategu gan fatrics tystiolaeth sy'n nodi sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn arddangos yr egwyddorion a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu da.

## Egwyddorion Llywodraethu Da

Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd yn nodi'r systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'r ffordd yr aiff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys ati i lywodraethu eu gweithgareddau, ar y cyd ac ar wahân. Mae'r Fframwaith yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac ystyried p'un a ydynt wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol, gan gynnwys gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all atal pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y sefydliad, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe caent eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*, sy'n berthnasol i gyrff plismona, yn nodi'r saith egwyddor sy'n sail i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu diffinio a'u cyflawni. Mae'r Datganiad hwn yn rhoi asesiad yn erbyn pob un o'r egwyddorion hynny.

## A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith

Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae ganddynt brosesau ar waith i gefnogi egwyddor graidd moeseg ac uniondeb sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn ogystal â safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. Cyhoeddir datganiadau o fuddiannau a chofrestrau rhoddion a lletygarwch ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ac mae gweithdrefnau ar waith i gofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau lle bo angen.

Yn ôl adolygiad o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a dilysrwydd yr heddlu (adolygiad PEEL) a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) yn 2018, mae Dyfed-Powys yn 'Dda' yn annog penderfyniadau moesegol, ac mae arweinwyr yn hyrwyddo Cod Moeseg yr Heddlu ac yn gosod cywair moesegol. Caiff hyfforddiant ei ddarparu i arweinwyr sy'n cynnwys dilemâu moesegol.

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisi chwythu'r chwiban yn ogystal â pholisi a phroses Tegwch yn y Gwaith sydd newydd gael eu rhoi ar waith ac sy'n hygyrch iawn. Mae ganddynt hefyd raglen profion cyffuriau ar hap i warchod rhag achosion o gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Pwyllgor Moeseg sy'n cyfarfod bob mis yn cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu ac mae ganddo gadeirydd annibynnol o'r byd academaidd. Mae'r Pwyllgor yn cael atgyfeiriadau gan y gweithlu drwy fewnrwyd yr heddlu, a gellir gwneud atgyfeiriadau o'r fath yn ddienw. Ar ôl i atgyfeiriad ddod i law, mae'r Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fater moesegol ai peidio. Os yw'n fater moesegol, mae'r Pwyllgor yn comisiynu gwaith ymchwil pellach ac yn cael cyngor cyfreithiol, lle bo angen, er mwyn penderfynu sut i ymateb a chaiff yr atgyfeiriad ei uwchgyfeirio i Fwrdd Pobl yr Heddlu os tybir bod hynny'n briodol.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, asesodd yr Arolygiaeth fod 'Angen Gwella' dilysrwydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- Y gallu a'r capasiti cyfyngedig i swyddogaethau gwrthlygredd fonitro pob system yn effeithiol ac yn gyflawn er mwyn nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol.
- Angen gwella mynediad at weithdrefnau tegwch yn y gwaith a thryloywder y gweithdrefnau hynny.
- Yr angen i sefydlu prosesau i nodi unrhyw anghymesuredd o ran recriwtio, cadw a dilyniant y gweithlu ynghyd â phrosesau dyrchafu teg a hygyrch.

Caiff yr argymhellion eu rhoi ar waith gan y byrddau llywodraethu priodol, a'u goruchwylio gan Grŵp Llywodraethu'r Arolygiaeth.

## B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr

Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn un o gyfrifoldebau statudol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac mae'n rhaid iddynt ofyn am farn y gymuned er mwyn pontio'r bwlch rhwng plismona a'r cyhoedd. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn llywio'r blaenoriaethau plismona lleol a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel y nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2017-2021, y caiff y Prif Gwnstabl ei ddwyn i gyfrif amdano.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am waith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drwy eu priod wefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, cylchlythyrau deufisol y Comisiynydd, papurau a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion o unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ymgynghorir â'r cyhoedd yn barhaus er mwyn llywio penderfyniadau a chefnogi gweithgarwch craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhelir ymgynghoriadau penodol mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, fel yr ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept y dreth gyngor, ac i graffu ar weithgarwch yr Heddlu, megis y defnydd o rym a'r ffordd y mae'n ymdrin â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon. Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'r Panel hwn yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ymgynghori â'u cymunedau lleol ac yn cynnig adborth i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dau o brif gyfrifoldebau Panel yr Heddlu a Throseddu yw adolygu lefel y praesept a ddymunir yn ogystal â chymeradwyo penodiad y Prif Gwnstabl a rolau statudol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae 'Cysylltu â Chymunedau' yn un o flaenoriaethu'r Cynllun Heddlu a Throseddu ac er bod tystiolaeth o arfer da, ni chaiff gweithgarwch yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei gydgysylltu'n ddigonol. Nodwyd bod hwn yn faes i'w wella a chynigiwyd y dylid gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethu'r sefydliad er mwyn mynd i'r afael â hyn a fydd yn arwain at gysoni strategaethau ymgysylltu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drwy Fwrdd a gaiff ei gadeirio ar y cyd.

## C. Pennu canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Y Cynllun Heddlu a Throseddu yw'r cynllun corfforaethol pum mlynedd a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac a gaiff ei roi ar waith gan y Prif Gwnstabl. I gefnogi hyn, mae'r Prif Gwnstabl wedi datblygu Cynllun Cyflenwi a rhoddir adroddiadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflenwi hwn. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am weithgarwch drwy'r wefan a thrwy weithgareddau ymgysylltu amrywiol, fel y daflen ar y dreth gyngor a gaiff ei hanfon i bob cartref yn ardal Dyfed-Powys.

Fodd bynnag, yn ôl arolygiad PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, mae cynllunio i'r dyfodol yn faes lle mae angen i'r Heddlu wella. Mae angen i'r Heddlu gael dealltwriaeth well o alw a'r hyn sy'n effeithio arno, fel y gall ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon a chynllunio i'r dyfodol yn effeithiol. Byddai dealltwriaeth glir o alw nawr ac yn y dyfodol yn rhoi'r sefydliad mewn sefyllfa gref gan y byddai ganddo sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio strategaeth y sefydliad, er enghraifft mewn perthynas ag ystadau, TG a gweithio hyblyg. Drwy hynny, dylai'r Heddlu wneud mwy i sicrhau bod buddiannau busnes ac elw ar fuddsoddiadau mewn cynlluniau cyfalaf yn cael eu sicrhau a'u gwireddu, maes lle cafodd yr heddlu ei feirniadu gan yr Arolygiaeth yn ddiweddar.

## D. Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig.

Caiff cynlluniau adnoddau manwl eu llunio'n flynyddol a'u cyhoeddi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r rhain yn asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar sail tybiaethau priodol

er mwyn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i flaenoriaethu galw croes am wasanaethau.

Mae'r trefniadau llywodraethu a gyflwynwyd yn ystod 2018/19 yn cefnogi camau i wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol. Roedd y strwythur diwygiedig wedi ceisio dwyn ynghyd nifer o gyfarfodydd gwahanol a chynnig llwybr adrodd clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu. Drwy leihau nifer y cyfarfodydd, caiff y trefniadau llywodraethu eu harwain yn bennaf gan Brif Swyddogion ond mae cyfrifoldebau penderfynu wedi cael eu datganoli fel y gellir cymryd camau hyblyg ac ymatebol a sicrhau canlyniadau gwell. Caiff atebolrwydd ei gefnogi gan y strwythur a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith. Mae systemau monitro perfformiad yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

O fewn y strwythur, caiff risgiau eu rheoli a'u trin yn ystod cyfarfodydd fel y nodir yn y Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Dynamig; argymhellion sy'n deillio o arolygiadau thematig ac ad hoc gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi; ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, dogfen flynyddol sy'n edrych i'r dyfodol.

Mae dysgu gwersi yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau parhaus eu gwneud fel y gellir darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n ddynamig ac yn ymateb i anghenion cymunedau. Fodd bynnag, mae ein hasesiad yn awgrymu bod cyfleoedd ar gael i raeadru gwersi i'w dysgu mewn ffordd fwy strwythuredig a chyson, drwy gyflwyno prosesau a gaiff eu llywio gan y strwythur llywodraethu ac nad ydynt, felly, yn dibynnu'n gyfan gwbl ar unigolion.

Defnyddir proses achosion busnes ffurfiol i ystyried prosiectau ac mae byrddau prosiect ar gael hefyd sy'n monitro'r ffordd y caiff mentrau a chynlluniau y cytunwyd arnynt eu rhoi ar waith a'u cyflawni.

Mae cynnydd amlwg wedi cael ei wneud i ystyried cyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn gwella effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth gwell a mwy cadarn. Fodd bynnag, mae pryderon wedi cael eu codi mewn perthynas â threfniadau llywodraethu rhywfaint o weithgarwch cydweithio rhanbarthol yr heddlu a faint o sicrwydd y gellir ei roi bod y gweithgarwch hwn yn cynnig gwerth am arian. Er mwyn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i sefydlu rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu da ar gyfer pob gweithgarwch cydweithio, mae hyn wedi cael ei nodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chaiff ei fonitro drwy'r strwythurau llywodraethu. At hynny, bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dod yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ac mae'n bwriadu canolbwyntio ar lywodraethu da ym maes cydweithio.

Yn ystod 2018, cynhaliwyd adolygiad o Fwrdd Comisiynu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a arweiniodd at newid aelodau, Cylch Gwaith a phwyslais y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu, fel y'i gelwir bellach, yn gweithio fel corff adolygu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gan roi cyngor iddo ar ddyfarnu arian grant neu dendro am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod elw'n cael ei wneud ar fuddsoddiadau a bod effaith gwasanaethau'n cael ei gwerthuso. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu a chynrychiolwyr o gynlluniau gwirfoddoli'r Comisiynydd, yn canolbwyntio ar graffu ar wasanaethau a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif. Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad sylweddol yn y broses o werthuso gwasanaethau a gomisiynwyd, ond mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith gwasanaethau o'r fath a'r elw a wneir ar fuddsoddiadau.

## E. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi diffinio strwythurau a rolau o fewn y sefydliadau er mwyn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Caiff hyn ei gefnogi gan y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni'r strategaeth a'r cynlluniau sydd ar waith.

Ym mis Hydref 2018, cafodd system ddatblygu newydd ei chyflwyno i olrhain perfformiad a chynnydd unigolion. Cyflwynwyd y Proffil Asesu Datblygiad yn lle'r system berfformiad flaenorol nad oedd yn diwallu anghenion y sefydliad mwyach. Gan ddefnyddio'r Proffil, bydd modd monitro perfformiad unigolyn drwy gydol ei yrfa a bydd hyn yn helpu i reoli doniau a datblygu sgiliau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar i'r system o hyd ac mae angen iddi gael ei gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Weddnewidiol y Sefydliad wedi parhau i gefnogi newid mewn diwylliant tuag at arddull hyfforddi a gwelliant parhaus o fewn yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Drwy barhau i roi'r rhaglen hon ar waith, bydd pob swyddog ar reng arolygydd neu uwch a staff yr heddlu sydd ar lefel gyfatebol yn cael hyfforddiant i wreiddio ethos arweinyddiaeth weddnewidiol ymhellach.

Drwy ddadansoddi galw'n well, cynllunio'r gweithlu'n strategol a rhagweld y dyfodol, bydd modd recriwtio a hyfforddi staff fel bod capasiti'r Heddlu'n parhau i fod yn briodol ac yn gynaliadwy i ateb y galw yn y dyfodol.

Mae Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio'n galed er mwyn delio â chwynion yn gyflymach, mater y mae Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu (IOPC) wedi craffu arno'n agos. Mae'n gadarnhaol nodi bod gwelliannau mawr wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf ac, o safbwynt yr amser a gymerir i gau achosion drwy brosesau datrys lleol ac ymchwiliadau cymesur, mae'r Heddlu naill ai'n perfformio'n well neu'n gystal â'r Heddlu Tebycaf a ffigurau cyfartalog cenedlaethol. O safbwynt cofnodi cwynion o fewn 10 diwrnod gwaith, mae perfformiad yn gyson well na'r Heddlu Tebycaf a ffigurau cyfartalog cenedlaethol. Mae ôl-groniad blaenorol ym maes fetio a nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi hefyd wedi cael ei glirio.

Mae'n amlwg, felly, fod yr Adran wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran amseroldeb yn gyffredinol ac mae hyn yn deillio o'r gwelliannau sylweddol a wnaed wrth ymdrin â chwynion dros y blynyddoedd diwethaf. Un o'r prif broblemau sydd wedi wynebu'r Adran o ran amseroldeb yw'r cynnydd mewn 'achosion etifeddol' sydd wedi amharu ar berfformiad cyffredinol yr Adran. Dim ond nifer fach o'r achosion hyn sydd ar ôl i'w cau.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn cynnal cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda swyddog cyswllt yr IOPC ac yn ystod y rheini caiff Heddlu Dyfed-Powys ei ddwyn i gyfrif am berfformiad o ran delio â chwynion ac ymddygiad. Yn 2018/19 ni chafwyd unrhyw argymhellion sylweddol gan yr IOPC.

## F. Rheoli Risgiau a Pherfformiad drwy Reolaeth Fewnol Gadarn a Threfniadau Rheoli Ariannol Cyhoeddus Cadarn

Mae diwylliant rheoli risg wedi'i wreiddio ar bob lefel yn y ddau sefydliad, ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u monitro drwy gofrestrau risgiau corfforaethol a dynamig. Mae risgiau yn eitem sefydlog ar agendâu pob bwrdd yn yr Heddlu, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn goruchwylio trefniadau rheoli risg ac yn rhoi cyngor ac arweiniad yn rheolaidd.

Mae trefniadau sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y tair llinell o amddiffyn. Y cyntaf yw cyfrifoldeb goruchwyliol; yr ail yw prosesau hapsamplu a gwiriadau sicrhau ansawdd a gynhelir gan reolwyr a'r gwasanaeth archwilio mewnol; a'r trydydd yw sicrwydd annibynnol drwy brosesau craffu yn y byrddau llywodraethu, swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r tîm archwilio allanol ac arolygiaethau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Caiff canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o'r system rheolaeth fewnol eu hystyried gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chânt eu hadolygu'n annibynnol gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Mae trefniadau llywodraethu yn helpu i fonitro perfformiad mewn ffordd amserol a phenodol ar wahanol lefelau yn y sefydliadau. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr Heddlu yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, lle mae'n cynnig her adeiladol ac yn annog trafodaeth am berfformiad y sefydliad. Yn ei dro, mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn dwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyfrif bob chwarter am y ffordd y mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Er bod trefniadau ar waith i fonitro perfformiad, mae lle i wella ein dealltwriaeth o fuddiannau busnes. Mae enghreifftiau o arfer da yn y cynlluniau cyflawni busnes, ond mae angen gwreiddio hyn ym mhob rhan o'r sefydliad, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth gywir a chadarn. I gefnogi hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i ailddiffinio strwythurau adrannol.

## G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod penderfynwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae gwefannau'r ddau ohonynt yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiynydd wedi cael Nod Ansawdd Tryloywder gan Comparing Police and Crime Commissioners (CoPaCC), sef sefydliad cenedlaethol sy'n monitro trefniadau llywodraethu heddluoedd i gydnabod hyd a lled y wybodaeth a geir ar y wefan.

Caiff penderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu cyhoeddi ar ei wefan mewn ffordd amserol ac fe'u cyflwynir yn gyhoeddus i Banel yr Heddlu a Throseddu fel y gall graffu arnynt bob chwarter.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor ar y rhaglen flynyddol o waith archwilio mewnol ac yn llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi prif ganfyddiadau a chanlyniadau'r holl waith archwilio. Caiff argymhellion o ran gwella gwasanaethau eu rhoi ar waith a chyflwynir adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor, ond mae pryderon ar adegau ynghylch pa mor gyflym y caiff camau gweithredu eu cymryd. Fel y cyfryw, mae trefniadau bellach ar waith i ganfyddiadau gweithgarwch Archwilio Mewnol gael eu monitro gan Gyd-grŵp Archwilio a Sicrhau Ansawdd yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd, a fydd yn annog camau i ymateb yn amserol.

At hynny, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn mwy o gyfrifoldeb ym maes craffu annibynnol a rhoi barn ar Argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac ar Nodi a Rheoli Risgiau.

Prin yw capasiti'r heddlu i archwilio a sicrhau ansawdd llawer o agweddau ar brosesau plismona sydd, yn ei dro, wedi effeithio ar y gallu i ddefnyddio canlyniadau archwilio i ysgogi gwelliannau.

## Adolygu effeithiolrwydd

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, o leiaf bob blwyddyn, yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch-reolwyr o fewn y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn bennaf cyfrifol am adolygu trefniadau llywodraethu, gyda chofnodion a chamau gweithredu yn cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, a chaiff Cofnodion y Grŵp hwn eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn coladu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics tystiolaeth a gynlluniwyd i ddangos cydymffurfiaeth Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Yn unol â'r rheoliadau, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif rôl Archwilwyr Mewnol yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, yn un o'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gan gyfeirio at 2018/19, mynegodd yr archwilydd mewnol, TIAA Cyf, y farn ganlynol:

> *"TIAA is satisfied that for the areas reviewed during the year that the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys and Chief Constable Dyfed-Powys Police has reasonable and effective risk management, control and governance processes in place. Also, there was evidence to support the achievement of value for money with regard to economy, efficiency or effectiveness of the systems reviewed. This opinion is based solely on the matters that came to the attention of TIAA during the course of the internal audit reviews carried out during the year and is not an opinion on all elements of the risk management, control and governance processes or the ongoing financial viability which must be obtained by the Police and Crime Commissioner and the Chief Constable from the various sources of assurance".*

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farnau archwilio diamod o ran cyfrifon 2017/18 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r gofyniad statudol newydd i gau cyfrifon yn derfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae'r dyddiad cau

cynharach hwn wedi cael effaith fawr ar yr amserlenni ar gyfer llunio'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ond gwnaed paratoadau digonol ar gyfer hyn a llwyddwyd i'w bodloni.

Ceir crynodeb isod o'r camau gweithredu y cadarnhawyd eu bod yn mynd rhagddynt o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18:

| **Cam gweithredu** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad allweddol fel rhan o broses drws ffrynt newydd ar gyfer syniadau, achosion busnes a gwaith cynllunio yn y dyfodol | **Yn mynd rhagddo:** Cyflwynir modelau achos busnes o fewn Dyfed-Powys. Rhaid i bob achos am adnoddau gael ei gyflwyno mewn achos busnes rhesymegol, sy'n gydnaws â Model Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.<br>Mae templed corfforaethol ar gyfer achosion busnes wedi cael ei ddatblygu a bydd yn sicrhau y cyfeirir at egwyddorion datblygu cynaliadwy. |
| Ymgorffori'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu yn y sefydliad drwy drefniadau llywodraethu priodol, gan gynnwys strwythurau perfformiad. | **Cwblhawyd:** Mae'r cynllun cyflenwi heddlu a throseddu wedi ei ymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn y trefniadau llywodraethu. |
| Cwblhau'r Meysydd i'w Gwella Hanesyddol a oedd wedi'u cynnwys yn arolygiadau Effeithlonrwydd Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi er mwyn gwella graddio ym mhob un o'r pedwar maes. | **Yn mynd rhagddo:** Mae rhaglen dreigl ar waith i graffu ar Feysydd i'w Gwella sy'n weddill yn deillio o arolygiadau'r Arolygiaeth a gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn cwblhau'r rhain. Y gwahanol Fyrddau a Grwpiau Llywodraethu sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r rhain a cheir goruchwyliaeth bellach gan Grŵp Llywodraethu'r Arolygiaeth er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. |
| Pennu a chyhoeddi cynllun o'n prosesau a'n systemau archwilio a'n profion cydymffurfiaeth ein hunain. Cysylltu'r cynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol â'r gofrestr risg. | **Yn mynd rhagddo:** Mae cynllun archwilio wrthi'n cael ei ddatblygu yn dilyn ymarfer i ddeall pa archwiliadau a phrofion sydd eisoes ar waith o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Y Grŵp Archwilio a Sicrhau Ansawdd sy'n gyfrifol am oruchwylio cynnydd mewn perthynas â'r gwaith hwn. |

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o gamau gweithredu 2018/19 a manylir ar y cynnydd a wnaed:

| **Cam gweithredu** | |
|---|---|
| Ymgorffori proses Datganiad Rheoli Heddluoedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a'i defnyddio fel adnodd cynllunio strategol er mwyn nodi bylchau o ran gallu Heddlu Dyfed-Powys a mynd i'r afael â blaenoriaethau plismona. | **Cwblhawyd:** Mae hyn ar waith yn llawn. Roedd gweithgor a gadeiriwyd gan y Dirprwy Brif Gwnstabl wedi cyfarfod bob mis ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu penodau ar gyfer Datganiad Rheoli'r Heddlu 2019/20. Mae disgwyl i Ddatganiad Rheoli 2 2019/20 gael ei gyflwyno ar 31 Mai 2019. |
| Sefydlu 'proses drws ffrynt' er mwyn nodi prosiectau newid mawr sy'n dod i'r amlwg yn gorfforaethol a'u blaenoriaethu, gan sicrhau'r gallu a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r rhaglenni hyn. | **Cwblhawyd:** Mae 'proses drws ffrynt' wedi cael ei sefydlu, drwy'r Fforwm Goruchwylio Newid i gychwyn, er mwyn adrodd i'r Bwrdd Cyllid, Effeithlonrwydd a'r Dyfodol |
| Sefydlu ac ymgorffori'n gyson systemau archwilio a sicrhau ansawdd er mwyn gwella ansawdd data a gwella dull Heddlu Dyfed-Powys o reoli gwybodaeth. | **Camau gweithredu yn mynd rhagddynt:** mae cynnydd wedi cael ei wneud ond mae'n annhebygol y bydd modd datrys hyn yn llawn gan ddefnyddio'r systemau TG presennol. Mae'r gwelliannau a wnaed hyd yma o ran ansawdd data a rheoli gwybodaeth wedi'u nodi isod<br>• Cyflwyniad ar ansawdd data (Llenwi, Gwirio, Paru)<br>• Adolygiad o weithdrefnau paru awtomatig o fewn Cudd-wybodaeth Genedlaethol yr Heddlu (PNI)<br>• Nodi unigolion Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu 1 a mynd i'r afael â chofnodion dyblyg<br>• Newidiadau i brosesau data symudol er mwyn annog gwiriadau cynnar yn erbyn cofnodion PNI a pharu lle bo hynny'n briodol<br>• Cynnal proses gaffael ar gyfer System Rheoli Cofnodion newydd<br>• Arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddechrau mis Chwefror 2019<br><br>Mae angen gwneud mwy o safbwynt diogelwch gwybodaeth. Mae'r heddlu wedi recriwtio Archwilydd Diogelu Data.<br>Caiff cynlluniau archwilio ym maes rheoli gwybodaeth eu datblygu ymhellach pan fydd adnoddau wedi ymwreiddio.<br>Mae diffyg capasiti i gynnal a chydlynu gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol a phrosesau hapsamplu yn effeithio ar lif gwybodaeth drwy'r strwythur llywodraethu, gan gyfyngu ar y gallu i ysgogi gwelliannau. |
| Gwella trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod pwysau ariannol yn cael eu nodi'n gynnar er mwyn hwyluso cynlluniau lliniaru cadarn. | **Camau gweithredu yn mynd rhagddynt:** Mae'r Grŵp Cyllid Aur wedi cael ei sefydlu ac mae 4 is-grŵp yn atebol iddo.<br>Y 4 is-grŵp yw Gweithio Goramser, Cynhyrchu Incwm, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chaffael.<br>At hynny, mae capasiti ychwanegol wedi cael ei recriwtio ar gyfer tîm cyllid yr heddlu. Dechreuodd dau |

| | |
|---|---|
| | Gyfrifydd ychwanegol ym mis Tachwedd 2018 yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyllid ym mis Rhagfyr 2018.<br>Caiff y sefyllfa ariannol ei monitro o hyd drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol a'r Grŵp Cyllid Aur sydd wedi parhau i gyfarfod bob mis.<br>Cynhaliwyd y Seminar Cyllid Blynyddol ar 30 Tachwedd 2018 ac, gan adeiladu ar hyn, 'derbyniodd' Panel yr Heddlu a Throseddu gynnig y Comisiynydd i gynyddu'r praesept 10.7% yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2019.<br>Mae trafodaethau wedi parhau ar gadernid a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig a bydd hyn yn rhoi ffocws i waith yr is-grŵp Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a'r Grŵp Galw ac Effeithlonrwydd dros y misoedd nesaf.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn yr Adran Gyllid i adolygu a symleiddio trefniadau adrodd ariannol ac mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i amseriad a threfn y broses adrodd ariannol drwy'r strwythur llywodraethu. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r strwythur adnoddau gorau ar gyfer yr Adran Gyllid. |
| Datblygu Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn unol â Gweledigaeth Blismona 2025 a blaenoriaethau rhanbarthol, gan nodi'n glir flaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys o ran Ystadau, TGCh, Pobl a darparu gwasanaethau. | **Cwblhawyd:** Mae Strategaeth yr Heddlu wedi cael ei hintegreiddio â gwaith cynllunio strategol hirdymor i'r dyfodol. Nodwyd hyn yng Nghyflwyniad Strategol Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.<br>Cafodd y ddogfen a chrynodeb un dudalen eu cyflwyno i'r Bwrdd Plismona gytuno arnynt. |
| Cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a phrosesau atebolrwydd a chyfathrebu cadarn. | **Camau gweithredu yn mynd rhagddynt:** Cafodd adroddiad ei gyflwyno i Brif Swyddogion a chafodd ei ystyried yn ehangach yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ym mis Mai 2019. Cytunwyd ar strwythur diwygiedig a gaiff ei roi ar waith o 3 Mehefin 2019. |
| Sefydlu ac ymgorffori systemau sicrwydd er mwyn ategu a chefnogi gweithgarwch archwilio a sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau y creffir ar berfformiad mewn modd annibynnol, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd | **Camau gweithredu yn mynd rhagddynt:** Mae ymarferion craffu manwl a phaneli craffu wedi'u sefydlu. Defnyddir adborth gan y cyhoedd i roi ffocws i themâu craffu yn y dyfodol. Bydd fframwaith craffu gwell, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, yn cynyddu'r amrywiaeth o systemau sicrwydd sydd ar gael i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sy'n ymwneud â rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys y cyhoedd. |
| Sefydlu ac ymgorffori gweithgarwch monitro perfformiad mewnol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn darparu ffocws a dangos atebolrwydd ac effeithiolrwydd. | **Cwblhawyd:** Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi datblygu fframwaith dangosyddion perfformiad yn seiliedig ar Brotocol Plismona 2011. Mae hwn wedi cael ei lenwi gan ddata ar gyfer chwarter dau, tri a phedwar 2018/19 a chyflwynwyd adroddiadau chwarterol arno i Banel yr Heddlu a Throseddu er mwyn dangos perfformiad y swyddfa yn erbyn cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd. |

## Barn

Ni all unrhyw ddatganiad rheolaeth fewnol roi sicrwydd absoliwt yn erbyn colled berthnasol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

Ar ôl adolygu'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod trefniadau llywodraethu boddhaol ar waith gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys systemau priodol ym maes rheolaeth fewnol a rheoli risgiau sy'n helpu i sicrhau y caiff swyddogaethau eu cyflawni'n effeithiol.

## Casgliad

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd o fewn Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu ymhellach y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i broses o wella trefniadau llywodraethu'n barhaus a byddant yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Bydd y camau a gaiff eu cymryd a'u rhoi ar waith yn cael eu monitro fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

## Camau Nesaf

| **Cam gweithredu** | **Perchennog** |
|---|---|
| Y gallu a'r capasiti i fynd i'r afael â llygredd yn effeithiol a monitro systemau'n llawn er mwyn nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol | Dirprwy Brif Gwnstabl , Prif Uwcharolygydd Adran Gwasanaethau Pobl |
| Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau adnoddau dynol | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl |
| Cydgysylltu gweithgarwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys | Pennaeth Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Dealltwriaeth well o alw nawr ac yn y dyfodol er mwyn cefnogi gwaith cynllunio i'r dyfodol a llywio strategaethau'r sefydliad | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Ffordd fwy strwythuredig a chyson o ddysgu o ddatrys problemau, camgymeriadau a gwersi a ddysgir. | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Strwythurau llywodraethu a rheolaeth ariannol ar gyfer trefniadau cydweithio. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydweithio |
| Gwreiddio'r Proffil Asesu Datblygiad yn y sefydliad | Dirprwy Brif Gwnstabl, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl. |
| Dealltwriaeth well o fuddiannau busnes | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Amseroldeb wrth roi argymhellion Archwilio Mewnol ar waith | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydweithio a Phennaeth Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Gwerthuso gwasanaethau a gomisiynwyd | Pennaeth Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Purdah ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – rheoli cydberthnasau a sicrhau tegwch a chydraddoldeb. | Pennaeth Staff (a Swyddog Monitro) Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | **Llofnodwyd:** |
| **Dafydd Llewelyn** | **Mark Collins** |
| **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | **Prif Gwnstabl** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

| | | |
|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | **Llofnodwyd:** | **Llofnodwyd:** |
| **Beverley Peatling** | **Carys Morgans** | **Edwin Harries** |
| **Prif Swyddog Ariannol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | **Pennaeth Staff a Swyddog Monitro** | **Cyfarwyddwr Cyllid** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |